Department
for Environment,
Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun rheoli pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer rhywogaethau dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr

Chwefror 2026

Fersiwn: ymgynghoriad cyhoeddus

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:

FMPconsultations@defra.gov.uk

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol ... 7
Cynllun Rheoli Pysgodfa ddyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr ... 9
Disgrifiad o'r pysgodfeydd a'r stociau ... 11
Rheoli Pysgodfeydd ... 33
Ystyriaethau amgylcheddol ... 41
Gweledigaeth y cynllun ... 47
Polisïau'r cynllun ... 47
Gweithredu, monitro ac adolygu ... 90

# Talfyriadau

BMI – menter lliniaru sgil-ddalfeydd

Blim - pwynt cyfeirio terfyn ar gyfer biomas stoc silio

BMP – Rhaglen Monitro Sgil-ddalfeydd

BPA - pwynt cyfeirio rhagofalus ar gyfer biomas stoc silio

Btrigger - gwerth biomas stoc silio sy’n sbarduno cam rheoli penodol

Cefas – Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu

CSPZ – Parth gwarchod y Môr Celtaidd

Defra – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

DG – llywodraeth ddatganoledig

eNGO – corff anllywodraethol amgylcheddol

EU – yr Undeb Ewropeaidd

FMP/y cynllun – cynllun rheoli pysgodfa

FU – uned swyddogaethol. Asesir cimwch Norwy ledled Ewrop fel stociau unigol mewn unedau swyddogaethol.

GES – statws amgylcheddol da

HCR – rheol rheoli cywain

HPMAs – ardaloedd morol dan warchodaeth lem

ICES – Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr

IFCA – awdurdodau pysgodfeydd a chadwraeth y glannau

INNS – rhywogaethau anfrodorol goresgynnol

Itrigger – Mynegai Gwerth Sbardun, gwerth procsi ar gyfer Btrigger o asesiadau o stoc â llai o ddata

JFS – Y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd

JNCC – Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

MAPs – cynlluniau amlflwydd

MarESA – asesiad sensitifrwydd morol yn seiliedig ar dystiolaeth

MCRS – meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf

MCZ – parthau cadwraeth morol

MMO – Y Sefydliad Rheoli Morol

MPA – ardal forol warchodedig

MPS – Datganiad Polisi Morol

MSY – cynnyrch cynaliadwy mwyaf

nm – milltiroedd môr

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

PO – corff cynhyrchwyr

QAM – mecanwaith ar gyfer cwota

REM – monitro electronig o bell

RFMOs – sefydliadau rheoli pysgodfeydd rhanbarthol

ACA – ardaloedd cadwraeth arbennig

SCF – Y Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd

SEA – asesiadau amgylcheddol strategol

SNCB – cyrff cadwraeth natur statudol

AGA – ardaloedd gwarchodaeth arbennig

SRZ – parth adfer lledod chwithig

SSB – biomas stoc silio

$t^{-1}$ - punt fesul tunnell

TAC – dalfa fwyaf a ganiateir

TCA – Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

y Ddeddf – Deddf Pysgodfeydd 2020

DU - y Deyrnas Unedig

UKMS – Strategaeth Forol y DU

VMS - system fonitro cychod (mae i-VMS yn golygu system fonitro cychod y glannau)

# Crynodeb gweithredol

Mae'r cynllun rheoli pysgodfeydd (y cynllun) ar gyfer rhywogaethau dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr yn un o 43 cynllun a nodir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS). Yn y ddogfen hon, byddwn yn cyfeirio ato fel 'y cynllun hwn' neu 'y cynllun'.

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei baratoi at ddibenion Deddf Pysgodfeydd 2020 (y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf' yn y ddogfen hon) yn unol â'r canlynol:

- y gofynion yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd
- adran 6 o'r Ddeddf
- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (rheoliadau SEA)

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi cynlluniau yn unol â'r rhestr a'r amserlen sydd wedi'u cynnwys yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Yr awdurdodau perthnasol ar gyfer y cynllun hwn yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru.

# Beth yw Cynllun Rheoli Pysgodfeydd?

Mae Cynllun Rheoli Pysgodfeydd yn gynllun gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n creu llwybr tuag at gael pysgodfeydd cynaliadwy. Maent yn gynlluniau hirdymor y mae'n rhaid eu hadolygu ac, os oes angen, eu diwygio o leiaf bob 6 blynedd. Bydd cynllun o'r fath yn nodi gweledigaeth a nodau ar gyfer y bysgodfa darged (neu'r pysgodfeydd targed), ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn. Bydd cynlluniau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn ymateb i dystiolaeth newydd a phrofiad ymarferol er mwyn parhau i fod yn effeithiol.

# Pam cynllun ar gyfer rhywogaethau dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr?

Mae hon yn bysgodfa bwysig, sy'n werthfawr yn economaidd, gyda stociau'n ymestyn i ddyfroedd yr Undeb Ewropeaidd (UE), a rhywogaethau'n cael eu dal fel rhan o bysgodfeydd dyfnforol cymysg ac wedi'u targedu. Yn 2023, roedd gwerth glaniadau rhywogaethau'r cynllun gan gychod y Deyrnas Unedig (DU) a'r UE a oedd yn pysgota yn nyfroedd y DU yn ardal y cynllun yn £88.45 miliwn. Mae ardal y cynllun yn cefnogi cymunedau pysgod dyfnforol sy'n bwysig yn ecolegol ac yn economaidd, ac sydd wedi bod o dan bwysau pysgota dwys ers canol yr 20fed ganrif.

Yn unol â hynny, mae'r cynllun hwn yn ymdrin â stociau a allai fod mewn perygl o ganlyniad i or-ecsbloetio sylweddol heb gamau rheoli, sy'n bwysig yn gymdeithasol neu'n economaidd, neu sydd ag arwyddocâd ecolegol, neu sy'n gyfuniad o'r rhain. Mae'r stociau hyn nid yn unig yn ganolog i bysgodfeydd masnachol a hamdden ond maent hefyd yn

chwarae rolau ecolegol hanfodol fel ysglyfaethwyr ac ysglyfaethau, gan gysylltu amryfal lefelau troffig. Er bod rhai stociau'n dangos arwyddion o adfer, mae eraill, yn enwedig gadoid, yn dal i fod yn brin iawn, ac nid oes digon o ddata o hyd ar gyfer llawer o rywogaethau eraill y cynllun er mwyn gwneud asesiadau cadarn. Amlinellir y rhywogaethau a'r stociau sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) sydd wedi datblygu'r cynllun ar ran Defra a Llywodraeth Cymru.

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd â rhanddeiliaid pysgodfeydd, yn cynnwys:

- ymchwilwyr gwyddonol
- awdurdodau pysgodfeydd a chadwraeth y glannau (IFCAs)
- pysgotwyr masnachol a hamdden

Wrth baratoi'r cynllun hwn, roedd y Sefydliad Rheoli Morol hefyd wedi ymgysylltu â'r canlynol:

- cymunedau arfordirol
- busnesau'r gadwyn gyflenwi
- sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol (eNGOs)
- asiantaethau'r llywodraeth

Mae rhagor o fanylion am ymgysylltu ar gael yn adroddiad ymgysylltu ategol y cynllun.

# Gweledigaeth y cynllun

Y weledigaeth ar gyfer y cynllun hwn yw y bydd pysgodfeydd dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn parhau i gael eu rheoli'n gynaliadwy, gan sicrhau bod stociau'n cael eu hadfer a'u cynnal uwchben lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf (MSY). Mae'r nodau polisi a nodir yn y cynllun hwn yn awgrymu sut gellid cyflawni hyn, drwy wneud y canlynol:

- defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail i wneud penderfyniadau, sy'n ceisio llenwi bylchau mewn tystiolaeth, a diwygio ac adolygu gwaith rheoli yng ngoleuni tystiolaeth newydd
- deall effaith pysgodfeydd y cynllun ar yr ecosystem ehangach a'r amgylchedd morol
- sicrhau hyfywedd cymdeithasol ac economaidd hirdymor pysgodfeydd

- addasu dulliau cynaliadwy o reoli pysgodfeydd yng ngoleuni'r newid yn yr hinsawdd

## Nodau polisi

Mae'r cynllun yn defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i asesu statws stociau'r cynllun, yn nodi dulliau rheoli presennol ac yn nodi polisïau a chamau gweithredu i reoli pysgodfeydd y cynllun nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r cynllun yn nodi 10 nod polisi sy'n canolbwyntio ar wella cynaliadwyedd stociau’r cynllun, cryfhau dulliau rheoli rhanbarthol integredig, cefnogi cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd a datblygu tystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau cyfannol a chydweithredol. Dyma nodau'r polisi.

1. Datblygu cynllun adfer amlflwydd ar gyfer stociau gadoid y cynllun.
2. Cywain stociau lledod yn gynaliadwy, gyda biomas yn cael ei gynnal yn uwch na'r lefel sy'n gallu cynhyrchu’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.
3. Cywain stociau cimwch Norwy yn gynaliadwy a rheoli eu sgil-ddalfeydd.
4. Cywain stociau cythraul y môr (Lophius spp.) yn gynaliadwy, gyda biomasau'n cael eu cynnal uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.
5. Rheoli pysgodfeydd elasmobranciaid yn gynaliadwy a rheoli sgil-ddalfeydd.
6. Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y merfog coch.
7. Archwilio'r potensial i ddiwygio dulliau rheoli a dulliau presennol i gydgysylltu a chysoni'r gwaith o reoli stociau'r cynllun yn well.
8. Tuag at reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau.
9. Cefnogi gallu'r sector i addasu a’i wytnwch.
10. Lleihau cyfraniad pysgota at newid yn yr hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

# Cynllun Rheoli Pysgodfa ddyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr

Mae Cynllun Rheoli Pysgodfa ddyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr yn gynllun ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys 40 o rywogaethau a 2 grŵp genws siarcod y dyfnfor ac mae ond yn berthnasol i weithgarwch pysgota yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn rhanbarthau 7e, 7f, 7g a 7h o Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES).

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei baratoi a'i gyhoeddi i gydymffurfio â gofynion yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ac yn adran 6 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, ac i gyfrannu at gyflawni 8 amcan pysgodfeydd y Ddeddf.

Yn ogystal â bodloni gofynion y Ddeddf, mae'r cynllun hefyd yn cefnogi ymrwymiadau ehangach:

- ar ddiogelu'r amgylchedd morol, adfer bioamrywiaeth, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- Bodloni gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004, sydd hefyd yn cael eu galw'n rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (rheoliadau SEA)

Roedd Cynllun Gwella'r Amgylchedd 2023 yn ailddatgan yr ymrwymiad i gyflawni'r cynlluniau.

Mae pob cynllun hefyd yn cefnogi ymrwymiadau o dan y canlynol:

- Datganiad Polisi Morol y DU (MPS)
- Strategaeth Forol y DU (UKMS)
- Menter lliniaru sgil-ddalfeydd bywyd gwyllt morol (BMI)
- Cynlluniau Morol y DU
- Deddf Newid Hinsawdd 2008

Roedd y broses o baratoi ar gyfer y cynllun wedi ystyried y Cynlluniau Morol cyfredol (fel sy'n ofynnol gan adran 58(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) a'r Egwyddorion Amgylcheddol (fel sy'n ofynnol gan adrannau 17(5) (a-e) a 19(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021).

Mae'r cynllun yn gorgyffwrdd â'r canlynol:

- Cynllun Morol y Glannau a'r Môr De-orllewin Lloegr
- Cynllun Morol y Glannau a'r Môr De Lloegr
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Mae amcanion y cynllun yn cyd-fynd ag amcanion y Datganiad Polisi Morol o ran yr uchelgeisiau cyffredin i gyflawni:

- cynaliadwyedd stoc yn y tymor hir ac amgylchedd morol amrywiol ac iach
- ffyniant economaidd i gymunedau arfordirol ac ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd môr
- cyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan mewn penderfyniadau rheoli a chydweithio arnynt
- penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac economaidd-gymdeithasol, gyda phenderfyniadau'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn effeithiol

Mae'r cynllun wedi cael ei baratoi a'i gyhoeddi i gydymffurfio â dyletswydd Gweinidogion Cymru i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (adran 6(1)), ac i gyfrannu at y nodau llesiant ac

amcanion llesiant Gweinidogion Cymru a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adrannau 3 i 5).

Wrth weithredu unrhyw un o bolisïau'r cynllun ac arfer ymreolaeth reoleiddiol y DU, mae'r cynllun hwn yn ymwneud â stociau sy'n cael eu rhannu â'r UE. Bydd yr awdurdodau pysgodfeydd yn ystyried rhwymedigaethau Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) y DU/Undeb Ewropeaidd (UE). Mae hyn yn cynnwys ystyried yr egwyddor o gyflwyno mesurau cymesur ac anwahaniaethol a seilio mesurau rheoli pysgodfeydd ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael. Gan gadw annibyniaeth reoleiddiol, bydd yr awdurdod pysgodfeydd yn ystyried hawliau a buddiannau'r UE, gan gynnwys costau economaidd, wrth ddylunio mesurau rheoli.

# Disgrifiad o'r pysgodfeydd a'r stociau

Grŵp o organebau sy'n gallu rhyngfridio i gynhyrchu epil ffrwythlon yw rhywogaeth. Mae stoc bysgod yn boblogaeth o bysgod o'r un rhywogaeth sy'n byw mewn ardal ddaearyddol benodol. Gall pysgodfa gyfeirio at y rhan o stoc sydd wedi'i thargedu i'w dal mewn ardal ddaearyddol benodol neu drwy ddull pysgota penodol.

## Trosolwg o stociau a rhywogaethau’r cynllun

Mae'r rhywogaethau yn y cynllun, sy’n ddyfnforol, ac felly'n byw ar wely'r môr neu'n agos ato, yn cynnwys stociau sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn ardal y cynllun:

- gallai'r stoc fod mewn perygl o ganlyniad i or-ecsbloetio sylweddol heb gamau rheoli, gan gynnwys y gofyniad i gael cynlluniau adfer, neu lle mae'r mesurau rheoli presennol wedi dyddio neu heb gyrraedd y nod rheoli
- mae'r stoc a'i physgodfeydd cysylltiedig yn bwysig yn gymdeithasol neu'n economaidd
- mae arwyddocâd ecolegol i'r stoc, gan gynnwys ffactorau fel ei heffaith ar yr ecosystem a'i rhyngweithiadau â rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, gan gynnwys rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod.

Mae pwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd yn cyfeirio at ffactorau fel:

- lefelau cyflogaeth
- incwm lleol
- diddordeb mewn pysgota hamdden
- cyfraniad at gymunedau arfordirol
- strwythurau cyfreithiol, llywodraethol a rheoleiddiol

Pan gafodd y meini prawf eu cymhwyso, nodwyd o leiaf 40 o rywogaethau a 2 grŵp genws siarcod y dyfnfor. O ystyried cymhlethdod a nifer y rhywogaethau a stociau sydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y cynllun, mae’r cynllun wedi trefnu rhywogaethau fesul urdd. Yr eithriad i hyn yw elasmobranciaid, sydd wedi'u trefnu'n ôl ‘morgathod’ sy’n cynnwys rajiformes, a ‘siarcod y dyfnfor’, sy'n cynnwys squaliformes, carcharhiniformes a hexanchiformes). Mae hyn yn helpu i strwythuro'r dull gyda rhywogaethau wedi'u targedu neu ddull rheoli sy’n benodol i stoc wedi'u cynnwys ar gyfer pob urdd.

Mae ICES yn categoreiddio stociau pysgod yn 6 grŵp (categorïau 1 i 6) ar sail maint ac ansawdd y data sydd ar gael, sy'n pennu math a dibynadwyedd asesiadau a chyngor gwyddonol. Mae categori 1 yn cynnwys asesiadau dadansoddol llawn, gyda llai o ddata ym mhob categori wedyn wrth fynd ymlaen, gyda chategori 6 yn cynnwys stociau gyda glaniadau sgil-ddalfa dibwys neu gyfyngedig yn unig. Mae rhagor o fanylion am derminoleg asesu stoc ICES a ddefnyddir isod ar gael yn y ddogfen ganlynol gan Seafish: [Guide to fish stock assessment and ICES reference points].

Mae cyfanswm o 37 o stociau gyda chyngor ICES yng nghwmpas y cynllun hwn (sylwch nad yw ICES yn rhoi cyngor ar gyfer pob rhywogaeth, a bydd gan rai rhywogaethau nifer o stociau diffiniedig). O blith y 37 o stociau, mae gan 20 ddigon o dystiolaeth wyddonol ar gael i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf y stoc; ond nid oes gan 17 ohonynt.

Nid oes gan y rhan fwyaf o'r rhywogaethau a enwir sy'n weddill yn y cynllun hwn ddigon o dystiolaeth i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf, nac unrhyw gyngor gan ICES nac fel arall ar gyfer ardal y cynllun, naill ai oherwydd na chredir eu bod yn meddiannu ardal y cynllun oherwydd dyfnder dŵr, maent ond yn cael eu dal fel sgil-ddalfa mewn niferoedd sy'n ddigon bach yr ystyrir nad ydynt yn risg i'r stoc, neu oherwydd eu bod yn rhywogaethau gwaharddedig. Mae nod polisi 5 yn cynnwys rhagor o fanylion am rywogaethau elasmobranciaid y mae'r cynllun hwn yn cynnig eu hystyried.

## Gadoids

**Morlas** (Pollachius pollachius)

- Cod stoc ICES: pol.27.67. Isardaloedd 6–7 (Y Môr Celtaidd a Sianel Lloegr).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio o dan $B_{trigger}$ a rhwng $B_{PA}$ a $B_{lim}$. Cyngor ICES i’w ddiweddaru yn 2026.

**Penfras** (Gadus morhua)

- Cod stoc ICES: cod.27.7e-k. Rhanbarthau 7e–k (Gorllewin Sianel Lloegr a De'r Môr Celtaidd).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio o dan $B_{trigger}$, $B_{PA}$ a $B_{lim}$. Cyngor ICES i’w ddiweddaru yn 2026.

**Gwyniad môr** (Merlangius merlangus)

- Cod stoc ICES: whg.27.7b-ce-k. Rhanbarthau 7b–c a 7e–k (De'r Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio o dan $B_{trigger}$, $B_{PA}$ a $B_{lim}$.. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Hadog** (Melanogrammus aeglefinus)

- Cod stoc ICES: had.27.7b-k. Rhanbarthau 7b–k (De'r Môr Celtaidd a Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio o dan $B_{trigger}$, ond uwchben $B_{lim}$. A $B_{PA}$ . Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Chwitlyn glas** (Pollachius virens)

- Cod stoc ICES: pok.27.7-10. Isardaloedd 7–10 (De'r Môr Celtaidd a Sianel Lloegr, Bae Gwasgwyn, dyfroedd Iberaidd yr Iwerydd, tiroedd Azores).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

**Grenadwr trwyngrwn** (Coryphaenoides rupestris)

- Cod stoc ICES: rng.27.5b6712b. Isardaloedd 6 a 7 a rhanbarthau 5.b a 12.b (Y Môr Celtaidd a Sianel Lloegr, tiroedd Faroe, a gorllewin Hatton Bank).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5.2, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Honos glas** (Molva dypterygia)

- Cod stoc ICES: bli.27.5b6712. Isardaloedd 6–7 a 12 ac yn Rhanbarth 5.b (Y Môr Celtaidd, tiroedd Faroe, a gorllewin Hatton Bank).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio uwchben $B_{lim}$ a $B_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

## Lledod

**Lleden chwithig** (Solea solea)

- Cod stoc ICES: sol.27.7e. Rhanbarth 7e (Gorllewin Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio uwchben $B_{lim}$, $B_{trigger}$ a $B_{PA}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.
- Cod stoc ICES: sol.27.7fg. Rhanbarthau 7f a 7g (Môr Hafren, y Môr Celtaidd).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio uwchben $B_{lim}$, $B_{trigger}$ a $B_{PA}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.
- Cod stoc ICES: sol.27.7h-k. Rhanbarthau 7h–k (Y Môr Celtaidd, i'r de-orllewin o Iwerddon).

- yn seiliedig ar [gyngor cyfredol ICES]: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Lleden goch** (Pleuronectes platessa)

- Cod stoc ICES: ple.27.7e. Rhanbarth 7e (Gorllewin Sianel Lloegr).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 3, cyngor procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, mynegai maint y stoc o dan $I_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2027.
- Cod stoc ICES: ple.27.7fg. Rhanbarthau 7f a 7g (Môr Hafren, y Môr Celtaidd).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 3, cyngor procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc o dan $I_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.
- Cod stoc ICES: ple.27.7h-k. Rhanbarthau 7h–k (Y Môr Celtaidd, i'r de-orllewin o Iwerddon).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 3, cyngor procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, mynegai maint y stoc uwchben $I_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Lleden Fair** (Lepidorhombus whiffiagonis)

- Cod stoc ICES: meg.27.7b-k8abd. Rhanbarthau 7b–k, 8a–b, ac 8d (i'r gorllewin a'r de-orllewin o Iwerddon, Bae Gwasgwyn).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio uwchben Blim, Btrigger a BPA. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Lleden Fair bedwar-smotyn** (Lepidorhombus boscii)

- Cod stoc ICES: ldb.27.7b-k8abd. Rhanbarthau 7.b–k, 8.a–b, ac 8.d (i'r gorllewin a'r de-orllewin o Iwerddon, Bae Gwasgwyn).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

## Cythraul y môr

**Cythraul y môr** (Lophius piscatorius)

- Cod stoc ICES: mon.27.78abd. Isadran 7 ac yn rhanbarthau 8a–b ac 8d (i'r de o'r Môr Celtaidd, Bae Gwasgwyn).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio uwchben $B_{lim}$, $B_{trigger}$ a $B_{PA}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Maelgi** (Lophius budegassa)

- Cod stoc ICES: ank.27.78abd. Isadran 7 a rhanbarthau 8a–b ac 8d (Y Môr Celtaidd, Bae Gwasgwyn).

- yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc silio uwchben $B_{lim}$, $B_{trigger}$ a $B_{PA}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

## Cimwch Norwy

**Cimwch Norwy** (Nephrops norvegicus)

- Cod stoc ICES: nep.27.7outFU. Isadran 7, y tu allan i'r unedau swyddogaethol (De'r Môr Celtaidd, i'w de-orllewin o Iwerddon).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.
- Cod stoc ICES: nep.fu.22. Rhanbarthau 7f a 7g, Uned Swyddogaethol 22 (Y Môr Celtaidd, Môr Hafren).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc o dan $B_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2025.
- Cod stoc ICES: nep.fu.2021. Rhanbarthau 7g a 7h, unedau swyddogaethol 20 a 21 (Y Môr Celtaidd).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 1, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc uwchben $B_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2025.

## Morgathod

**Morgath felen** (Raja brachyura)

- Stoc ICES: rjh.27.7afg. Rhanbarthau 7a a 7f–g (Môr Iwerddon, Môr Hafren, Gogledd y Môr Celtaidd).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.
- Cod stoc ICES: rjh.27.7e. Rhanbarth 7e (Gorllewin Sianel Lloegr).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

**Morgath ddreiniog** (Raja clavata)

- Cod stoc ICES: rjc.27.7afg. Rhanbarthau 7a a 7f–g (Môr Iwerddon, Môr Hafren, Gogledd y Môr Celtaidd).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 3, cyngor procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, dangosydd maint y stoc uwchben $I_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.
- Cod stoc ICES: rjc.27.7e. Rhanbarth 7e (Gorllewin Sianel Lloegr).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

**Morgath lygadog** (Leucoraja naevus)

- Cod stoc ICES: rjn.27.678abd. Isadrannau 6 a 7, ac yn rhanbarthau 8.a–b ac 8.d (Gorllewin yr Alban, de'r Môr Celtaidd, a Gorllewin Sianel Lloegr, Bae Gwasgwyn).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 2, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, biomas uwchben $B_{lim}$ a $B_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Morgath fannog** (Raja montagui)

- Cod stoc ICES: rjm.27.7ae-h. Rhanbarthau 7a a 7e–h (De'r Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 3, cyngor procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, maint y stoc uwchben $I_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Morgath lygaid-bach** (Raja microocellata)

- Cod stoc ICES: rje.27.7de. Rhanbarthau 7d a 7e (Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.
- Cod stoc ICES: rje.27.7fg. Rhanbarthau 7f a 7g (Môr Hafren, Gogledd y Môr Celtaidd).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 3, cyngor procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, dangosydd maint y stoc uwchben $I_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Morgath gron** (Leucoraja circularis)

- Cod stoc ICES: rji.27.67. Isardaloedd 6–7 (Gorllewin yr Alban, i'r de o'r Môr Celtaidd, Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

**Morgath donnog** (Raja undulata)

- Cod stoc ICES: rju.27.7de. Rhanbarthau 7d a 7e (Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 2, cyngor cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar waith, biomas uwchben $B_{lim}$ a $B_{trigger}$. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

**Morgath gribog** (Leucoraja fullonica)

- Cod stoc ICES: rjf.27.67. Isardaloedd 6–7 (Gorllewin yr Alban, i'r de o'r Môr Celtaidd, Sianel Lloegr).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 5, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

**Morgath las** (Dipturus batis) **a morgath drwynfain** (Dipturus intermedius)

- Stoc ICES: rjb.27.67a-ce-k. Isardan 6 a rhanbarthau 7a–c a 7e–k (Y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr).

    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 6, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2028.

**Morgath wen** (Rostoraja alba)

- Cod stoc ICES: rja.27.nea. Isardaloedd 1-10, 12 a 14 (Gogledd-ddwyrain dyfroedd yr Iwerydd a dyfroedd cyfagos).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 6, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2027.

Gan nad yw'r morgathod yn ardal y cynllun wedi'u dyrannu'n llawn i unedau asesu ICES (oherwydd dosbarthiad gofodol a diffyg data), bydd y cynllun hefyd yn ystyried y forgath felen, y forgath ddreiniog a'r forgath lygaid-bach yn Rhanbarth 7h, a'r forgath donnog yn Rhanbarthau 7f-h. Yn ogystal â'r rhywogaethau a'r stociau a aseswyd uchod, ystyrir bod y forgath drwynfain (Dipturus oxyrinchus) hefyd yn berthnasol i'r cynllun hwn.

Nid yw rhywogaethau morgathod a gofnodwyd mewn data glanio, ond nad ydynt wedi cael eu harsylwi mewn arolygon gwyddonol yn yr ardal, wedi cael eu cynnwys yn y cynllun. Y rheswm am hyn yw bod adroddiadau glanio yn debygol o fod oherwydd camadnabod. At ddibenion y cynllun, dim ond aelodau o'r urdd Rajiformes sy'n cael eu hystyried, gan mai dyma'r prif rywogaethau masnachol ac maent wedi'u cynnwys yn y gwaith o reoli'r ddalfa fwyaf a ganiateir. Felly, nid yw'r fersiwn hon o'r cynllun yn cynnwys y forgath ddu (urdd Myliobatiformes) na'r gath fôr drydan (Torpediniformes).

## Merfog coch

**Merfog coch** (Pagellus bogaraveo)

- Cod stoc ICES: sbr.27.6-8. Isardaloedd 6–8 (Y Môr Celtaidd a Sianel Lloegr, Bae Gwasgwyn).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 6.3, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2026.

## Siarcod y dyfnfor

**Morgi asgell barcud** (Dalatias licha)

- Cod stoc ICES: sck.27.nea. Isardaloedd 1-10, 12 a 14 (Gogledd-ddwyrain dyfroedd yr Iwerydd a dyfroedd cyfagos).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 6, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2027.

**Morgi cegeidiol deilgen** (Centrophorus squamosus)

- Cod stoc ICES: guq.27.nea. Isardaloedd 1-10, 12 a 14 (Gogledd-ddwyrain dyfroedd yr Iwerydd a dyfroedd cyfagos).
    - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 6, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2027.

**Morgi Portiwgal** (Centroscymnus coelolepis)

- Cod stoc ICES: cyo.27.nea. Isardaloedd 1-10, 12 a 14 (Gogledd-ddwyrain dyfroedd yr Iwerydd a dyfroedd cyfagos).
  - yn seiliedig ar gyngor cyfredol ICES: categori data 6, mae ICES yn cynghori dull rhagofalus ar hyn o bryd. Cyngor ICES i'w ddiweddaru yn 2027.

Nid oes gan ICES unrhyw gyngor ar gyfer siarcod y dyfnfor isod ac nid oes cyngor fel arall ar eu cyfer mewn perthynas ag ardal y cynllun chwaith:

- cath-siarc y dyfnfor (Apristurus spp.)
- morgi crych (Chlamydoselachus anguineus)
- morgi cegeidiol (Centrophorus spp.)
- morgi melfed hirdrwyn (Centroscymnus crepidater)
- morgi du (Centroscyllium fabricii)
- morgi pig aderyn (Deania calceus)
- morgi llusern mwyaf (Etmopterus princeps)
- morgi seithliw (Etmopterus spinax)
- cath-siarc llwydaidd (Galeus murinus)
- morgi chwethagell trwynbwl (Hexanchus griseus)
- morgi garw asgell hwyl (Oxynotus paradoxus)
- morgi dannedd pigfain (Scymnodon ringens)
- morgi'r Ynys Las (Somniosus microcephalus)

## Ardal ddaearyddol


Mae'r cynllun yn cwmpasu dyfroedd Cymru a Lloegr rhanbarthau 7e, 7f, 7g a 7h ICES (gweler ffigur 1).

Bydd nodau polisi'r cynllun hwn yn cael eu gweithredu gan awdurdodau pysgodfeydd Cymru a Lloegr yn eu dyfroedd eu hunain fel y bo'n briodol. Mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn gyfrifol am reoli pysgodfeydd a chynnal gweithgareddau sicrwydd yn nyfroedd Lloegr hyd at 200nm ac mae'n arwain ar reoli gweithgareddau pysgota rhwng 6 a 200nm. Yn ardal y cynllun, mae Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCAs) De Lloegr, Dyfnaint a Hafren, Cernyw ac Ynysoedd Scilly yn cyflawni gwaith rheoli a gwarchod pysgodfeydd ychwanegol ym mharth 0 i 6 nm y glannau (gweler ffigur 1). Ar ben hynny, mae dyfroedd Lloegr wedi'u rhannu'n 11 ardal cynllun morol sy'n dod o dan 6 chynllun morol.

Datblygwyd y cynllun hwn yn unol â Chynllun Morol y Glannau a'r Môr De-orllewin Lloegr a Chynllun Morol y Glannau a'r Môr De Lloegr.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau pysgodfeydd cenedlaethol, yn ogystal â gweithredu a gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd berthnasol y

DU ym Mharth Cymru. Mae Parth Cymru yn cynnwys ardaloedd ar y glannau (hyd at 12 nm) ac ar y môr, y diffinnir fel y môr cyfagos at Gymru o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain, hyd at y llinell ganol rhwng dyfroedd Lloegr ac Iwerddon (Adran 158, Deddf Llywodraeth Cymru 2006). Datblygwyd y cynllun hwn yn unol â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.




**Ffigur 1. Ffiniau awdurdodaethol ac ardaloedd Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yng nghwmpas y cynllun. (Hawlfraint a hawl cronfa ddata Collins Bartholomew, ICES a'r Sefydliad Rheoli Morol 2025).**

Mae Ffigur 1 yn dangos hyd a lled daearyddol ardal y cynllun. Mae'r map yn dangos rhanbarthau 7e, 7f, 7g a 7h ICES yng Nghymru a de-orllewin Lloegr, Gorllewin Sianel Lloegr a'r Môr Celtaidd. Mae ardaloedd canlynol Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau wedi'u marcio ar hyd yr arfordir: Cernyw, Dyfnaint a Hafren, Ynysoedd Scilly a De Lloegr. Mae ffiniau môr tiriogaethol eraill a llinell parth economaidd unigryw'r DU hefyd wedi'u nodi.

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob cwch sy'n gweithredu yn ardal y cynllun. Mae gan gychod masnachol y DU a'r UE sy'n gweithredu yn yr ardal hon fynediad at y stociau a rennir sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE.

## Bioleg rhywogaethau a'u dosbarthiad

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o nodweddion biolegol ac ecolegol gwahanol grwpiau rhywogaethau'r cynllun. Mae rhagor o wybodaeth fanwl ar gael yn y datganiad tystiolaeth atodol.

### Gadoids

Mae’r morlas, y penfras, y gwyniad môr, yr hadog, y chwitlyn glas, y grenadwr trwyngrwn a’r honos glas i gyd yn perthyn i is-grŵp o'r enw Gadidae (sydd hefyd yn cael eu galw’n ‘gadoids’). Mae morleisiaid yn dangos amrywiaeth o ymddygiadau gofodol a gellir dod o hyd iddynt yn ymgasglu o amgylch strwythurau ffisegol ac mewn dŵr agored. Er nad oes amcangyfrifon aeddfedrwydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y morleisiaid yn ardal y cynllun, mae data o ardaloedd eraill yn awgrymu eu bod aeddfedu ar ôl tua 3 blynedd.

Yn debyg iawn i rywogaethau eraill gadoid, mae penfreision ifanc i'w gweld yn aml yn nyfroedd y glannau, tra bod y rhai hŷn yn byw mewn dyfroedd dyfnach. Mae'r rhan fwyaf o'r penfreision sy'n silio yn y Môr Celtaidd i'w gweld yng ngogledd Cernyw ym mis Mawrth a mis Ebrill. Mae rhywfaint o silio ym Môr Iwerddon ac yng Ngorllewin Sianel Lloegr hefyd (Ellis 2012).

Mae gwyniaid môr a hadogiaid i'w gweld ar draws amrywiaeth o is-haenau gwely'r môr, gan gynnwys tywod a mwd. Mae gwyniaid môr yn tyfu'n gyflym, gan gyrraedd aeddfedrwydd yn 2 oed. Yn yr un modd, mae hadogiaid y Môr Celtaidd yn aeddfedu pan fyddant tua 2 i 3 blwydd oed, gyda'r tymor silio'n ymestyn o fis Chwefror i fis Mai. Mae larfâu hadog yn tueddu i ddeor o fewn 1 i 3 wythnos, yn dibynnu ar dymheredd y dŵr.

Mae chwitlyniaid glas yn absennol gan mwyaf o ardaloedd deheuol y Môr Celtaidd a Sianel Lloegr, felly nid oes llawer o wybodaeth am ecoleg a strwythur stoc chwitlyniaid glas yn y rhanbarth.

Gellir dod o hyd i grenadwyr trwyngrwn ger gwely'r môr ac ystyrir eu bod yn nofwyr gwael ac felly'n annhebygol o fudo ymhell. Maent yn tyfu’n araf fel arfer, ac mae benywod yn

tyfu’n fwy na gwrywod. Er nad oes ardaloedd silio penodol wedi cael eu nodi, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y cyfnodau silio'n amrywio'n ddaearyddol (Lorance  2008).

Mae diffyg honosiaid glas yn nata'r arolwg o ardal y cynllun yn debygol o fod o ganlyniad i ystod dyfnder arolygon yn yr ardal. Er y gwyddys bod y rhywogaethau'n dod at ei gilydd i silio (Large  2010), nid oes unrhyw ardaloedd silio hysbys yn ardal y cynllun (Lorance and Vieira, 2023).

## Lledod

Mae’r lleden chwithig, lleden goch, lleden Fair a lleden Fair bedwar-smotyn i gyd yn perthyn i is-urdd mawr o ledod o'r enw Pleuronectiformes (y cyfeirir atynt fel lledod yn y ddogfen hon).

Mae lledod yn silio rhwng mis Ebrill a Mai yn ardal y cynllun ac fel arfer yn defnyddio cynefinoedd morydol a pharthau arfordirol fel magwrfeydd (Cefas, 2000; Ellis 2012). Mae lledod benywaidd a gwrywaidd yn aeddfedu pan fyddant tua 28 centimetr (cm) a 23 i 24cm o hyd, yn y drefn honno. Fel sawl rhywogaeth arall o ledod, mae lledod chwithig fel arfer yn aros mewn dyfroedd bas pan fyddant yn ifanc, gan symud ymhellach o'r glannau ac i mewn i ddŵr dyfnach wrth iddynt dyfu.

Rydym yn gwybod bod lledod coch yn silio rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth yn ardal y cynllun (Cefas, 2000). Mae lledod coch benywaidd a gwrywaidd yn aeddfedu pan fyddant tua 31cm i 33cm a 25cm o hyd, yn y drefn honno.

Mae’n well gal ledod Mair a lledod Mair bedwar-smotyn gynefinoedd mwdlyd yn y gwaelod. Mae rhywfaint o wahanu ar sail rhyw, gyda gwrywod ifanc ac aeddfed yn cael eu canfod yn gyffredinol mewn dyfroedd dyfnach a benywod anaeddfed i’w gweld mewn dyfroedd mwy bas. Mae silio'n digwydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, ac mae ar ei anterth yn y Môr Celtaidd (rhanbarthau 7b i 7k ICES) ym mis Mawrth ar hyd ymyl ysgafell de a de-orllewin Iwerddon.

## Cythraul y môr

Mae cythreuliaid y môr a maelgwn yn perthyn i urdd o'r enw Lophiiformes. Mae cythraul y môr yn bysgodyn gwely’r môr canolig ei faint sydd fel arfer yn llai na 140cm o hyd. Mae’r maelgi’n tueddu i fod yn llai, yn aml yn llai na 90cm o hyd ac fel arfer yn llai niferus. Nid oes llawer o wybodaeth ar gael am silio a magwrfeydd cythreuliaid y môr a maelgwn, ond credir bod y ddwy rywogaeth yn silio ar ymyl y llethr neu’r ysgafell gyfandirol (Ellis 2012) a fyddai y tu allan i ardal y cynllun fel arfer. Yn yr un modd â chythreuliaid y môr, mae cyfnodau silio maelgwn yn amrywio'n ofodol.

### Cimwch Norwy

Mae cimychiaid Norwy yn gramenogion sydd wedi'u dosbarthu'n eang ar waddod meddal, mwdlyd o amgylch arfordir Prydain ar ddyfnder o hyd at 800 metr, er nad oes cofnodion bod y rhywogaeth hon i'w gweld yn Sianel Lloegr. Mae cimychiaid Norwy fel arfer yn cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol yn 2 i 3 oed, ac mae ganddynt gylch atgenhedlu blynyddol.

### Morgathod

Mae morgathod yn elasmobranciaid ac er bod maint rhywogaethau morgathod y cynllun yn amrywio, mae pob rhywogaeth yn debyg yn forffolegol. Mae ffrwythlondeb y morgathod yn ansicr braidd, er y credir bod ffrwythlondeb blynyddol yn cynyddu gyda hyd a bod benywod yn gyffredinol yn aeddfedu i fod yn fwy na gwrywod. Ychydig a wyddom am y tymor dodwy wyau, ond credir ei fod ar ei uchaf ddiwedd y gwanwyn/dechrau'r haf ar gyfer y forgath ddreiniog, tra gall y forgath lygadog ddodwy wyau dros lawer o'r flwyddyn. Mae'r embryonau yn cymryd misoedd lawer i ddatblygu, ac mae'n debygol y bydd yr amser datblygu'n gysylltiedig â thymheredd y môr.

### Merfog coch

Mae'r merfog coch yn forgath asgellog sy'n perthyn i deulu'r Sparidae. Mae ardaloedd magu i'w cael fel arfer mewn dyfroedd bas, ac mae oedolion i'w gweld mewn ardaloedd dyfnach yn y môr. Mae gan y merfogiaid cochion hanes bywyd cymhleth gyda chymysgedd o unigolion gwrywaidd, benywaidd a deurywiol yn y boblogaeth. Credir bod unigolyn yn newid o fod yn wryw i fod yn fenyw pan fydd yn fwy o ran maint.

### Siarcod y dyfnfor

Mae siarcod y dyfnfor hefyd yn rhan o'r grŵp elasmobranciaid ac fel arfer maent yn byw mewn dyfnderoedd sy'n fwy na 500 metr (ICES, 2020), mewn amrywiaeth o amgylcheddau. Yn gyffredinol, mae siarcod y dyfnfor yn tyfu'n araf ac mae eu ffrwythlondeb yn isel, sy'n eu gwneud yn agored iawn i newidiadau amgylcheddol ac effeithiau a achosir gan bobl. (gweler, er enghraifft, Vieira  2019; Finucci  2024).

## Trosolwg o bysgodfa fasnachol

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Sefydliad Rheoli Morol a Seafish i ddisgrifio ac asesu cyflwr y bysgodfa. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y datganiad tystiolaeth ategol.

Mae gwerthoedd elasmobranciaid yn y ffigurau a'r tablau a gyflwynwyd yn cynnwys holl forgathod a siarcod y dyfnfor yn y cynllun. O ganlyniad i nifer isel y glaniadau a gofnodwyd

yn ardal y cynllun, dim ond grŵp dethol o forgathod sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu rheoli ymhellach (gweler yr adran 'trosolwg o stociau a rhywogaethau'r cynllun' am ragor o fanylion).

Mae'r rhywogaethau sydd o fewn cwmpas y cynllun yn cael eu dal ar draws amrywiaeth o is-setiau pysgodfeydd tymhorol a rhai sy'n benodol i offer, ac yn cael eu dal yn fwy cyffredinol mewn pysgodfeydd cymysg gyda stociau cwota eraill yn rhan bwysig o enillion pysgotwyr ar draws pysgodfeydd targed gwahanol (hynny yw, wrth dargedu stociau cwota). Mae'r data a gyflwynir isod ar gyfer rhywogaethau'r cynllun yn cynnwys yr holl stociau o rywogaethau sydd o fewn cwmpas y cynllun, sydd wedi'u cynnwys yn ardal y cynllun o fewn rhanbarthau 7e, f, g ac h ICES. Sylwch fod y rhain yn cynnwys glaniadau wedi'u cyfrannu i Barth Economaidd Neilltuedig y DU, nad yw'n cynnwys y rhanbarthau ICES yn llawn nac yn cynnwys ffiniau cyfan y stoc. Mae'r wybodaeth isod am bwysau a gwerth glaniadau wedi cael ei thynnu o ddata glaniadau pysgodfeydd masnachol ar gyfer y blynyddoedd 2019 i 2023 er mwyn gallu cymharu'r data sydd ar gael ar gyfer cychod y DU a'r UE. Fodd bynnag, lle ystyriwyd bod angen darparu cyd-destun ychwanegol ar gyfer cyflwr presennol y bysgodfa neu stociau, mae set ddata fwy estynedig wedi cael ei defnyddio rhwng 2013 a 2023. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chyflwyno i roi trosolwg o bwysigrwydd masnachol rhywogaethau'r cynllun.

Rhwng 2019 a 2023, roedd cyfanswm glaniadau pysgodfeydd masnachol o ddyfroedd y DU gan gychod y DU a'r UE tua 5,615,400 t. Roedd glaniadau rhywogaethau'r cynllun yn cyfrif am tua 833,200 t o'r cyfanswm.

## Glaniadau cychod y DU a'r UE

Cyfanswm glaniadau cyfun y DU a'r UE (dros gyfnod cyfeirio rhwng 2019 a 2023) o rywogaethau'r cynllun yn ardal y cynllun yw 130,749 t, sy'n werth £464.85 miliwn.

Yn ôl pwysau'r glaniadau, roedd glaniadau'r DU a'r UE wedi'u rhannu ar 44,750 t (34.2%) ac 85,999 t (65.8%) yn y drefn honno. Roedd glaniadau cychod yr UE yn cynrychioli gwerth, sy'n cyfateb i £281.31 miliwn (60.5%), gyda glaniadau cychod y DU yn £183.54 miliwn (39.5%).

Roedd pwysau fesul tunnell ($t^{-1}$) glaniadau yn uwch gan gychod y DU dros y cyfnod cyfeirio hwn, gyda glaniadau'r DU yn £4,102 $t^{-1}$ a glaniadau'r UE yn £3,271 $t^{-1}$. Gellir priodoli'r gwahaniaeth mewn gwerth glaniadau cyfrannol i werth uwch glaniadau lledod chwithig gan fflydoedd y DU.

Rhwng 2019 a 2023, glaniodd cychod o'r DU 8,950 t ar £36.71 miliwn o rywogaethau'r cynllun bob blwyddyn ar gyfartaledd; glaniodd cychod o'r UE 17,200 t ar £56.26 miliwn. Fodd bynnag, mae gostyngiad cyffredinol yn niferoedd glaniadau'r UE, gan ostwng o 26,804 t yn 2013 i 13,128 t yn 2023, gyda'r gostyngiad mwyaf nodedig rhwng 2017 a 2018 o 22,577 t i 18,313 t.

Nid oedd gwerth glaniadau yn gostwng yn gymesur â'r gostyngiad mewn pwysau glaniadau. Yn hytrach, roedd yn arddangos cylch bron yn flynyddol uchel yna isel, sef £89.20 miliwn ar gyfartaledd, yn amrywio o £73.41 miliwn i £105.06 miliwn.

I'r gwrthwyneb, roedd pwysau glaniadau cychod o rywogaethau'r cynllun yn y DU wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2013 a 2023, yn amrywio o 8,233 t i 10,781 t, gan ddangos gostyngiad bach o 2016 ymlaen.

Fodd bynnag, roedd gwerth glaniadau cychod y DU yn dangos cynnydd amlwg, gan gynyddu o £26.77 miliwn i £39.66 miliwn yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r punnoedd fesul tunnell o laniadau dros y cyfnod cyfeirio hwn ar gyfer cychod y DU a'r UE wedi cynyddu rhwng 2013 a 2023 gyda'r DU yn cynyddu £1,979 $t^{-1}$ o £2,547 $t^{-1}$ yn 2013 i £4,526 $t^{-1}$ yn 2023; a'r UE £1,357 $t^{-1}$ o £2,356 $t^{-1}$ yn 2013 i £3,713 $t^{-1}$ yn 2023 gan wrthbwyso rhai newidiadau o ran pwysau glaniadau.

Mae glaniadau rhwng fflydoedd y DU a'r UE yn wahanol o ran cyfansoddiad rhywogaethau sy'n sbarduno'r gwahaniaeth mewn gwerth glanio.

## Glaniadau yn ôl grŵp neu rywogaeth

Ceir trosolwg o laniadau pob grŵp yn ôl pwysau a gwerth yn nhablau 1 i 4. Mae'r ffigurau'n rhoi darlun gweledol o laniadau grwpiau'r cynllun o'r set ddata gyfan, rhwng 2013 a 2023.

Yn 2023 (gweler tabl 3), y lledod o fewn cwmpas y cynllun oedd â'r gwerth masnachol uchaf, sef cyfanswm o £43.00 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan laniadau lledod chwithig (£34.62 miliwn), ac yna lledod Mair (£5.07 miliwn) a lledod cochion (£3.31 miliwn).

Cythreuliaid y môr oedd yr ail grŵp pwysicaf, gwerth cyfanswm o £22.01 miliwn.

Gadoids oedd yn drydydd, gwerth £12.49 miliwn, yn cynnwys hadogiaid (£4.88 miliwn), gwyniaid môr (£4.26 miliwn) a morleisiaid (£2.53 miliwn).

Roedd gan gimychiaid Norwy bwysigrwydd masnachol cymedrol (£4.88 miliwn), gyda gwerth glaniadau yn fwy arwyddocaol i bysgotwyr yr UE (£3.90 miliwn).

Gwerth y grŵp elasmobranciaid yn 2023 oedd £6.04 miliwn.

**Tabl 1. Cyfanswm glaniadau (cychod y DU a'r UE) grwpiau'r cynllun yn ôl pwysau (tunelli) rhwng 2019 a 2023.**

| Grŵp | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cythreuliaid y môr** | 5,755 | 5,964 | 6,758 | 6,898 | 6,249 | 6,325 |

| Grŵp | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Elasmobranciaid | 3,948 | 3,752 | 3,574 | 3,525 | 3,243 | 3,608 |
| Gadoids | 9,848 | 8,637 | 9,047 | 7,605 | 5,876 | 8,203 |
| Cimychiaid Norwy | 3,227 | 1,141 | 1,380 | 1,178 | 946 | 1,574 |
| Lledod | 6,301 | 6,290 | 7,207 | 6,827 | 5,583 | 6,442 |
| Merfogiaid cochion | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |

**Tabl 2. Pwysau glanio blynyddol pob grŵp yn y cynllun fel cyfran (%) o gyfanswm y pwysau blynyddol a gafodd ei lanio gan gychod y DU a'r UE rhwng 2019 a 2023 (mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu ac efallai na fyddant yn dod i gyfanswm o 100% yn union).**

| Grŵp | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cythreuliaid y môr | 19.8% | 23.1% | 24.2% | 26.5% | 28.5% | 24.4% |
| Elasmobranciaid | 13.6% | 14.6% | 12.8% | 13.5% | 14.8% | 13.9% |
| Gadoids | 33.9% | 33.5% | 32.4% | 29.2% | 26.8% | 31.2% |
| Cimychiaid Norwy | 11.1% | 4.4% | 4.9% | 4.5% | 4.3% | 5.9% |
| Lledod | 21.7% | 24.4% | 25.8% | 26.2% | 25.5% | 24.7% |
| Merfogiaid cochion | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

**Tabl 3. Cyfanswm glaniadau (cychod y DU a'r UE) grwpiau'r cynllun yn ôl gwerth (£ miliwn) rhwng 2019 a 2023.**

| Grŵp | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cythreuliaid y môr | 19.50 | 18.85 | 22.51 | 24.47 | 22.01 | 21.47 |
| Elasmobranciaid | 6.19 | 5.68 | 6.12 | 6.35 | 6.04 | 6.08 |
| Gadoids | 18.27 | 15.37 | 16.46 | 15.57 | 12.49 | 15.63 |
| Cimychiaid Norwy | 17.22 | 5.00 | 6.10 | 7.30 | 4.88 | 8.10 |
| Lledod | 35.51 | 36.65 | 41.91 | 51.36 | 43.00 | 41.69 |
| Merfogiaid cochion | 0.01 | 0.01 | 0.01 | 0.01 | 0.02 | 0.01 |

**Tabl 4. Cyfran (%) cyfanswm blynyddol gwerth glaniadau grwpiau'r cynllun gan gychod y DU a'r UE rhwng 2019 a 2023 (mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu ac efallai na fyddant yn dod i gyfanswm o 100% yn union).**

| Grŵp | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cythreuliaid y môr** | 20.2% | 23.1% | 24.2% | 23.3% | 24.9% | 23.1% |
| **Elasmobranciaid** | 6.4% | 7.0% | 6.6% | 6.0% | 6.8% | 6.6% |
| **Gadoids** | 18.9% | 18.8% | 17.7% | 14.8% | 14.1% | 16.9% |
| **Cimychiaid Norwy** | 17.8% | 6.1% | 6.5% | 6.9% | 5.5% | 8.6% |
| **Lledod** | 36.7% | 44.9% | 45.0% | 48.9% | 48.6% | 44.8% |
| **Merfogiaid cochion** | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

## Glaniadau yn ôl offer

Offer benthig symudol (90.9%) (treillrwydi dyfnforol a thrawst) a rhwydi drifft a gosod (6.2%) sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o laniadau rhywogaethau'r cynllun yn ardal y cynllun. Nodir cyfnod cyfeirio rhwng 2019 a 2023 ar gyfer y ffigurau isod, gan fod hyn yn adlewyrchu'r pysgodfeydd presennol yn well.

Mae glaniadau ar draws yr offer arall yn aros yn gymharol sefydlog. Yn ôl pwysau ac ar gyfer y cyfnod cyfeirio rhwng 2019 a 2023: glaniodd treillrwydi dyfnforol 78,604 t (60.1%), glaniodd treillrwydi trawst 40,291 t (30.8%) a glaniodd rhwydi drifft a gosod 8,109 t (6.2%).

Cyfanswm yr offer a oedd yn weddill gyda'i gilydd oedd 3,761 t (2.9%), ac roedd hyn yn cynnwys: rhwyd sân dyfnforol (1.2%), llusgrwyd (0.9%) a ffunenni pysgota (0.6%).

Yn ôl gwerth, offer benthig symudol (90.0%) a rhwydi drifft a gosod (5.8%) sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o laniadau rhywogaethau'r cynllun yn ardal y cynllun. Yn ôl gwerth ar gyfer y cyfnod cyfeirio rhwng 2019 a 2023, glaniodd treillrwydi dyfnforol £222.29 miliwn (47.1%), glaniodd treillrwydi trawst £202.68 miliwn (42.9%), a glaniodd rhwydi drifft a gosod £27.22 miliwn (5.8%). Cyfanswm yr offer a oedd yn weddill gyda'i gilydd oedd £12.70 miliwn (2.7%) ac roedd hyn yn cynnwys: llusgrwyd (1.5%), ffunen bysgota (0.6%) a rhwyd sân dyfnforol (0.5%).

Yn ôl pwysau, roedd treillrwydi trawst, rhwydi drifft ac offer arall yn aros yn gymharol gyson dros y set ddata lawn (2013 i 2023). Fodd bynnag, dangosodd treillrwydi dyfnforol ostyngiad mawr mewn glaniadau o 25,976 t i 11,908 t.

Yn ôl gwerth, arhosodd rhwydi drifft ac offer arall yn gymharol gyson dros y set ddata lawn (2013 i 2023). Dangosodd treillrwydi dyfnforol, sydd fel arfer yn targedu gadoids, ostyngiad


mawr yng ngwerth y glaniadau o £56.37 miliwn i £36.27 miliwn. I'r gwrthwyneb, mae treillrwydi trawst wedi cynyddu gwerth glaniadau rhwng 2013 a 2023, o £25.65 miliwn i £43.46 m, sy'n cyd-fynd â'r cynnydd mewn glaniadau lledod chwithig dros y cyfnod hwn.

Ar gyfer fflyd y DU, y prif offer pysgota a ddefnyddir yw treillrwydi trawst, gan lanio 22,700 t (50.7%) ar gyfer y cyfnod cyfeirio 2019 i 2023. Glaniodd treillrwydi dyfnforol 13,225 t (29.6%) dros y cyfnod hwn, ac yna rhwydi drifft a gosod yn glanio 6,483t (14.5%).

Ar gyfer fflyd yr UE, y prif offer a ddefnyddir yw treillrwydi dyfnforol sy'n glanio 65,379 t (76.0%) a threillrwydi trawst sy'n glanio 17,591 t (20.5%) ar gyfer y cyfnod cyfeirio 2019 i 2023. Mae fflyd yr UE yn cynnwys llawer llai o rwydi drifft a gosod na fflyd y DU gyda 1,627 t (1.9%) wedi glanio dros yr un cyfnod. Glaniodd rhwydi sân dyfnforol yr UE 1,250 t (1.5%).

## Data economaidd a chymdeithasol ar gyfer y bysgodfa fasnachol

Mae Ffigur 2 yn adlewyrchu dibyniaeth economaidd cychod y DU fel canran o'r refeniw sy'n gysylltiedig â gwerth glaniadau stoc neu rywogaethau yn yr ardal a reolir gan y cynllun, o'i gymharu â chyfanswm yr incwm pysgota. Mae'r rhan fwyaf o gychod yn dibynnu llai nag 20% ar rywogaethau'r cynllun yn economaidd. Roedd nifer y cychod â dibyniaeth economaidd o 20 i 40% ar stociau neu rywogaethau'r cynllun wedi mwy na haneru, o 144 o longau yn 2016 i ddim ond 68 o longau yn 2023. Yn yr un modd, gostyngodd nifer y cychod sydd â 5% i 20% o gyfanswm eu hincwm pysgota sy'n deillio o rywogaethau'r cynllun hefyd, o 200 o gychod yn 2016 i 129 yn 2023. Ar gyfartaledd, cychod sy'n perthyn i'r 2 grŵp dibyniaeth economaidd hyn a gyfrannodd yn bennaf at leihau maint cyffredinol y fflyd rhwng 2016 a 2023.





**Ffigur 2. Nifer cychod y DU sy'n ymwneud â physgodfa ddyfnforol y Môr Celtaidd yn ardal y cynllun yn ôl lefel y ddibyniaeth economaidd ar y cynllun (2016 i 2023). Mae'r allwedd ar waelod y siart yn cynrychioli dibyniaeth y cychod hyn ar stociau yn y cynllun hwn.**

Darparwyd ystadegau mewnforio ac allforio'r DU gan Seafish ar gyfer cynhyrchion prif rywogaethau masnachol:

- cimwch Norwy
- lleden Fair
- lleden goch
- lleden chwithig
- penfras
- hadog
- maelgi
- morlas (Ewropeaidd)
- morgathod
- chwitlyn glas
- gwyniad môr

Rhwng 2021-2023, roedd y rhan fwyaf o'r cyflenwad o benfreision, hadogiaid, gwyniaid môr, lledod, morgathod a morleision a oedd ar gael i'r DU yn mynd i'r farchnad ddomestig.

Mae cyfran uwch o’r cyflenwad o gimychiaid Norwy, maelgwn, chwitlyniaid glas, lledod Mair a lledod chwithig sydd ar gael i'r DU yn mynd i'r farchnad allforio (gweler ffigur 3).




**Ffigur 3. Cyflenwad blynyddol cyfartalog a chyrchfannau marchnad rhywogaethau dethol yn ôl pwysau byw (tunelli) 2021 i 2023.**

## Pysgodfeydd hamdden

Mae data ar ddalfeydd hamdden sy'n benodol i'r rhan fwyaf o rywogaethau'r cynllun yn gyfyngedig, gydag eithriadau ar gyfer y morlas, y gwyniad môr a rhai rhywogaethau o forgathod.

Mae 13 o rywogaethau o ddiddordeb hamdden yn y cynllun, ac mae data ar gael drwy'r Dyddiadur Genweirio Môr. Mae’r morlas yn bwysig iawn i'r sector hamdden yn ardal y cynllun, gyda’r morlas yn rhywogaeth darged allweddol i bysgotwyr y glannau a physgotwyr cychod. Ar ben hynny, dywedir bod gweithredwyr cychod siarter yn dibynnu ar y morlas ar gyfer eu busnes mewn rhai ardaloedd ac yn ystod rhai tymhorau. Yn 2023, cafodd 66% o gyfanswm dalfa hamdden y morlas ei bysgota yn ardal y cynllun. Mae Ffigur 4 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r morleisiaid yn cael eu dal yn rhanbarth 7e ICES (tua 310t ar gyfartaledd bob blwyddyn), gydag oddeutu 66% ohonynt yn cael eu cadw. Mae rhanbarthau 7g a 7h wedi'u hepgor o ffigur 4 oherwydd, yn y drefn honno, mae 78% a 91% o'r dalfeydd hamdden blynyddol cyfartalog o rywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn yr ardaloedd hyn yn cael eu priodoli i’r morlas.

Mae llawer mwy o benfreision yn cael eu dal yn yr ardaloedd arfordirol, 7e a 7f (gweler ffigur 4). Ym mhob lleoliad, cedwir y rhan fwyaf o'r penfreision sy’n cael eu dal (61 i 94%) i'w defnyddio. Mae’r penfras yn rhywogaeth darged bwysig ar gyfer pysgotwyr môr, gyda'r

rhanbarthau sy'n dod o dan y cynllun yn cyfrif am 15 i 20% a 10 i 20% o'r cyfanswm a gedwir ac a ddychwelir, yn y drefn honno.

Rhwng 2016 a 2023, dangosodd y penfras a’r morlas duedd ar i lawr mewn dalfeydd hamdden, yn cael eu cadw a'u dychwelyd (gweler ffigur 5).


Mae ardal y cynllun yn cyfrif am 40% o gyfanswm dalfa hamdden lledod yng Nghymru a Lloegr, gyda'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn cael eu dal a'u dychwelyd yn 7e (gweler ffigur 4). Mae'n ymddangos bod tunelledd y lledod a ryddhawyd wedi aros yn gymharol gyson rhwng 2016 a 2023. Fodd bynnag, ers 2019, mae cyfanswm nifer y rhywogaeth hon sy'n cael ei chadw wedi gostwng (gweler ffigur 5).

Mae gwyniaid môr hefyd yn cael eu dal yn bennaf yn 7e ac mae oddeutu 26% o'r ddalfa yn ardal y cynllun yn cael ei chadw (gweler ffigur 4). Roedd dalfeydd gwyniaid môr a laniwyd yn y cynllun wedi cyfrannu at 20% o gyfanswm dalfeydd pysgotwyr môr yng Nghymru a Lloegr yn 2023.


Mae morgathod yn boblogaidd gyda physgotwyr hamdden; mae rhywogaethau hamdden nodedig sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn yn cynnwys y forgath ddreiniog, y forgath felen a’r forgath donnog. Mae pysgotwyr hamdden yn dal mwy o rywogaethau o forgathod yn 7f ac yna 7e, lle mae'r rhan fwyaf o enweirio môr yn digwydd. Cofnodwyd cyfraddau cadw isel ar gyfer rhywogaethau morgathod a ddaliwyd yn ardal y cynllun (gweler ffigur 4).

Cyfrannodd dalfeydd morgathod dreiniog yn y cynllun at 58% o gyfanswm y ddalfa yng Nghymru a Lloegr yn 2023, gan dynnu sylw at bwysigrwydd y bysgodfa hon i bysgotwyr môr yn ardal y cynllun.

Er bod diddordeb hamdden ehangach yn cael ei gofnodi ar gyfer y chwiltyn glas, y lleden chwithig a’r hadog a laniwyd o fewn ardal y cynllun, ychydig iawn o’r rhywogaethau hyn sy’n cael eu derbyn, os o gwbl.




**Ffigur 4. Pwysau blynyddol cyfartalog (tunelli) dalfeydd hamdden o rywogaethau'r cynllun yn 7e a 7f (2016 i 2023). Defnyddiwyd data UKSAIL.**



**Ffigur 5. Pwysau blynyddol (tunelli) rhywogaethau a enwir yn y cynllun a gafodd eu cadw a'u dychwelyd gan bysgotwyr hamdden rhwng 2016 a 2023. Defnyddiwyd data UKSAIL.**

# Rheoli Pysgodfeydd

## Rheoli pysgodfeydd ar hyn o bryd

Oherwydd yr amrywiaeth o rywogaethau sydd o fewn y cwmpas, mae pysgodfeydd y cynllun yn cael eu llywodraethu gan wahanol fecanweithiau rheoleiddio. Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth yn gymwys ar lefel y DU ar gyfer holl Wledydd y DU neu ar gyfer Cymru a Lloegr, ac mae rhywfaint o ddeddfwriaeth yn benodol i Gymru neu Loegr. Mae llawer o'r rhywogaethau'n stociau a rennir â thaleithiau arfordirol eraill ac felly'n ddarostyngedig i gytundeb dalfa fwyaf a ganiateir (TAC) drwy Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE. Mae Cynllun Amlflwydd (MAP) y Dyfroedd Gorllewinol yn nodi gofynion rheoli amrywiol mewn perthynas â stociau pysgod dyfnforol a enwir sy'n cael eu pysgota yn y Dyfroedd Gogledd-orllewinol a De-orllewinol, a elwir gyda'i gilydd yn Ddyfroedd Gorllewinol. Fel Gwladwriaeth arfordirol annibynnol, mae'r DU bellach yn barti contractio i Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol (RFMOs) ac mae wedi sefydlu cytundebau pysgodfeydd â gwladwriaethau arfordirol fel Norwy ac Ynysoedd Faroe, sy'n cynnwys rhywogaethau sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn.

Mae'r ardal o fewn y cwmpas hefyd yn cael ei rheoli drwy fesurau Parth Gwarchod y Môr Celtaidd, sy'n rheoleiddio gweithgarwch pysgota gwely'r môr, gan gynnwys treillrwydi estyllod rhwydi gwaelod a rhwydi sân isaf.

Mae amrywiol is-ddeddfau IFCA ar waith hefyd, sy'n darparu dulliau rheoli ychwanegol fel cyfyngiadau ardal, defnyddio offer, maint cychod, a mesurau maint cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS). Gall is-ddeddfau IFCA fod yn berthnasol hefyd i bysgotwyr hamdden.

Yn ogystal â'r uchod, mae gweithgarwch pysgota hefyd yn cael ei reoli gan amodau trwydded cychod pysgota.

Mae siarcod y dyfnfor a rhywogaethau penodol o forgathod wedi'u rhestru fel rhywogaethau gwaharddedig. Mae'r rhestr o 'Rywogaethau Gwaharddedig Llwyr' yn y DU sy'n berthnasol i'r cynllun wedi'i chynnwys yn y Cofnod Ysgrifenedig o ymgynghoriadau pysgodfeydd rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2025 (gweler atodiad 4).

### Rhywogaethau gwaharddedig

Morgathod:

- morgath las (Dipturus batis)
- morgath drwynfain (Dipturus intermedius)
- morgath wen (Raja alba)

Siarcod y dyfnfor:

- morgi crych (Chlamydoselachus anguineus)
- morgi cegeidiol (Centrophorus spp.)
- morgi Portiwgal (Centroscymnus coelolepis)
- morgi melfed hirdrwyn (Centroscymnus crepidater)
- morgi du (Centroscyllium fabricii)
- morgi pig aderyn (Deania calcea)
- morgi asgell barcud (Dalatias licha)
- morgi llusern mwyaf (Etmopterus princeps)
- morgi seithliw (Etmopterus spinax)
- cath-siarc llwydaidd (Galeus murinus)
- morgi chwethagell trwynbwl (Hexanchus griseus)
- morgi garw asgell hwyl (Oxynotus paradoxus)
- morgi dannedd pigfain (scymnodon ringens)
- morgi'r Ynys Las (Somniosus microcephalus)

Mae cynllun ar wahân yn ymwneud â rhywogaethau pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr, sy'n gorgyffwrdd rhywfaint yn rheoleiddiol â'r cynllun hwn. Mae'r gwaith o reoli Morgathod hefyd yn gorgyffwrdd â chynllun Morgathod Môr y Gogledd a Sianel Lloegr.

## Datganiad Polisi Morol y DU a chynlluniau morol yn nyfroedd Lloegr

Mae'r cynllun hwn yn gorgyffwrdd â chynlluniau morol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynlluniau morol yn darparu fframwaith polisi a dull gweithredu clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau gan ddefnyddwyr a rheoleiddwyr morol ynghylch ble, pryd neu sut gallai gweithgareddau ddigwydd yn yr ardal forol, gan gydbwyso ffactorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae effaith y rhain wedi cael eu hystyried yn yr Adroddiad Amgylcheddol. Mae'r Cynlluniau Morol cyfredol wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r cynllun hwn (fel sy'n ofynnol gan adran 58(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009).

Mae mesurau a ddatblygwyd o dan y cynllun hwn yn ystyried gofynion y cynllun morol perthnasol. Yn yr un modd, dylai penderfyniadau ynghylch mynediad a defnydd morol ehangach a wneir o dan gynllun morol ystyried amcanion unrhyw gynllun perthnasol. Mae

angen datblygu polisïau’r cynllun a chynlluniau gofodol morol mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau bod yr ardal a'r adnoddau morol yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol.

## Strategaeth cywain

Mae strategaeth cywain yn fframwaith y cytunwyd arno ymlaen llaw sy'n nodi sut bydd penderfyniadau rheoli pysgodfeydd yn cael eu gwneud ar sail statws stoc, gan gynnwys monitro, asesu a rheolau penderfyniadau sy'n cysylltu tystiolaeth wyddonol â chamau rheoli.

Yn unol â'r Ddeddf (adran 6(3)), bydd yr awdurdodau pysgodfeydd yn ceisio rheoli cyfleoedd pysgota ar lefel sy'n caniatáu i stoc fod uwchlaw lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu cynnyrch cynaliadwy mwyaf. Bydd y dull hwn yn gyson â'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael, gan ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael ar effeithiau gweithgarwch pysgota. Mae egwyddorion eraill yn cynnwys cyfeiriadau at rwymedigaethau rhyngwladol ehangach y DU ar gyfer gwarchod a defnyddio'r amgylchedd morol yn gynaliadwy, a'r angen i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ecosystemau yn unol â'r Ddeddf a'i hamcan o ran yr ecosystem.

Dylid ystyried fesul pysgodfa wedyn er mwyn ystyried cyfleoedd i leihau effeithiau negyddol pysgota ar rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu. Dylid hefyd ystyried cyngor pysgodfeydd cymysg a ddarperir gan ICES, yn ogystal â gweithredu dull cymysg sy'n seiliedig ar bysgodfeydd ac ecosystemau o reoli pysgodfeydd o fewn cwmpas y cynllun hwn.

Mewn trafodaethau rhyngwladol blynyddol am bysgodfeydd, mae'r DU yn ceisio cytuno ar ganlyniadau sy'n adlewyrchu amcanion y Ddeddf sy'n ymwneud â gosod dalfa fwyaf a ganiateir sy’n gynaliadwy, lle bo hynny'n bosibl wrth negodi. Mae ystyriaethau eraill, gan gynnwys mesurau technegol, ar gael yn y Cofnod Ysgrifenedig o ymgynghoriadau rhwng y Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2024.

Ar gyfer stociau heb unrhyw gyngor ICES neu ddim ond rhywfaint o gyngor, mae’r negodi blynyddol yn darparu fframwaith i wella argaeledd data neu ddulliau asesu i fod yn sail i gyngor gwyddonol yn y dyfodol drwy’r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd.

## Mesurau technegol y DU ar hyn o bryd

Mae'r adran hon yn nodi'r gwahanol ddeddfwriaethau neu reoliadau sy'n berthnasol i'r cynllun hwn, gan ystyried ardal ofodol y cynllun a'r rhywogaethau sydd o fewn y cwmpas.

Mae canllawiau statudol ar y rheoliadau gwarchod technegol a rhwymedigaeth glanio (gwaharddiad ar waredu pysgod), gan gynnwys sut mae’r rheolau’n gymwys, yr eithriadau, gwerthu pysgod rhy fach, gofynion adrodd a rheoli cwota ar gael yn rheolau a rheoliadau gwarchod technegol a rhwymedigaeth glanio o 2022 ymlaen.

## Cynllun Amlflwydd (MAP) y Dyfroedd Gorllewinol

Mae cynlluniau amlflwydd (MAPs) (fel y maent yn cael eu cadw a'u diwygio yng nghyfraith y DU) yn parhau i fod yn berthnasol i wahanol fasnau môr neu i fathau o rywogaethau a, lle mae digon o gyngor gwyddonol ar gael ar gyfer y rhywogaethau rhestredig perthnasol, maent yn nodi dulliau o reoli ecsbloetio.

Mae Cynllun Amlflwydd y Dyfroedd Gorllewinol yn nodi gofynion rheoli amrywiol mewn perthynas â stociau pysgod dyfnforol a enwir sy'n cael eu pysgota yn y Dyfroedd Gogledd-orllewinol a De-orllewinol, a elwir gyda'i gilydd yn Ddyfroedd Gorllewinol. Mae Cynllun Amlflwydd y Dyfroedd Gorllewinol yn cynnwys ardal y cynllun ac yn amlinellu mesurau rheoli ar gyfer rhai o rywogaethau'r cynllun.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r rhywogaethau hyn yn y cynllun, gan gynnwys yr ardal ICES berthnasol a'r mesur technegol lle nodir hynny:

- grenadwr trwyngrwn yn isardal 7 ICES
- lleden Fair yn rhanbarthau 7b–k ICES
- cythraul y môr yn rhanbarthau 7b–k ICES
- hadog yn rhanbarthau 7b–k ICES
- gwyniad môr yn rhanbarthau 7b, 7c a 7e–k ICES
- honos glas yn isardaloedd 6 a 7 a rhanbarth 5b ICES
- cimwch Norwy yn isardal 7 ICES; lleden goch; rhanbarth 7e ICES
- morlas yn isardal 7 ICES
- lleden chwithig yn rhanbarth 7e ICES

Mae mesurau technegol ar waith ar gyfer y lleden chwithig. Yn unol ag Erthygl 12 (cyfyngu ar ymdrech ar gyfer y lleden chwithig yng Ngorllewin Sianel Lloegr) Cynllun Amlflwydd y Dyfroedd Gorllewinol, bydd y ddalfa fwyaf a ganiateir ar gyfer y lleden chwithig yng Ngorllewin Sianel Lloegr (rhanbarth 7e ICES) o dan y cynllun yn cael eu hategu gan gyfyngiadau ar ymdrechion pysgota. Rhaid i'r weinyddiaeth pysgodfeydd benderfynu'n flynyddol ar uchafswm nifer y diwrnodau ar y môr ar gyfer cychod sy'n bresennol yng Ngorllewin Sianel Lloegr a defnyddio treillrwydi trawst â maint y rhwyll sy'n 80 mm neu'n fwy na hynny. Caiff uchafswm nifer y diwrnodau yn y môr y cyfeirir atynt uchod ei addasu yn yr un gyfran â'r addasiad mewn marwoldeb pysgota sy'n cyfateb i'r amrywiad yn y dalfeydd mwyaf a ganiateir.

## Gwahardd amryfal dreillrwydi

Mae Gorchymyn Gwahardd Pysgota ag Amryfal Dreillrwydi 2003 yn nodi cyfyngiadau o ran maint y rhwyllau mewn perthynas â gweithgarwch treillio amryfal o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain. Mae'r gorchymyn yn datgan na chaiff maint y rhwyllau fod yn llai na 80mm ar gyfer ardal 7 ICES.

## Gofynion o ran dewis offer

Mae rheoliad yr UE 2019/1241, sydd wedi cael ei gadw yng nghyfraith y DU ac sydd bellach yn cael ei gymathu, yn nodi gofynion o ran dewis offer sy’n ymwneud â rhywogaethau penodol yn y cynllun hwn. Mae'r gofynion yn amrywio o faint panel rhwyll sgwâr a rhwyd penfras, gan gynnwys gofynion o ran offer ar gyfer dalfeydd pysgod cymysg, i faint yr injan a'r cwch. Mae'r rheoliad hefyd yn pennu meini prawf gwaredu ar gyfer rhywogaethau penodol.

## Meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS)

Mae maint cyfeirio cadwraethol lleiaf yn isafswm maint y gellir ei orfodi'n gyfreithiol ar gyfer pysgod a physgod cregyn yn y DU, gan sicrhau iechyd stociau pysgod drwy ganiatáu iddynt fridio o leiaf unwaith cyn cael eu dal.

Mae rheoliad yr UE 2019/1241 (atodiad VI), sydd wedi cael ei gadw yng nghyfraith y DU ac sydd bellach yn cael ei gymathu, yn nodi gofynion maint cyfeirio cadwraethol lleiaf sy’n ymwneud â rhywogaethau penodol yn y cynllun hwn.

## Ardal gaeedig er mwyn gwarchod y penfras

Mae rheoliad yr UE/2019/1241 (atodiad VI Rhan C) yn nodi gwaharddiad ar weithgarwch pysgota yn rhanbarthau 7f a 7g ICES rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth bob blwyddyn.

## Mesurau technegol Parth Gwarchod y Môr Celtaidd

Mae mesurau technegol parth gwarchod y Môr Celtaidd yn pennu gofynion o ran offer pysgota ar gyfer pysgota â threillrwydi estyllod rhwydi gwaelod a rhwydi sân isaf yn y Môr Celtaidd. Nid yw'r mesurau'n nodi rhywogaethau pysgod; fodd bynnag, mae'r parth yn cynnwys yr ardal sy'n dod o dan y cynllun hwn. Nod y mesurau yw gwella detholedd a phennu gofynion offer ar gyfer y Parth Gwarchod Mewnol ac Allanol. Maent yn nodi maint rhwydi penfras yn ogystal â thrwch y cortyn.

## Parth Adfer y Lleden Chwithig

Mae Parth Adfer y Lleden Chwithig yn ardal ddynodedig, yn bennaf yng Ngorllewin Sianel Lloegr (rhanbarth 7e ICES), lle cyfyngir ar ymdrechion pysgota i helpu i adfer stociau lledod chwithig. Gwneir hyn drwy gymhwyso mesurau rheoli ymdrech i gychod 10 metr a gorddefnyddio rhai mathau o offer rheoledig, gan gynnwys treillrwydi trawst â maint penodol i’r rhwyllau a rhwydi sefydlog.

### Cyfyngiadau Lyme Bay

Mae [Gwarchodfa Pysgodfeydd a Chadwraeth Lyme Bay] yn Warchodfa Forol yn Lyme Bay lle mae defnyddio offer pysgota sy'n cael ei lusgo ar hyd gwely'r môr wedi'i wahardd.

### Pysgodfeydd y glannau De Dyfnaint

Mae pysgodfeydd y glannau De Dyfnaint yn cynnwys cyfyngiadau treillio a thynnu rhwydi er mwyn diogelu offer sefydlog, yn enwedig rhwydi crancod.

### Cod gwirfoddol Cymdeithas Pysgotwyr Gogledd Dyfnaint

Mae Cymdeithas Pysgotwyr Gogledd Dyfnaint wedi hyrwyddo mesurau gwirfoddol i gefnogi pysgodfeydd morgathod cynaliadwy, gan gynnwys y cysyniad o 'flwch y morgathod', sy'n cynnwys addasiadau penodol i offer pysgota fel disgiau rwber a dyluniadau newydd i'r rhwyllau i wella detholusrwydd a chyfraddau goroesi.

### Pysgodfa sentinel y forgath lygaid-bach

Mae pysgodfa sentinel y forgath lygaid-bach yn fenter hunan-samplu yng Ngorllewin Sianel Lloegr, sy'n canolbwyntio ar gasglu data gwyddonol am y forgath lygaid-bach (Raja microocellata). Er mai menter monitro a chasglu tystiolaeth yw'r bysgodfa sentinel ei hun yn bennaf, mae'n ymgorffori ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau technegol. Mae cwota cyfyngedig yn rhanbarth 7e ICES i ganiatáu casglu data gwyddonol ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

### Rhwymedigaeth glanio

Mae'r rhwymedigaeth glanio yn berthnasol i bob cwch pysgota. Mae'n nodi bod yn rhaid i bob cwota o rywogaeth (o bob maint) gael eu glanio a'u cyfrif yn erbyn cwotâu oni bai fod eithriadau'n berthnasol, fel yr eithriad goroesi, sy'n caniatáu i ddalfeydd penodol, diangen gael eu gwaredu dim ond os oes tystiolaeth wyddonol gref bod gan y pysgod siawns uchel o oroesi'r broses dal a rhyddhau.

## Rheoli pysgodfeydd y glannau yn rhanbarthol

Mae'r Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr yn gyfrifol am greu is-ddeddfau yn eu hardaloedd i reoli pysgodfeydd hyd at y terfyn 6nm. Mae gan Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau is-ddeddfau cyffredinol ar waith sy'n amlinellu cyfyngiadau ar fanylebau cychod pysgota mewn ardaloedd penodedig.

Efallai y bydd gan bob Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau is-ddeddfau penodol sy'n berthnasol i'w hardal, a all gynnwys cyfyngiadau ychwanegol ar offer, ardaloedd caeedig, a mesurau rheoli ymdrech i reoli pwysau pysgota ar stociau.

Mae is-ddeddfau Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau De Lloegr yn nodi cyfyngiadau amrywiol ar offer, gan gynnwys cyfyngiad ar lusgo ar wely'r môr mewn rhai ardaloedd.

Mae is-ddeddf hefyd sy'n nodi meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf ar gyfer gwahanol rywogaethau sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn, gan gynnwys y penfras, y lleden goch, y morlas, y lleden chwithig, y gwyniad môr, a morgathod.

Mae is-ddeddfau Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau Dyfnaint a Hafren yn nodi cyfyngiadau amrywiol ar offer, gan gynnwys gwaharddiad ar sail ardal, sy'n cynnwys gwaharddiad mewn ardaloedd o amgylch Parth Cadwraeth Morol Lundy, Porth Cadwraethol Morol Skerries Bank a Surrounds a Pharth Cadwraeth Morol Bideford i Foreland Point.

Mae is-ddeddfau Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau Cernyw yn nodi cyfyngiadau amrywiol ar offer, gan gynnwys gwaharddiadau ar offer sy'n cael ei lusgo ar wely'r môr ym mhob Ardal Cadwraeth Arbennig morol yn yr ardal ac ym Mharth Cadwraeth Morol Manacles. Mae cyfyngiadau hefyd ar faint cychod mewn rhai ardaloedd.

Mae'r is-ddeddfau hefyd yn cynnwys meintiau cyfeirio cadwraethol lleiaf ar gyfer dwy rywogaeth sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn: y merfog coch a'r lleden Fair.

Mae is-ddeddfau Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau Ynysoedd Scilly yn cynnwys hyd cychod, cyfyngiadau ar dunelledd dalfeydd, a chyfyngiadau ar offer llusgo, gan gynnwys cyfyngiadau ar yr ardaloedd lle ceir defnyddio offer llusgo.

## Is-ddeddfau'r Sefydliad Rheoli Morol

Mae gan y Sefydliad Rheoli Morol y pŵer i wneud is-ddeddfau o fewn 0 i 200nm. Ar gyfer rheoli gweithgareddau pysgota, mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn arwain ar reoli rhwng 6 a 200nm, gyda'r Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn arwain yn yr ardal 0 i 6nm.

Mae tair o is-ddeddfau'r Sefydliad Rheoli Morol sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar offer pysgota o fewn cwmpas y cynllun hwn.

Mae is-ddeddfau'r Sefydliad Rheoli Morol yn gwahardd defnyddio offer sy'n cael ei lusgo ar wely'r môr yn yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig canlynol: Safle Morol Ewropeaidd Land's End a Cape Bank, Safle Morol Ewropeaidd Start Point i Plymouth Sound ac Eddystone, a Pharth Cadwraeth Morol De Dyfnaint.

## Mesurau yng Nghymru

Mae cwmpas daearyddol y cynllun hwn yn cynnwys y rhannau o ddyfroedd Cymru sy'n gorgyffwrdd â rhanbarthau 7f a 7g ICES. Mae'r cyfrifoldeb dros reoli pysgodfeydd ym mharth Cymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru er bod trafodaethau rhyngwladol

wedi'u cadw'n ôl. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am reoli ardal y glannau (0-6nm) ac mae Is-ddeddfau cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a chyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru yn nyfroedd Cymru yn gymwys fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pwerau o statudau amrywiol i reoli pysgodfeydd.

Mae Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Dull Pysgota) (Cymru) 2012 yn gwahardd pysgota yn y môr â chychod pysgota gan ddefnyddio offer pysgota sy’n cael ei lusgo ar wely’r môr mewn rhai ardaloedd penodol.

Mae sawl cyfyngiad ar offer dyfnforol yn yr ardal 0-6nm o'r lan. Mae'n werth nodi bod y mesurau canlynol yn dal mewn grym:

Is-ddeddf 27 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. Ardal waharddedig ar gyfer tynnu rhwydi a defnyddio treillrwydi trawst yn Skomer. Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw lusgrwyd na threillrwyd drawst wrth bysgota am bysgod môr yn yr ardal o amgylch Skomer fel y nodir yn yr is-ddeddf. Mae'r ardal hefyd wedi'i dynodi'n Barth Cadwraeth Morol.

## Monitro a gorfodi ar hyn o bryd

Cyfrifoldeb y Sefydliad Rheoli Morol (Lloegr), Llywodraeth Cymru a’r Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yw rheoli a gorfodi. Mae data am laniadau masnachol hefyd ar gael i'r cyhoedd yn Ystadegau Blynyddol Pysgodfeydd Môr y DU a gwybodaeth ar bysgodfeydd gan Bwyllgor Gwyddonol, Technegol ac Economaidd yr UE ar gyfer Pysgodfeydd.

Yn nyfroedd y DU, mae cyfres o ofynion cyfreithiol ar bysgotwyr a phrynwyr i ddarparu cofnodion o weithgareddau pysgota a gwerthiant cyntaf cynhyrchion pysgodfeydd. Rhaid i gychod 10 metr neu fwy lenwi'r llyfr log, naill ai ar bapur neu'n electronig, gan roi manylion am eu dalfeydd. Hefyd, rhaid i brynwyr gwerthiant cyntaf gyflwyno nodiadau gwerthu sy'n cofnodi eu pryniannau.[1] Ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr, rhaid i bob cwch o dan 10 metr gofnodi ei ddalfeydd ar ap, gwasanaeth gwe neu linell ffôn ‘Record your Catch’ (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel ‘Catch App’). Mae hyn yn cynnwys math o offer, lleoliad daearyddol, cenedligrwydd cwch, manylion adnabod cwch, porthladd lle mae'r ddalfa'n cael ei glanio a mwy. Anogir pysgotwyr i roi gwybod am eu dalfa ar lefel rhywogaeth-benodol. Pan nad yw'n bosibl eu hadnabod, cofnodir yn aml o dan god rhywogaeth generig.

[1] Os ydych chi’n prynu llai na 30kg o bysgod bob dydd yn uniongyrchol gan bysgotwr masnachol at eich defnydd eich hun, yna nid oes angen i chi gofrestru fel prynwr na chyflwyno nodiadau am y gwerthiannau (Callawiau gov.uk, 2025).

Mae'n rhaid monitro cychod 12 metr a throsodd, sy'n pysgota yn nyfroedd Lloegr, gan ddefnyddio'r System Monitro Cychod (VMS) i gofnodi eu safleoedd. Ar ben hynny, rhaid i bob cwch dan 12 metr yng Nghymru a Lloegr sydd wedi cofrestru â thrwydded cwch pysgota masnachol gael dyfais I-VMS (ar y glannau) pan fydd yn mynd ar daith i'r môr.

# Ystyriaethau amgylcheddol

Mae cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cyfreithiol ac amgylcheddol sy'n deillio o ddeddfwriaeth fel Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017, Strategaeth Forol y DU (UKMS)[2,3,4], Datganiad Polisi Morol y DU, Deddf yr Amgylchedd 2021, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a'r Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol. Nod y polisïau hyn yw sicrhau iechyd ein moroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac amlinellu ein huchelgeisiau i adfer bioamrywiaeth a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Comisiynodd Defra a Llywodraeth Cymru Natural England, y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cyngor ar yr ystyriaethau canlynol:

- risgiau posibl pysgodfeydd y cynllun i nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru a Lloegr
- risgiau posibl pysgodfeydd y cynllun i ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU;

Mae cyngor y Corff Cadwraeth Natur Statudol gan Natural England yn cwmpasu dyfroedd tiriogaethol Lloegr (o'r arfordir i 12nm) yn ardal y cynllun, ac mae'r cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwmpasu dyfroedd tiriogaethol Cymru (o'r arfordir i 12nm) yn ardal y cynllun. Mae cyngor y Corff Cadwraeth Natur Statudol gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn ymwneud â rhanbarth môr mawr Cymru a Lloegr (o 12nm i derfyn pysgodfeydd Prydain neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd) yn ardal y cynllun.

Roedd cyngor y Corff Cadwraeth Natur Statudol gan Natural England a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn asesu'r mathau canlynol o offer: treillrwydi dyfnforol (gan gynnwys trawst, estyllod rhwydi a threillrwydi pâr isaf), rhwydi sefydlog, a rhwydi drifft.[5] Ystyriodd

---

[2] Marine Strategy Part One: UK updated assessment and Good Environmental Status

[3] Marine strategy part two: UK marine monitoring programmes - GOV.UK

[4] Marine strategy part three: 2025 UK programme of measures - GOV.UK

[5] Ar adegau, gellir cronni tystiolaeth fel 'treillrwydi dyfnforol', 'rhwydi sefydlog' a 'rhwydi drifft' lle nad yw'r data'n caniatáu cyngor mwy penodol.

Cyfoeth Naturiol Cymru bwysau o bysgota masnachol gan ddefnyddio treillrwydi dyfnforol (estyllod rhwydi a thrawst) a rhwydi gosod dyfnforol (rhwydi drysu, rhwydi triphlyg a rhwydi maglu). Ni chafodd treillrwydi pâr dyfnforol a leiniau hir dyfnforol eu hystyried fel rhan o gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, gan fod y rhain naill ai wedi'u gwahardd neu nid ydynt yn digwydd yn nyfroedd tiriogaethol Cymru, yn y drefn honno.

Mae'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd gan Gyrff Cadwraeth Natur Statudol yn sail i nodau polisi a chamau gweithredu arfaethedig y cynllun hwn. Er bod y cynllun yn rhoi trosolwg o'r cyngor hwn, mae manylion am y dulliau a'r data[6] a ddefnyddir gan y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol i nodi lefelau risg ar gael yn yr adroddiad amgylcheddol.

## Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Mae'r adran hon yn disgrifio'r effeithiau ar nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

**Cyngor ar gyfer nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn Lloegr**

Mae gan y pysgodfeydd yn y cynllun hwn y potensial i effeithio ar nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy sgil-ddalfeydd nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig, tynnu rhywogaethau ysglyfaeth y mae rhywogaethau dynodedig yn dibynnu arnynt, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a newid cynefinoedd. Gall yr effeithiau hyn effeithio ar nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig y tu mewn a'r tu allan i ffiniau Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

O fewn ffiniau Ardaloedd Morol Gwarchodedig Lloegr, mae'r Sefydliad Rheoli Morol a'r Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn asesu gweithgareddau dynol a allai effeithio ar nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn cyflwyno mesurau rheoli yn ôl yr angen. Felly, mae llwybrau asesu a rheoli presennol eisoes yn cael eu cynnal drwy waith ar wahân i liniaru risgiau o weithgareddau pysgota o fewn ffiniau Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Nid oes unrhyw gamau gweithredu ychwanegol yn cael eu hawgrymu ar gyfer y cynllun yn yr ardaloedd hyn.

---

[6] Mae llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn benllanw rhaglen monitro sgil-ddalfa'r DU, menter Defra i liniaru sgil-ddalfeydd bywyd gwyllt morol, rhaglen Clean Catch UK, rhaglen arsylwi ar ddulliau gwaredu Fframwaith Casglu Data Cymru / Lloegr, Adroddiad Statws Ansawdd OSPAR, arolygon ac astudiaethau presennol, yn ogystal â barn arbenigol. Gellir gwella data a sgoriau risg dangosol gyda mwy o sylw gan arsylwyr neu roi dulliau Monitro Electronig o Bell ar waith yn eang

Mae'r lefelau risg canlynol (sy'n cael eu disgrifio fel isel, cymedrol, uchel isod[7]) i Ardaloedd Morol Gwarchodedig wedi cael eu nodi o brif effeithiau pysgodfeydd y cynllun sy'n defnyddio treillrwydi dyfnforol, rhwydi sefydlog a rhwydi drifft sy'n digwydd y tu allan i ffiniau'r safle ar nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig Lloegr.

Mae'r risgiau i Ardaloedd Morol Gwarchodedig a nodwyd yn cynnwys:

- mae **risg gymedrol** o sgil-ddal mamaliaid morol, adar y môr a physgod sy'n nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn **treillrwydi dyfnforol**
- mae **risg uchel** o sgil-ddal mamaliaid morol, adar y môr a physgod sy'n nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn **rhwydi sefydlog dyfnforol**
- mae **risg uchel** o sgil-ddal adar y môr a physgod sy'n nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn **rhwydi drifft dyfnforol**
- mae **risg gymedrol** o sgil-ddal mamaliaid morol sy'n nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn **rhwydi drifft dyfnforol**
- mae **risg gymedrol** i rywogaethau mudol dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig (llamhidydd yn bennaf) o ganlyniad i **lai o benfras a gwyniad môr ar gael fel ysglyfaethau**

### Cyngor ar gyfer nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i werthuso effeithiau posibl pysgota ar nodweddion dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru drwy Brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Mae'r prosiect yn

---

[7] **Ardaloedd Morol Gwarchodedig Risg Isel:** Er y gallai fod llwybr effaith ddamcaniaethol, mae tystiolaeth o ddigwyddiad gwirioneddol naill ai'n absennol neu'n awgrymu effeithiau bach iawn ar y graddfeydd perthnasol ar gyfer y cynllun a ystyriwyd.

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig Risg Gymedrol:** Mae rhyngweithio sy'n cael ei ystyried yn risg gymedrol fel arfer yn cael effaith amlwg neu mae barn arbenigol yn dangos risg wirioneddol. Fodd bynnag, gallai lefel yr effaith gyffredinol fod yn amwys, o bosibl oherwydd gorgyffwrdd gofodol cyfyngedig rhwng offer a nodweddion gwarchodedig, amrywiadau sylweddol mewn effaith dros ardal ac amser, neu wahaniaethau rhwng pysgodfeydd yn y cynllun a'r rhai y deilliodd y sylfaen dystiolaeth ohonynt.

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig Risg Uchel:** Mae'r rhyngweithio y nodwyd fel risg uchel yn golygu rhyngweithio lle mae tystiolaeth neu farn arbenigol sydd ar gael yn awgrymu graddfa sy'n peri pryder o'i chymharu ag amcanion cadwraeth Ardal Forol Warchodedig. Gall y gweithgareddau pysgota a reolir gan y cynllun gyfrannu'n sylweddol at y risgiau hyn.

darparu'r fframwaith o dystiolaeth amgylcheddol sydd ei hangen i gefnogi asesiad pellach o'r newidiadau rheoli pysgodfeydd cynaliadwy sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu drwy gynlluniau rheoli pysgodfeydd. Dangosodd asesiadau cynhwysfawr cyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru o gyflwr pob Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig 'lwyr' yng Nghymru yn ystod haf 2025, nad oedd unrhyw safle mewn cyflwr 'anffafriol' oherwydd pysgota.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi'r lefelau risg uchel a chanolig canlynol sy'n gysylltiedig â phob math o offer:

- Treillrwydi dyfnforol
    - Mae risg uchel y tu mewn i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgraffinio a threiddiad i gynefinoedd sensitifrwydd MarESA sydd wedi cael eu sgorio'n uchel.
    - Mae risg uchel y tu mewn i Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn sgil newid cynefinoedd gwely'r môr ar riffiau biogenig.
    - Mae risg ganolig y tu mewn i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o fygu cynefinoedd sensitifrwydd MarESA sydd wedi cael eu sgorio'n uchel.
    - Mae risg ganolig y tu mewn ac o'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn lledaenu i gynefinoedd.
    - Mae risg ganolig y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgil-ddal llamhidyddion.

- Rhwydi gosod dyfnforol
    - Mae risg uchel y tu mewn i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgraffinio a threiddiad i gynefinoedd sensitifrwydd MarESA sydd wedi cael eu sgorio'n uchel.
    - Mae risg uchel y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgil-ddal llamhidyddion.

- Rhwydi drifft dyfnforol
    - Mae risg uchel y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgil-ddal llamhidyddion.

Wrth gyfuno pob math o offer sy'n gysylltiedig â lefelau risg ganolig neu uchel gyda'i gilydd, nodwyd y lefelau risg canlynol:

- Mae risg uchel y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o ganlyniad i sgil-ddal penfras a gwyniad môr yn effeithio ar ysglyfaethau llamhidyddion sydd ar gael.
- Mae risg uchel y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgil-ddal llysywod pendoll pan fyddant yn sownd yn eu rhywogaethau lletyol.
- Mae risg ganolig y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren o dargedu a sgil-ddal casgliad pysgod nodwedd yr aber.

- Mae risg ganolig y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgil-ddal adar môr sy’n plymio.
- Mae risg ganolig y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchodedig o sgil-ddal eogiaid a gwangod.
- Mae risg ganolig y tu mewn i Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Caerfyrddin ar gyfer y fôr-hwyaden ddu o ganlyniad i aflonyddwch gweledol a sŵn uwchben dŵr gan gychod pysgota.

## Effeithiau ar ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU

Mae Strategaeth Forol y DU yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Mae'n cynnwys fframwaith tri cham ar gyfer cyflawni meincnod GES yn ein moroedd drwy ddiogelu'r amgylchedd morol, atal ei ddirywiad, a'i adfer, lle bo hynny'n ymarferol, gan ganiatáu defnyddio adnoddau morol yn gynaliadwy ar yr un pryd.

Mae'r Cyrff Cadwraeth Natur Statudol wedi nodi'r lefelau risg canlynol[8] o brif effeithiau pysgodfeydd y cynllun sy'n defnyddio treillrwydi dyfnforol, rhwydi sefydlog a rhwydi drifft sy'n rhyngweithio â disgrifyddion Strategaeth Forol y DU:

- Mae risg uchel i deulu’r morfil D1, D4 ac adar y môr D1, D4 drwy sgil-ddalfa o rwydi sefydlog.
- Mae risg gymedrol i forloi D1, D4 drwy gael eu sgil-ddal mewn rhwydi sefydlog.
- Mae risg uchel i adar y môr D1, D4 drwy gael eu sgil-ddal mewn rhwydi drifft.

[8] Aseiniwyd sgoriau risg fel a ganlyn:

**Risg Isel - Strategaeth Forol y DU**: Mae rhyngweithio rhwng offer a disgrifydd yn golygu pan fydd llwybr effaith, ond lle mae’r dystiolaeth neu farn arbenigol yn awgrymu nad yw'r effeithiau'n debygol o fod ar raddfa a fydd yn rhwystro'r disgrifyddion hynny rhag cyflawni Statws Amgylcheddol Da, ar sail dangosyddion cyfredol.

**Risg Gymedrol - Strategaeth Forol y DU**: Rhyngweithio rhwng offer a disgrifydd pan fydd llwybr effaith clir rhwng yr offer pysgota sy'n cael ei ystyried a disgrifyddion perthnasol Strategaeth Forol y DU ond i) efallai y bydd angen rhagor o dystiolaeth ynghylch a yw'r raddfa neu'r effaith yn golygu ei bod yn effeithio ar ddangosyddion Strategaeth Forol y DU ar hyn o bryd neu ii) mae gweithgareddau eraill hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at statws y dangosydd presennol.

**Risg Uchel - Strategaeth Forol y DU:** Rhyngweithio rhwng offer a disgrifydd pan fydd tystiolaeth dda o gysylltiad rhwng y math o offer sy'n cael ei ystyried a'r methiant i gyrraedd Statws Amgylcheddol Da ar gyfer disgrifydd Strategaeth Forol y DU, yn seiliedig ar ddangosyddion cyfredol a lle mae'r gweithgarwch pysgota sy'n cael ei ystyried yn y cynllun sy'n cael ei asesu yn gwneud cyfraniad sylweddol at y methiant hwnnw.

- Mae risg gymedrol i deulu'r morfil D1, D4 a morfilod D1, D4 drwy gael eu sgil-ddal mewn rhwydi drifft.
  Mae risg gymedrol i deulu'r morfil D1, D4, morloi D1, D4 ac adar y môr D1, D4 drwy gael eu sgil-ddal mewn treillrwydi dyfnforol.
- Mae risg uchel i gyfanrwydd gwely'r môr D1, D6 drwy gael eu sgil-ddal mewn treillrwydi dyfnforol.
- Mae risg gymedrol i deulu'r morfil D1, D4, morfilod D1, D4, ac adar y môr D1, D4 drwy lai o ysglyfaeth.
- Mae risg gymedrol i sbwriel môr D10 o dreillrwydi dyfnforol gan gynnwys (treillrwydi trawst, treillrwydi estyllod rhwydi, treillrwydi pâr isaf), rhwydi sefydlog a rhwydi drifft.

Bydd y cynllun yn cyfrannu at bolisïau sy'n ymwneud â'r amgylchedd morol ehangach, yn unol â'r amcanion a nodir gan y Ddeddf. Mae amrywiaeth o raglenni monitro a thystiolaeth cyfredol[9] yn casglu data i roi gwybod am risgiau gweithgarwch pysgota i Ardaloedd Morol Gwarchodedig a disgrifyddion GES[10] sy'n berthnasol i'r cynllun hwn.

## Newid yn yr hinsawdd

Mae Deddf Newid Hinsawdd 2008 yn gosod y targed i gyrraedd sero net erbyn 2050 a gosod fframwaith cyfreithiol ar gyfer sicrhau bod y DU yn addasu i risgiau hinsawdd. Mae gan awdurdodau polisi'r DU dargedau gwahanol sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac maent yn datblygu cynlluniau i gefnogi'r ymgyrch tuag at sero net yn ogystal â gofynion i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni hyn gan ddefnyddio cylchoedd adrodd yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd a'r Rhaglen Addasu Genedlaethol.

Nid oes dealltwriaeth dda iawn o ddyfodol effeithiau hinsawdd yn ardal y cynllun. Bydd rhagor o ymchwil yn cael ei gynnal ar effaith newid hinsawdd ar y pysgodfeydd sy'n cael sylw yn y Cynllun hwn. Fodd bynnag, nid ystyrir ar hyn o bryd ei fod o fewn cwmpas y fersiwn hon o'r Cynllun i gyflawni strategaethau lliniaru'n uniongyrchol yn erbyn effeithiau hinsawdd, ond gall fod o fewn ei gylch gwaith i gefnogi pysgodfeydd drwy'r newid cenedlaethol i bysgota carbon isel.

Mae ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys tymheredd y môr, yn dylanwadu'n fawr ar niferoedd a dosbarthiad rhywogaethau morol. Mae rhagolygon yr hinsawdd yn dangos bod dyfroedd gogledd-orllewin Ewrop yn debygol o ddod yn llai addas ar gyfer y rhywogaethau pysgod masnachol mwy traddodiadol, fel y penfras, yr hadog a'r chwiltyn glas, ac yn fwy addas ar gyfer rhywogaethau sy'n fwy cyffredin mewn dyfroedd cynhesach, fel y lleden

---

[9] Marine strategy part two: UK marine monitoring programmes - GOV.UK (www.gov.uk)

[10] Introduction to UK Marine Strategy - Marine online assessment tool (cefas.co.uk)

chwithig, y forgath ddreiniog a’r forgath donnog. Drwy ddefnyddio dull rheoli addasol, gall rheoliadau helpu i leihau effaith y bygythiadau hyn i stociau'r cynllun.

Mae'r amcan newid hinsawdd yn y Ddeddf yn sicrhau y gall polisi rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol, addasu i unrhyw effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ar ddiwydiant pysgota'r DU i gefnogi'r gwaith o reoli pysgodfeydd sy'n gallu addasu i'r hinsawdd. Bydd angen rhagor o ymchwil i ragweld maint yr effeithiau ar yr amgylchedd a thros ba gyfnod y bydd hyn yn berthnasol i ardal y cynllun.

# Gweledigaeth y cynllun

Y weledigaeth ar gyfer y cynllun hwn yw y bydd pysgodfeydd dyfnforol y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn parhau i gael eu rheoli'n gynaliadwy, gan sicrhau, lle bo hynny’n bosibl, bod stociau'n cael eu hadfer a'u cynnal uwchben lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf. Mae hyn yn cynnwys rheoli addasol parhaus, ar y cyd â phartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'r nodau polisi a nodir yn y cynllun hwn yn awgrymu sut gellid cyflawni hyn, drwy wneud y canlynol:

- defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail i wneud penderfyniadau, sy'n ceisio llenwi bylchau mewn tystiolaeth, a diwygio ac adolygu gwaith rheoli yng ngoleuni tystiolaeth newydd
- deall effaith pysgodfeydd y cynllun ar yr ecosystem ehangach a'r amgylchedd morol
- sicrhau hyfywedd cymdeithasol ac economaidd hirdymor pysgodfeydd
- addasu dulliau cynaliadwy o reoli pysgodfeydd yng ngoleuni'r newid yn yr hinsawdd

# Polisïau’r cynllun

Prif nod cynlluniau rheoli pysgodfeydd yw datblygu a gweithredu polisïau sydd wedi'u cynllunio i gyfrannu at adfer neu gynnal stociau pysgod uwchlaw lefelau cynaliadwy. Rôl rheolwyr pysgodfeydd, fel rhan o hyn, yw helpu i sicrhau bod stociau'n cael eu cywain yn gynaliadwy, er mwyn diogelu hyfywedd stociau'r cynllun yn y tymor agos a'r tymor hir a'r pysgodfeydd sy'n eu herlyn.

Dim ond mewn cydweithrediad â'r UE a gwladwriaethau arfordirol eraill y gellir rheoli'r pysgodfeydd stoc a rennir yn y cynllun hwn yn gynaliadwy. Bydd awdurdodau pysgodfeydd perthnasol yn sicrhau y bydd unrhyw gamau i weithredu polisïau yn y cynllun yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r ymrwymiadau yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Lle bynnag y bo modd, bydd yr awdurdodau polisi yn ceisio cytuno'n

gyntaf ar gamau gweithredu cydgysylltiedig gyda'r UE i roi unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o bolisïau'r cynllun ar waith. Fel arfer, gwneir hyn drwy ymgyngoriadau blynyddol neu drwy'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd fel y bo'n briodol. Lle nad yw'n bosibl cytuno, gall yr awdurdodau pysgodfeydd perthnasol ddefnyddio eu hymreolaeth reoleiddiol i weithredu unrhyw fesurau sy'n angenrheidiol i reoli stociau'r cynllun yn gynaliadwy yn eu dyfroedd.

Fel rhan o weithredu'r cynllun, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd perthnasol yn adolygu'r camau gweithredu gyda'r bwriad o flaenoriaethu a threfnu'r camau gweithredu hynny sy'n cyflawni nodau'r cynllun orau yn y fersiwn hon o'r cynllun.

## Dull lefel uchel o ymdrin â rhywogaethau a stociau'r cynllun

Ar gyfer stociau lle mae'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf y stoc, mae adran 6(3)(a) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun nodi polisïau sy'n cynnal neu'n adfer (neu'n cyfrannu at gynnal neu adfer) y stociau hynny i lefelau cynaliadwy, gan gyd-fynd ag Amcan Rhagofalus y Ddeddf.

Ar hyn o bryd, mae gan y stociau canlynol lefel biomas stoc silio is na'r hyn yr ystyrir ei fod yn gallu cefnogi cynnyrch cynaliadwy mwyaf/procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf, fel yr aseswyd gan ICES. Mae'r cynllun hwn yn cynnig datblygu cynlluniau adfer dros sawl blwyddyn gyda chamau gweithredu amlinellol sy'n cyfrannu at adfer y stociau canlynol i lefelau biomas sy'n uwch na'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf:

- morlas (pol.27.67) – gweler nod polisi 1
- penfras (cod.27.e–k) – gweler nod polisi 1
- hadog (had.27.7b-k) – gweler nod polisi 1
- gwyniad môr (whg.27.7b-ce-k) – gweler nod polisi 1
- lleden goch (ple.7e a ple.7fg) – gweler nod polisi 2
- cimwch Norwy (nep.fu.22) – gweler nod polisi 3

Mae'r stociau canlynol ar hyn o bryd uwchben lefelau biomas sy'n gallu cefnogi cynnyrch cynaliadwy mwyaf (cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$) neu ar fynegai maint stoc uwchben $I_{trigger}$ (procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$ ) ac sy'n cael eu pysgota uwchben $F_{MSY}$ neu brocsi $F_{MSY}$. Felly, mae'r camau gweithredu ar gyfer y stociau canlynol hefyd yn cynnwys rheoli pwysau pysgota o dan $F_{MSY}$ neu brocsi $F_{MSY}$ er mwyn cynnal lefelau biomas cynaliadwy (uwch na chynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$ neu gynnyrch cynaliadwy mwyaf procsi $B_{trigger}$) yn y tymor hir:

Stociau â biomas uwch na chynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$, sy'n cael eu pysgota ar lefel $F_{MSY}$ neu uwch.

- lleden chwithig (sol.27.7e a sol.27.7fg) – gweler nod polisi 2

- morgath donnog (rju.27.7de) – gweler nod polisi 5

Stociau gyda mynegai maint y stoc uwchben $I_{trigger}$, sy'n cael eu pysgota ar y procsi $F_{MSY}$ neu'n uwch na hynny

- morgath ddreiniog (rjc.27.7afg) – gweler nod polisi 5
- morgath fannog (rjm.27.7ae-h) – gweler nod polisi 5

Mae'r stociau canlynol ar hyn o bryd uwchben lefelau biomas sy'n gallu cefnogi cynnyrch cynaliadwy mwyaf (cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$) neu ar fynegai maint stoc uwchben $I_{trigger}$ (procsi cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$ ) ac sy'n cael eu pysgota o dan $F_{MSY}$ neu brocsi $F_{MSY}$. Felly, mae'r camau gweithredu ar gyfer y stociau canlynol hefyd yn cynnwys cynnal pwysau pysgota o dan $F_{MSY}$ neu brocsi $F_{MSY}$ er mwyn cynnal lefelau biomas cynaliadwy (uwch na chynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$ neu gynnyrch cynaliadwy mwyaf procsi $B_{trigger}$) yn y tymor hir:

Stociau â biomas uwch na chynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$, sy'n cael eu pysgota o dan $F_{MSY}$.

- cythraul y môr (mon.27.78abd a ank.27.78abd) – gweler nod polisi 4
- honos glas (bli.27.5b671) – gweler nod polisi 1
- morgath lygadog (rjn.27.678abd) – gweler nod polisi 5
- lleden Fair (meg.27.7b-k8abd) – gweler nod polisi 2
- cimwch Norwy (nep.fu.2021) – gweler nod polisi 3

Stociau gyda mynegai maint y stoc uwchben $I_{trigger}$, sy'n cael eu pysgota o dan y procsi $F_{MSY}$

- lleden goch (ple.27.7h-k) – gweler nod polisi 2
- morgath lygaid-bach (rje.27.7fg) – gweler nod polisi 5

Mae'r stociau canlynol naill ai yng nghategori 5 ICES neu heb eu hasesu neu'n rhoi cyngor mewn perthynas ag egwyddorion cynnyrch cynaliadwy mwyaf.

Ar gyfer stociau lle nad yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf y stoc, mae adran 6(3)(b)(i) a 6(4) o'r Ddeddf yn mynnu bod y cynllun yn nodi polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu lefelau stociau sydd wedi cael eu pennu gan ddefnyddio'r dull rhagofalus. Yn unol ag adran 6(3)(b)(i) o'r Ddeddf, mae'r Cynllun yn nodi polisïau i gynnal neu gynyddu biomas y stociau hyn. Nid yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn cael ei hystyried yn ddigonol er mwyn gallu cynnal asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf stociau'r cynllun a restrir isod.

Ar ben hynny, ar gyfer stociau lle nad yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i asesu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf, mae adran 6(3)(b)(ii) o'r Ddeddf yn mynnu bod y cynllun yn nodi'r camau arfaethedig ar gyfer cael y dystiolaeth wyddonol sydd ei hangen er

mwyn gallu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf y stoc (ac os na chynigir camau o'r fath, nodi'r rhesymau dros hynny).

Bydd y cynllun yn ceisio gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y stociau hyn er mwyn cefnogi asesiadau yn y dyfodol, gyda'r bwriad o gael digon o dystiolaeth wyddonol i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau canlynol. Mae polisïau'r cynllun yn amlinellu'r camau arfaethedig ar gyfer cael digon o dystiolaeth i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf y stociau canlynol:

- lleden chwithig (sol.27.7h-k) – gweler nod polisi 2
- morgath felen (rjh.27.7afg a rjh.27.7e) – gweler nod polisi 5
- morgath ddreiniog (rjc.27.7e) – gweler nod polisi 5
- morgath lygaid-bach (rje.27.7de) – gweler nod polisi 5

Os nad oes camau'n cael eu cynnig i gael tystiolaeth wyddonol sy'n ddigonol i alluogi asesu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf, mae adran 6(3)(b)(iii) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun nodi'r rhesymau pam. Bydd y cynllun yn dal i geisio gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y stociau hyn er mwyn cefnogi asesiadau yn y dyfodol. Mae polisïau'r cynllun yn amlinellu'r rhesymau pam, yn y fersiwn hon o'r cynllun, nad oes camau'n cael eu cynnig ar hyn o bryd i gael y dystiolaeth sy'n ddigonol i alluogi asesu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau canlynol:

Stociau gyda dull rhagofalus a chategori data ICES 5

- grenadwr trwyngrwn (rng.27.5b6712b) – gweler nod polisi 1
- chwitlyn glas (pok.27.7-10) – gweler nod polisi 1
- lleden Fair bedwar-smotyn (lbd.27.7b-k8abd) – gweler nod polisi 2
- cimwch Norwy (nep.27.7outFU) – gweler nod polisi 3
- morgath gron (rji.27.67) – gweler nod polisi 5
- morgath gribog (rjf.27.67) – gweler nod polisi 5
- merfog coch (sbr.27.6-8) – gweler nod polisi 6.

Stociau gyda dull rhagofalus a chategori data ICES 6

- morgath las a morgath drwynfain (rjb.67a-ce-k) – gweler nod polisi 5
- morgath wen (rja.27.nea) – gweler nod polisi 5
- morgi asgell barcud (sck.27.nea) – gweler nod polisi 5
- morgi cegeidiol deilgen (guq.27.nea) – gweler nod polisi 5
- morgi Portiwgal (cyo.27.nea) – gweler nod polisi 5

Rhywogaethau a grwpiau genws siarcod y dyfnfor heb eu hasesu neu'n digwydd mewn ardal y tu allan i uned stoc, felly heb unrhyw gyngor gwyddonol gan ICES nac fel arall mewn perthynas ag ardal y cynllun

- morgath felen rhanbarth 7h ICES – gweler nod polisi 5
- morgath ddreiniog rhanbarth 7h ICES – gweler nod polisi 5
- morgath lygaid-bach rhanbarth 7h ICES – gweler nod polisi 5

- morgath donnog rhanbarth 7fgh ICES – gweler nod polisi 5
- morgath drwynfain – gweler nod polisi 5
- cath-siarc y dyfnfor – gweler nod polisi 5
- morgi crych – gweler nod polisi 5
- morgi cegeidiol – gweler nod polisi 5
- morgi melfed hirdrwyn – gweler nod polisi 5
- morgi du – gweler nod polisi 5
- morgi pig aderyn – gweler nod polisi 5
- morgi llusern mwyaf – gweler nod polisi 5
- morgi seithliw – gweler nod polisi 5
- cath-siarc llwydaidd – gweler nod polisi 5
- morgi chwethagell trwynbwl – gweler nod polisi 5
- morgi garw asgell hwyl – gweler nod polisi 5
- morgi dannedd pigfain – gweler nod polisi 5
- morgi'r Ynys Las – gweler nod polisi 5

Er gwybodaeth, ar gyfer y rhywogaethau gwaharddedig a ddisgrifir yn yr adran rheoli pysgodfeydd, nid yw'r cynllun yn cynnig unrhyw fesurau rheoli pellach ar y rhain yn y fersiwn hon.

## Nod polisi 1: datblygu cynllun adfer amlflwydd ar gyfer stociau gadoid y cynllun

### Rhesymeg polisi

#### Morlas, penfras, hadog a gwyniad môr

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at adfer biomas stoc silio'r morlas (pol.27.67), y penfras (cod.27.e–k), yr hadog (had.27.7b-k) a'r gwyniad môr (whg.27.7b-ce-k) i lefelau cynaliadwy (uwchben cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$) a sicrhau bod lefelau marwoldeb pysgota ar lefelau a ddylai adfer stociau er mwyn iddynt allu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r cynllun yn ceisio cyflwyno cynlluniau adfer cynhwysfawr ar gyfer sawl blwyddyn i reoli pwysau pysgota ar lefel sy'n addas i alluogi'r stoc i adfer, gan gynnwys nodi rheolau rheoli cywain ar gyfer cwotâu sgil-ddalfeydd. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr â gwaith parhaus tuag at weithredu cynlluniau gostwng gwarediadau a defnyddio offer mwy dethol yn amlach mewn pysgodfeydd sy'n sgil-ddal gadoids. Bydd ymdrechion adfer yn gofyn am gasglu tystiolaeth ychwanegol a chydweithredu rhyngwladol.

Mae gadoids (yr hadog, y gwyniad môr, y morlas a'r penfras yn bennaf) yn, neu wedi bod yn stociau sy'n bwysig yn fasnachol i bysgotwyr y DU a'r UE yn y 12 mlynedd diwethaf. Mae cyfleoedd i lanio'r stociau hyn wedi lleihau'n sylweddol dros y cyfnod hwn, gan effeithio'n benodol ar nifer a gwerth y glaniadau blynyddol. Mae'r rhain yn cael eu herlyn gan bysgotwyr masnachol mewn pysgodfeydd cymysg ac yn cael eu glanio'n bennaf gan

dreillrwydi dyfnforol. Mae pysgodfeydd rhwydi drysu a gwialen a lein wedi'u targedu ar gyfer y gadoids hyn hefyd. Mae’r morlas a’r gwyniad môr hefyd yn rhywogaethau o ddiddordeb penodol i bysgota hamdden. Ewch i’r adran Disgrifiad o bysgodfeydd i gael rhagor o fanylion.

Ar ben hynny, mae'r cynllun yn nodi camau i gefnogi'r gwaith parhaus o adfer stociau’r morlas drwy gamau gweithredu tymor byr wedi'u targedu, a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r cynlluniau adfer amlflwydd ar gyfer gadoid. Mae’r morlas wedi cael ei flaenoriaethu gyda chamau gweithredu di-oed i dymor byr er mwyn mynd i'r afael â phryderon presennol sy'n canolbwyntio ar y stoc a'r rhagolygon ar gyfer y bysgodfa.

**Grenadwr trwyngrwn, chwitlyn glas a honos glas**

Yn unol ag adran 6(3)(b) o’r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli’r grenadwr trwyngrwn (rng.27.5b6712b) a’r chwitlyn glas (pok.27.7-10) yn gynaliadwy. Nid yw'r Cynllun Rheoli Pysgodfa yn cynnig camau i gael y dystiolaeth i alluogi asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau hyn gan nad yw asesiadau o'r fath yn briodol yn ystod y fersiwn hon o'r Cynllun am y rhesymau canlynol:

- diddordeb cyfyngedig mewn ecsbloetio’r stociau hyn gyda glaniadau cymharol isel (grenadwr trwyngrwn: 0.95t ar gyfartaledd; chwitlyn glas: 37.78t ar gyfartaledd; y flwyddyn rhwng 2019 a 2023) o'r stociau hyn wedi’u cofnodi yn ardal y cynllun,
- mae ardal y cynllun yn rhy fas i ddal rhywogaethau dŵr dwfn fel grenadwr trwyngrwn - felly oherwydd dosbarthiad dyfnder, mae’n anhebygol y bydd y rhywogaethau hyn yn cael eu dal yn ardal y cynllun, gan gychod masnachol ac arolygon sy’n annibynnol ar bysgodfeydd.
- mae'r lefelau samplu'n isel ar gyfer y chwitlyn glas. Gan na welwyd unrhyw recriwtio ar gyfer chwiltyn glas o fewn yr ardal ehangach 7-10, ystyrir bod asesiadau sy'n seiliedig ar oedran neu hyd yn amhriodol.

Ond bydd y cynllun yn ceisio cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth i ddeall y stociau hyn yn well a llywio penderfyniadau rheoli yn y dyfodol, gan nodi camau i wella'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y Cynllun yn parhau i ymateb i unrhyw ddiddordeb sy'n codi yn y bysgodfa neu newid ehangach mewn cyflwr stoc drwy gasglu tystiolaeth yn well a pharhau i fonitro.

Ni chynigir unrhyw fesurau penodol ar gyfer y grenadwr trwyngrwn na'r chwitlyn glas yn y fersiwn hon. Ar gyfer y grenadwr trwyngrwn, y rheswm am hyn yw bod y gwaharddiad ar bysgota dŵr dwfn (o dan 800m o ddyfnder) yn 2016 wedi cyfyngu'n sylweddol ar gyfleoedd pysgota ar y stoc hon, sy'n golygu bod y pwysau pysgota wedi bod yn isel iawn ers hynny. Ar gyfer y chwiltyn glas, byddwn yn parhau i weithio gyda'r UE i osod y ddalfa fwyaf a ganiateir fel yr argymhellwyd gan ICES, drwy drafodaethau blynyddol.

Ar gyfer yr honos glas, yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw sicrhau bod marwoldeb pysgota yn cael ei bennu ar lefelau is na $F_{MSY}$ a ddylai adfer neu gynnal stociau i lefelau sy'n gallu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf.

Ni chynigir unrhyw fesurau penodol ar gyfer yr honos glas yn y fersiwn hon. Bydd y cynllun yn adolygu mesurau ar gyfer gadoids i'w cysoni â'r cynllun ar gyfer Cegddu Ysgafell y Gogledd lle bo hynny'n briodol.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr (0-2 flynedd)

### Morlas, penfras, hadog a gwyniad môr

Dylai'r camau gweithredu a gynigir isod helpu i adfer stoc drwy reoli a gwella'r gwaith o gasglu tystiolaeth, cydbwyso buddiannau pysgota masnachol a hamdden yn y stoc, o blaid cysoni mesurau rheoli ac ecsbloetio cynaliadwy hirdymor yn seiliedig ar adfer stoc. Mae'r camau hyn yn dibynnu ar gydweithio ac ymgysylltu â'r UE.

Cam gweithredu 1.1: Datblygu cynllun adfer amlflwydd ar gyfer stociau’r penfras, y gwyniad môr a’r hadog

Gweithio gyda'r UE i ofyn i ICES am gynllun ailadeiladu pysgodfeydd cymysg ar gyfer adfer rhywogaethau’r penfras, y gwyniad môr a’r hadog. Byddai'r cynllun hwn y cytunwyd arno ar y cyd, a werthuswyd gan ICES, yn nodi rheolau rheoli cywain y stociau hyn i leihau pwysau pysgota arnynt i lai na $F_{MSY}$ yn y tymor byr a chaniatáu iddynt ailadeiladu yn y pen draw i fod yn uwch na’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$ yn y tymor canolig i'r tymor hir. Dylai'r cynllun hwn nodi terfynau dal ar stociau eraill sy'n cael eu dal yn y bysgodfa gymysg a fyddai'n caniatáu lleihau pwysau pysgota ar y tair stoc hyn o dan $F_{MSY}$. Gall y cynllun hefyd nodi mesurau technegol ar gyfer y gwahanol bysgodfeydd y gellid eu rhoi ar waith i leihau'r pwysau pysgota ar y tair stoc hyn ymhellach, fel newidiadau i ffurfweddiad offer, rheolau symud ymlaen neu gyfnodau adfer ar ôl cau pysgodfeydd.

Cam gweithredu 1.2: Datblygu cynllun adfer amlflwydd ar gyfer y morlas

Mae'r cynllun yn argymell cynllun adfer ar wahân ar gyfer y morlas am y rhesymau canlynol:

- mae morleisiaid yn fiolegol wahanol i'r tair rhywogaeth arall, ac mae'n well ganddynt ardaloedd creigiog arfordirol ac alltraeth, creigresi ar y glannau a llongddrylliadau ar gyfer silio, sy'n golygu eu bod yn ddymunol ar gyfer pysgodfeydd masnachol a hamdden wedi'u targedu. Credir bod anghenion rheoli’r rhywogaeth hon yn ddigon gwahanol i elwa o gynllun adfer pwrpasol i gyfiawnhau mesurau tymor byr sy'n cyd-fynd â chyngor adfer stoc ICES 2026
- mae’r morlas yn bwysig yn gymdeithasol ac yn economaidd i bysgodfeydd masnachol a hamdden y DU. O ystyried cymhlethdodau rheoli, ffocws adfer stoc y llywodraeth a chefnogaeth rhanddeiliaid i gamau gweithredu arfaethedig y cynllun, mae angen cynllun adfer wedi'i dargedu

Gweithio gyda'r UE i ofyn i ICES am gynllun ailadeiladu r gyfer adfer morleisiaid. Byddai'r cynllun hwn y cytunwyd arno ar y cyd, a werthuswyd gan ICES, yn nodi rheolau rheoli cywain y stoc hon i gynnal pwysau pysgota yn is na $F_{MSY}$ yn y tymor byr a chaniatáu iddi

ailadeiladu yn y pen draw i fod yn uwch na'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf $B_{trigger}$ yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Fel rhan o'r cynllun adfer amlflwydd ar gyfer y morlas, bydd y mesurau canlynol, sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r pryderon rheoli uniongyrchol, yn cael eu hystyried yn y tymor byr, ar sail cyngor diweddaraf ICES:

- Ystyried dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o reoli cychod masnachol, hamdden a heb bŵer. Archwilio ystod o fesurau y gellid eu cyflwyno'n rhannol neu'n gyfan gwbl. Casglu tystiolaeth ar effeithiolrwydd y mesurau hyn ac ystyried a ddylid eu gwneud yn orfodol. Gall hyn gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:
    - Cynyddu'r warchodaeth ar gyfer cynefinoedd silio a magu morleisiaid, drwy archwilio cau ardaloedd silio a magwrfeydd morleisiaid hysbys yn ofodol ac yn dymhorol a'r posibilrwydd o gael rheolau symud ymlaen ar gyfer pysgotwyr hamdden a masnachol.
    - Archwilio gorgyffwrdd, aliniad a manteision posibl rheoli draenogiaid môr, fel mesurau tymor caeedig.
    - Ar sail tystiolaeth gadarn, cynyddu maint cyfeirio cadwraethol lleiaf y penfras o 30cm, fel y mae ar hyn o bryd, i lefel briodol, sy'n berthnasol i bysgotwyr hamdden a masnachol. Ymgynghori ar effaith meintiau a argymhellir drwy ddatblygu'r cynllun:
        a) 35cm (cefnogaeth fasnachol - maint pan fydd yn 50% aeddfed),
        b) 42cm (cefnogaeth fasnachol, sy'n cyfateb i faint cyfeirio cadwraethol lleiaf draenogyn môr a maint blwch pysgod)
        c) 50cm (maint cyfeirio cadwraethol lleiaf hamdden gwirfoddol Ymddiriedolaeth y Pysgotwyr a Chymdeithas y Cychwyr Proffesiynol yn y ddogfen - Crynodeb annhechnegol FISP ar gyfer y Morlas).
    - Rhaglen addysg ac ymgysylltu ar reoliadau cyfredol ac arferion gorau ar gyfer gwella goroesiad y morlas a chasglu tystiolaeth. Os a lle bo'n briodol, mynnu bod dyfeisiau disgynnol yn cael eu defnyddio i leihau marwolaethau ar ôl rhyddhau
    - Adrodd a chasglu tystiolaeth ar ddalfeydd o gychod siarter a chychod masnachol heb bŵer (10 metr a llai, heb injans).
    - Ceisio sicrhau bod rheoliadau'n gymwys i bawb sy'n pysgota morleisiaid yn deg ac yn effeithiol.
    - Archwilio aliniad a chysylltiad â'r grŵp rheoli draenogiaid môr presennol, os ystyrir bod hynny'n ffora priodol ar gyfer rheoli pysgotwyr masnachol a hamdden morleisiaid ar y cyd.
- Ystyried camau pellach y gellir eu cymryd i wella'r gwaith o gasglu tystiolaeth a lleihau sgil-ddalfa morleisiaid a'u gwaredu ym mhysgodfeydd y cynllun.

- Bydd canllawiau arfer gorau ar gael i gefnogi goroesiad morleisiaid a ddychwelir. Gellir allosod y rhain yn ganllawiau ar gyfer dulliau a gweithredu wrth bysgota ar rai dyfnderoedd. Bydd cymhwysiad, defnydd ac effeithiolrwydd y canllawiau hyn yn cael eu hasesu yn y tymor byr ar gyfer eu datblygu ymhellach o bosibl yn y tymor canolig.

Bydd y mesurau hyn yn cael eu harchwilio yn unol â chyfleoedd pysgota ar gyfer morleisiaid a gyflwynir yn erbyn y cynllun adfer amlflwydd a'u hasesu yn erbyn iechyd y stoc.

**Grenadwr trwyngrwn, chwitlyn glas a honos glas**

Cam gweithredu 1.3: Parhau i bennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.
Cam gweithredu 1.4: Parhau i weithio gyda phartneriaid Gwladwriaethau Arfordirol yn unol â'r polisïau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd gan gynnwys Egwyddorion Trafodaethau Pysgodfeydd Rhyngwladol, gyda'r nod o gynnal cywain stoc yn gynaliadwy drwy drafodaethau rhyngwladol.

Nid yw'r cynllun yn cynnig cyflwyno unrhyw fesurau rheoli rhagofalus ar y stociau hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os bydd pryderon yn cael eu nodi wrth gyflawni'r cynllun, bydd mesurau rhagofalus yn cael eu hystyried lle bo hynny'n briodol.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

Mae'r cynllun yn cynnig ystyried cynnwys y camau gweithredu tymor canolig i hirdymor canlynol yn y 2 gynllun adfer gadoid (a ddatblygwyd yn y tymor byr):

Cam gweithredu 1.5: Dylid gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun adfer hwn a monitro cynnydd adfer y tair stoc.

Os nad yw'r cynllun adfer yn cyflawni ei nodau ar gyfer y tair stoc hyn, yna dylid ystyried dulliau eraill o'u rheoli'n barhaus (nid cwota). Dylid gwerthuso effeithiolrwydd hirdymor y cynllun adfer yn rheolaidd er mwyn ei fireinio. Byddai hyn yn cynnwys ailasesu effeithiolrwydd mesurau technoleg a roddwyd ar waith ac addasu pwysau pysgota rhwng gwahanol stociau yn y bysgodfa gymysg wrth i'r stociau prin adfer.

Cam gweithredu 1.6: Gweithredu mesurau technegol a rheol rheoli cywain a nodwyd wrth ddatblygu'r cynlluniau adfer amlflwydd.

Ategu'r gwaith o gyflawni'r rhain drwy bolisïau cenedlaethol fel:

- diwygiadau rheoli gwaredu pysgod yn Lloegr, drwy wella'r gwaith o gyfrif daliadau, diweddaru eithriadau gwaredu pysgod ac edrych ar ffyrdd o leihau'r stociau hyn sy'n cael eu gwaredu.

Cymell defnyddio dulliau Monitro Electronig o Bell, yn unol ag amserlenni rhaglen Defra ar gyfer dyfroedd Lloegr, i wella'r dystiolaeth ar iechyd stoc, asesu effeithiolrwydd mesurau cadwraeth technegol, a chyfrannu at ddogfennau'r dalfeydd yn llawn. Gweler Nod 7 sy'n ymhelaethu ymhellach ar hyn. O ystyried natur gymysg ac aml-rywogaethol pysgodfeydd dyfnforol y Môr Celtaidd, dylai'r camau uchod bob amser geisio cydlynu ac integreiddio i ddyheadau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach i gyflwyno dull cymysg o reoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau. Mae rhagor o fanylion ar gael ym Mholisïau 7 ac 8 y cynllun hwn.

## Y dystiolaeth a'r ymchwil sydd eu hangen i gefnogi'r nod polisi hwn: parhaus

Cam gweithredu 1.7: Casglu tystiolaeth ar draws rhywogaethau.

Yn ogystal â'r camau gweithredu penodol a amlinellir uchod ar gyfer y cynlluniau adfer stoc, bydd y cynllun yn cyfrannu at gasglu tystiolaeth gyda'r nod o lywio mesurau rheoli yn y cynlluniau adfer, drwy wneud y canlynol:

**Datblygu mesurau rheoli**

- Catalogio cynlluniau cyfredol a newydd a pholisi'r llywodraeth sy'n ymwneud â rheoli gadoid. Defnyddio allbynnau i sicrhau bod penderfyniadau gwybodus a chydlynol yn cael eu gwneud ar draws ymdrechion adfer.
- Cynnal adolygiad o enghreifftiau rheoli byd-eang (e.e. Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd gadoid yr Unol Daleithiau) i nodi arferion gorau ar gyfer cynllunio adfer amlflwydd.

**Ymchwil recriwtio a silio**

- Ymchwilio i atalyddion amgylcheddol a biolegol o ran recriwtio stoc a llwyddiant silio.
- Gwella dealltwriaeth o silfeydd a magwrfeydd, gan gynnwys gofynion amgylcheddol allweddol.
- Modelu senarios recriwtio posibl ar gyfer y dyfodol sydd eu hangen er mwyn gallu adfer stoc.
- Asesu dylanwad newidiadau sy'n cael eu hachosi gan yr hinsawdd ar gyfraddau recriwtio ac addasrwydd cynefinoedd.

**Iechyd cynefinoedd ac ecosystemau**

- Asesu magwrfeydd a chynefinoedd sy'n hanfodol i bysgod, gan addasu blychau adfer y penfras lle ceir tystiolaeth i gefnogi hynny.
- Archwilio mesurau i warchod y cynefinoedd hyn rhag newid yn yr hinsawdd a phwysau morol eraill.
- Archwilio sut i wella iechyd stoc gadoid drwy wella cyflwr yr ecosystem.

**Cynllunio Senarios a Dadansoddi Risgiau**

- Modelu ac asesu senarios adfer amgen, gan gynnwys risgiau atal ac effeithiau ar bysgodfeydd eraill.
- Gwerthuso'r cyfnewidiadau cost a budd ar gyfer gwahanol ddulliau adfer er mwyn bod yn sail i opsiynau rheoli.

**Casglu Tystiolaeth sy'n Benodol i'r Morlas**

Bydd yr anghenion tystiolaeth isod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni a gwerthuso camau gweithredu tymor byr ar gyfer y morlas yn uniongyrchol. Cynhelir drwy gydweithio â physgotwyr masnachol, a gyda'r sector pysgota hamdden i ddatblygu mesurau rheoli sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Mesurau Technegol a Threialon Offer**

- Archwilio addasu maint y rhwyllau ar gyfer treillrwydi dyfnforol a rhwydi drysu.
- Ystyried treialon ar gyfer dulliau arloesol o ddefnyddio offer, fel:
    - Maint bachau lleiaf ar gyfer cychod siarter, hamdden a pholion pysgota.
    - Dyfeisiau disgynnol i wella cyfraddau goroesi ar ôl rhyddhau.

**Monitro Goroesi ac Adfer**

- Mesur cyfraddau adfer y morlas sy'n cael ei ddychwelyd gan ddefnyddio dyfeisiau disgynnol ar wahanol ddyfnderoedd.
- Cymharu canrannau adfer yn erbyn paramedrau dyfnder/amser i lywio canllawiau.

**Grenadwr trwyngrwn a chwitlyn glas**

Bydd y cynllun yn rhoi camau ar waith i wella tystiolaeth ar gyfer y grenadwr trwyngrwn a'r chwitlyn glas er mwyn caniatáu ar gyfer opsiynau rheoli pysgodfeydd posibl mewn fersiynau o'r cynllun yn y dyfodol i ystyried camau pellach ar gyfer y stociau hyn. Bydd hyn yn cynnwys:

- grenadwr trwyngrwn – bydd cynllun ar gyfer casglu tystiolaeth am y stoc hon yn cael ei gyflawni yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bydd y cynllun wedyn yn adolygu dichonoldeb gofyn i ICES gynnal asesiad meincnod o'r stoc mewn fersiynau o'r cynllun hwn yn y dyfodol.

- chwitlyn glas – cynllun i gasglu tystiolaeth ar y stoc hon yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bydd y cynllun yn sefydlu camau i wella'r dystiolaeth yn unol â gwella'r asesiad hwn yn y tymor canolig a monitro'r defnydd o bysgodfeydd yn erbyn y ddalfa fwyaf a ganiateir yn y dyfodol, sy'n cael eu hystyried gan y pwyllgor arbenigol ar bysgodfeydd.[11]

[11] Benchmark workshop on selected haddock and saithe stocks (WKBGAD)

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

Amcanion perthnasol y Ddeddf yw:

- amcan sgil-ddalfa
- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan yr ecosystem

## Nod polisi 2: cywain stociau lledod yn gynaliadwy, gyda biomas yn cael ei gynnal yn uwch na'r lefel sy'n gallu cynhyrchu’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf

### Rhesymeg polisi

Nod y polisi hwn yw datblygu map i gyfrannu at reoli stociau lledod y cynllun mewn modd cynaliadwy yn y tymor hir. Bydd rheoli'r stociau hyn yn gynaliadwy yn parhau i bennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw adfer biomas stoc silio lledod coch (ple.7e a ple.7fg) i lefelau cynaliadwy (uwchlaw MSY $B_{trigger}$) a chyfrannu at gynnal marwoldeb pysgota'r cynllun o dan $F_{MSY}$. I gyflawni hyn, mae’r cynllun yn cynnig datblygu cynllun adfer cynhwysfawr dros nifer o flynyddoedd i reoli pwysau pysgota ar lefel a fydd yn cefnogi adfer stoc.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal marwoldeb pysgota lledod coch y cynllun (ple.27.7h-k) o dan brocsi $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben $I_{trigger}$). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod, gyda'r nod o gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer lledod coch.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at leihau marwoldeb pysgota lledod chwithig (sol.27.7e a sol.27.7fg) o dan $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben MSY $B_{trigger}$). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal marwoldeb pysgota lledod Mair (meg.27.7b-k8abd) y cynllun o dan $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben MSY $B_{trigger}$). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod.

Yn unol ag adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli lledod chwithig mewn modd cynaliadwy (sol.27.7h-k). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod. Bydd y Cynllun yn cryfhau'r gwaith

o gasglu tystiolaeth gyda'r nod o fynd ar drywydd asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer lledod chwithig 7h-k. Amlinellir y camau ar gyfer cyflawni hyn yn y camau gweithredu.

Yn unol ag adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli lledod Mair pedwar-smotyn mewn modd cynaliadwy (lbd.27.7b-k8abd). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod. Nid yw'r cynllun yn cynnig camau i gael y dystiolaeth i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf y stociau hyn am y rhesymau canlynol:

- ychydig iawn o laniadau (0.06t; y flwyddyn rhwng 2019 a 2023) o'r stoc yma sy'n cael eu cofnodi yn ardal y cynllun, er bod adroddiadau ar ledod Mair pedwar-smotyn yn dod yn bennaf o dan god lledod Mair a rennir,
- mae ardal y cynllun yn cynnwys cyfran fach iawn o gyfanswm ardal y stoc, felly cyfyngedig yw gallu'r cynllun i ddylanwadu ar iechyd stoc,
- fawr iawn o ddiddordeb a ddangosodd pysgotwyr mewn ecsbloetio'r stociau hyn yn ystod yr ymgysylltu.
- dim digon o gofnodi glaniadau mewn modd sy'n benodol i rywogaethau o dan TAC y grŵp i fod yn sail i'r asesiad,
- ystyrir bod bylchau data yn rhy fawr i fynd i'r afael â nhw yn ystod amserlen y fersiwn hon.

Fodd bynnag, bydd y cynllun yn ceisio cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth i ddeall y stociau hyn yn well a llywio penderfyniadau rheoli yn y dyfodol, gan nodi camau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y Cynllun yn parhau i ymateb i unrhyw ddiddordeb sy'n codi yn y bysgodfa neu newid ehangach mewn cyflwr stoc drwy gasglu tystiolaeth yn well a pharhau i fonitro.

Mae gwerth glanio lledod wedi cynyddu yn ardal y cynllun dros y degawd diwethaf, o £24.15 miliwn yn 2013 i tua £43 miliwn yn 2023. Mae'r lleden chwithig yn un o gonglfeini pysgodfeydd y cynllun, gyda tua £251 miliwn o ledod chwithig yn cael eu glanio yn ardal y cynllun yn ystod y cyfnod hwn; gweler yr adran Disgrifiad o bysgodfeydd am fanylion. Dangosodd y diwydiant pysgota masnachol awydd cryf i sicrhau bod lledod chwithig yn parhau i fod yn bysgodfa gynaliadwy a hyfyw yn y dyfodol.

Caiff lledod chwithig a lledod coch yn aml eu dal yn fasnachol ym mhysgodfeydd cymysg y cynllun; fel arfer mae lledod coch yn cael eu cymryd fel sgil-ddalfa mewn treillrwydi trawst sy'n targedu lledod chwithig[12], sy'n arwain at daflu cryn dipyn o ledod coch yn ôl. Gan fod y stociau hyn fel arfer yn cael eu dal yn yr un ardal, rhaid i benderfyniadau rheoli ar gyfer

[12] frontcover7ek; Frontiers | Trends in the abundance of Celtic Sea demersal fish: Identifying the relative importance of fishing and environmental drivers

un rhywogaeth ystyried yr effaith ar y llall. Bydd y strategaeth rheoli tymor hir ar gyfer lledod yn ystyried sut i gydbwyso glaniadau cynaliadwy o ledod chwithig yn erbyn yr angen i adfer y stociau lledod coch.

Bydd y cynllun yn adolygu mesurau ar ledod i'w cysoni â chynllun lledod De Môr y Gogledd a’r Sianel Ddwyreiniol a chynllun rhywogaethau di-gwota dyfnforol y Sianel lle bo hynny’n briodol.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

Cam gweithredu 2.1: Datblygu cynllun adfer aml-flwyddyn ar gyfer lledod coch ple.7e a ple.7fg..

Gweithio gyda'r UE i ofyn i ICES am gynllun ailadeiladu ar gyfer adfer lledod coch ple.7e a ple.7fg. Byddai'r cynllun hwn y cytunwyd arno ar y cyd, a werthuswyd gan ICES, yn nodi HCRs y stociau hyn i gynnal pwysau pysgota i lai na $F_{MSY}$ yn y tymor byr a chaniatáu iddynt ailadeiladu yn y pen draw i fod yn uwch na MSY $B_{trigger}$ yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Mewn cydweithrediad â'r UE, amlinellu map ar gyfer casglu rhagor o dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael â bylchau hysbys mewn tystiolaeth am ledod coch 7e a 7fg fel y nodwyd gan ICES, fel dadansoddiad meintiol o bysgodfeydd cymysg. Mae'r cam gweithredu hwn yn dibynnu ar gydweithio ac ymgysylltu â'r UE.

Cam gweithredu 2.2: Datblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod.

Bydd rheoli cynaliadwy yn cael ei gyflawni drwy barhau â'r gwaith rheoli presennol a datblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer lledod. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Asesu effeithiolrwydd MCRS presennol yn unol â mesurau technegol priodol ar gyfer pob lleden.
- Archwilio pa fesurau y gellir eu cymryd i ostwng cyfraddau taflu yn ôl ymysg lledod coch a’u goroesedd.
- Asesu effeithiolrwydd y parth adfer lledod chwithig yn 7e i lywio penderfyniadau rheoli tymor canolig i dymor hir.
- Archwilio rhinweddau trwyddedau ardal sengl neu fesurau eraill i fynd i'r afael â materion sy'n deillio o gam-adrodd ar ledod chwithig.
- Archwilio rhinweddau prosiectau monitro electronig o bell gwyddonol wedi'u targedu ar gyfer casglu tystiolaeth ar laniadau lledod chwithig, lledod coch a lledod Mair i gefnogi'r strategaeth rheoli tymor hir, cryfhau data ar stoc lledod coch a gwella adroddiadau sy'n benodol i rywogaethau.
- Deall a gwarchod cynefinoedd pysgod hanfodol fel magwrfeydd ac ardaloedd silio yn well, gan ganolbwyntio ar ardaloedd cadwraeth sy'n fuddiol i adfer stoc lledod coch.

- Dylunio mesurau tymor canolig-hir wedi’u harwain gan dystiolaeth sy'n seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth gryfach a ddatblygwyd drwy allbynnau o ymchwil i gysylltedd genetig ar ledod chwithig 7hjk a lledod chwithig 7e.
- Cryfhau dulliau casglu tystiolaeth ac adrodd ar rywogaethau penodol ar gyfer lledod Mair sydd wedi'u dal - i gefnogi'r gwaith o archwilio uchelgais tymor canolig-hir o werthuso'r TAC lledod Mair. Cefnogi mesurau i fynd i'r afael â gwaredu dalfeydd lledod Mair pedwar-smotyn diangen.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

Cam gweithredu 2.3: Ystyried gwerthuso'r rhyngweithio rhwng pysgodfeydd lledod chwithig a lledod coch.

Ystyried mesurau i leihau'r effeithiau ar stociau lledod coch yn y bysgodfa lledod chwithig, gyda'r nod o gyfrannu stociau lledod coch sy’n adfer i lefelau cynaliadwy. Cymryd camau i leihau effaith pysgodfeydd lledod chwithig ar stoc lledod coch, gan gynnwys camau pellach i gasglu tystiolaeth ar gyfer rheoli lledod yn y tymor hir.

Cam gweithredu 2.4: Gyda digon o dystiolaeth ategol, ystyried archwilio gwahanu'r TAC lledod Mair.

Cam gweithredu 2.5: Gwella'r asesiad stoc ar gyfer lledod coch 7hjk.

## Y dystiolaeth a'r ymchwil sydd eu hangen i gefnogi'r nod polisi hwn: parhaus

Cam gweithredu 2.6: Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi asesiad stoc.

- Camau ar gyfer cryfhau'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi asesiad stoc o ledod chwithig 7hjk:
    - Yn unol â chyngor ICES, cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth ddibynadwy am bysgod iau, mynegeion sy'n annibynnol ar bysgodfeydd, a chryfhau'r gwaith o samplu data oedran a hyd yn rhanbarth 7h.
    - Cydweithredu â'r UE i gau'r bylchau hyn mewn tystiolaeth, i gefnogi comisiynu asesiad ICES o'r stoc yma yn y dyfodol.
    - Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd drwy'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd i lywio a chefnogi gwell asesiadau stoc ar gyfer lledod chwithig 7h-k. Gall canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn gefnogi sgyrsiau yn y dyfodol ynghylch ail-alinio stoc; felly, bydd angen i ddulliau rheoli'r Cynllun ystyried y canlyniadau posibl hyn.
- Cefnogi proses feincnodi ICES ar gyfer y stoc lledod coch yn 7fg drwy gasglu tystiolaeth. Dylid ceisio cynnal asesiad categori 1 ar gyfer y stoc a fydd yn gofyn am gau bylchau mewn tystiolaeth am ledod coch 7fg, fel data annigonol ac anghyson

am oedran, samplau anghyflawn o warediadau, a darpariaeth gyfyngedig mewn arolygon.
- Casglu a chryfhau tystiolaeth ar gynefinoedd pysgod hanfodol a magwrfeydd ar gyfer lledod. Gwerthuso effeithiolrwydd y blychau adfer presennol ar gyfer lledod coch fel mesur i gefnogi'r gwaith o adfer stoc. Archwilio pa fesurau a chamau y gallai fod angen eu cymryd i warchod yr ardaloedd hyn rhag pwysau anthropogenig. Archwilio sut gellir cryfhau iechyd a gwydnwch stoc lledod coch drwy wella iechyd ecosystemau ehangach.
- Gwella'r sylfaen dystiolaeth drwy archwilio rhinweddau gwahanu TAC y grŵp lledod Mair.

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- Amcan sgil-ddalfa
- Amcan cynaliadwyedd
- Amcan rhagofalus
- Amcanion gwyddonol
- Amcan yr ecosystem

## Nod polisi 3: cywain stociau cimychiaid Norwy yn gynaliadwy a rheoli eu sgil-ddalfeydd

### Rhesymeg polisi

Nod y polisi hwn yw cyfrannu at reoli'r bysgodfa cimwch Norwy yn gynaliadwy a manteisio'n gynaliadwy ar dri math o stoc cimychiaid Norwy yn ardal y cynllun. Bydd rheoli'r stociau hyn yn gynaliadwy yn parhau i bennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw adfer biomas stoc silio nep.fu.22 i lefelau cynaliadwy (uwchben MSY $B_{trigger}$). I gyflawni hyn, nod y Cynllun yw datblygu cynllun adfer cynhwysfawr dros nifer o flynyddoedd a fydd yn cael ei ddatblygu i reoli pwysau pysgota ar lefel sy'n addas ar gyfer gallu adfer stoc.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal lefelau stoc a fydd yn arwain at leihau marwoldeb pysgota ar gyfer (nep.fu.2021) o dan $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben MSY $B_{trigger}$). Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy archwilio'r gwaith o reoli unedau swyddogaethol a datblygu HCRs.

Yn unol ag adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli cimychiaid Norwy mewn modd cynaliadwy (nep.27.7outFU). Nid yw'r cynllun yn cynnig camau i gael y dystiolaeth i alluogi asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau hyn gan nad yw asesiadau o'r fath yn briodol yn ystod y fersiwn hon o'r cynllun am y rhesymau canlynol:

- ystyrir bod cimwch Norwy (nep.27.7outFU) y tu allan i unedau swyddogaethol sefydledig ac nid yn stoc benodol. Mae amheuaeth bod y glaniadau hyn yn rhan o unedau swyddogaethol presennol.

Bydd y cynllun yn ceisio cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth drwy asesu'r glaniadau hyn ac asesu a oes angen argymhellion i derfynau unedau swyddogaethol presennol.

Nod y polisi hwn yw hybu sgyrsiau ar reoli lefel unedau swyddogaethol fel yr argymhellwyd gan ICES, lleihau sgil-ddalfa stociau adfer y cynllun a ddelir mewn pysgodfeydd cimwch Norwy, integreiddio dulliau rheoli â phrofiadau a gafwyd yng nghynllun gostwng gwarediadau cimwch Norwy Môr y Gogledd a gweithio ar y cyd â diwydiant i ddiffinio'r heriau o ran gwella detholedd offer.

Mae gwahanol opsiynau o ran rheoli unedau swyddogaethol, gan gynnwys rheoli TAC yn llawn ar lefel uned swyddogaethol (gyda lefelau TAC yn amrywio rhwng ardal yr uned ac yn ymateb i iechyd stoc), neu ddefnyddio dull mesur technegol, lle mae set o fesurau a bennwyd ymlaen llaw - y bernir eu bod yn briodol ar gyfer y bysgodfa dan sylw - yn cael eu sbarduno wrth i stociau gyrraedd pwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt. Gallai datblygu strategaeth cywain sy'n gysylltiedig â phwyntiau cyfeirio ar lefel stoc (e.e. MSY $B_{trigger}$) ganiatáu rheoli'r bysgodfa'n fwy ystwyth drwy weithredu mesurau dim ond pan fydd tystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod angen cymryd camau i gynnal neu wella stociau mewn ardal benodol.

Mae cimychiaid Norwy yn cael eu dal fel rhan o bysgodfa gymysg gyda physgod dyfnforol ac yn arwain at sgil-ddalfa sy’n cynnwys stociau adfer y cynllun. Felly, mae'r cynllun wedi nodi camau gweithredu i ddangos tystiolaeth a gwella dealltwriaeth o'r effeithiau ar stociau adfer y cynllun ac ystyried mesurau lliniaru priodol.

Mae unedau swyddogaethol yn cael eu hecsbloetio gan y ddwy fflyd leol, sy'n debygol o fod yn fwy cyfyngedig o ran pa bysgodfeydd y gallant gael mynediad iddynt, a chychod dros dro / nomadaidd sy'n gallu symud rhwng gwahanol unedau. Felly, byddai angen i ymyriadau rheoli ystyried anghenion penodol pysgodfeydd lleol sy'n fwy dibynnol ar unedau swyddogaethol penodol, yn ogystal â chychod dros dro. Mae angen cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd-gymdeithasol a nodau amgylcheddol ehangach ar gyfer rheoli pysgodfeydd cimwch Norwy.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

Cam gweithredu 3.1: Datblygu cynllun adfer aml-flwyddyn ar gyfer nep.fu.22.

Gweithio gyda'r UE i ofyn i ICES am gynllun ailadeiladu pysgodfeydd cymysg ar gyfer adfer cimychiaid Norwy fu.22. Byddai'r cynllun hwn y cytunwyd arno ar y cyd, a werthuswyd gan ICES, yn nodi HCRs y stociau hyn i leihau pwysau pysgota i lai na $F_{MSY}$ yn y tymor byr a chaniatáu iddynt ailadeiladu i fod yn uwch na MSY $B_{trigger}$ yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r camau hyn yn dibynnu ar gydweithio ac ymgysylltu â'r UE.

**Rheoli unedau swyddogaethol**

Cam Gweithredu 3.2 Cynnal arfarniad manwl o opsiynau ar gyfer rheoli cimychiaid Norwy ar lefel uned swyddogaethol.

Archwilio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer rheoli (er enghraifft, cyfyngu ar ymdrech, adeiladu ar wersi a ddysgwyd o dreialon cimychiaid Norwy Môr y Gogledd ar gynlluniau gostwng gwarediadau), cyfleoedd, effeithiau, canlyniadau a dadansoddiadau cost/budd.

Cam gweithredu 3.3: Datblygu strategaethau cywain priodol ar gyfer pob uned swyddogaethol.

Dylid gwneud hynny ochr yn ochr â phecyn o fesurau addas y gellid eu haddasu ar gyfer pob uned ac a fyddai ar gael i'w defnyddio mewn senario disbyddu / dymchwel stoc.

Cam gweithredu 3.4: Gwerthuso tystiolaeth o ddalfeydd o nep.27.7outFU.

Adolygu cywirdeb adrodd ar gyfer dalfeydd y tu allan i unedau swyddogaethol 20-22, ac os yw'n briodol gofyn i ICES adolygu terfynau unedau swyddogaethol presennol.

**Rheoli sgil-ddalfa**

Cam gweithredu 3.5: Casglu tystiolaeth ar sgil-ddalfa rhywogaethau'r cynllun o fewn pysgodfa cimychiaid Norwy.

Yn benodol, cryfhau'r gwaith o fonitro ac adrodd ar sgil-ddalfa mewn pysgodfeydd cimychiaid Norwy, gyda diddordeb penodol mewn casglu data ar ddalfeydd rhywogaethau adfer y cynllun (penfras, hadog, gwyniad môr, morlas a lleden) a chyflwyno mesurau rheoli i leihau sgil-ddalfa ddiangen. Dylif ystyried y canlynol os yw’n briodol:

- cynyddu'r cyfansoddiad dalfeydd gofynnol sy'n dosbarthu pysgodfa cimychiaid Norwy wedi'i thargedu i atal ecsbloetio stociau eraill sy'n cael eu sgil-ddal, yn ogystal ag archwilio ac asesu effeithiolrwydd mesurau detholedd ar gyfer lleihau sgil-ddalfa ddiangen o stociau adfer mewn pysgodfeydd o’r fath.
- adolygu'r dulliau rheoli presennol ar gyfer cimychiaid Norwy, ac os yw'n briodol, ystyried cefnogi newid i ddulliau rheoli amgen, fel cyfyngu ar ymdrech ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o dreillio cimychiaid Norwy Môr y Gogledd ar ostwng gwarediadau.

Cam gweithredu 3.6: Defnyddio'r profiad a ddysgwyd o'r cynllun gostwng gwarediadau ym mhysgodfa cimychiaid Norwy Môr y Gogledd.

Canolbwyntio diwygiadau o ran gwarediadau a lleihau dalfeydd diangen drwy annog arferion pysgota detholus a nodi'r rhwystrau rhag defnyddio offer mwy dethol.

Cam gweithredu 3.7: Sefydlu ffyrdd o gydweithio â'r diwydiant.

Gwneud hynny er mwyn deall problemau mewn pysgodfeydd cimychiaid Norwy a sicrhau bod stociau adfer yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn y tymor hir.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

Cam gweithredu 3.8: Datblygu a gweithredu HCRs ar gyfer pob uned swyddogaethol.

Ar sail canlyniadau camau gweithredu tymor byr sy'n datblygu'r gwaith o reoli unedau swyddogaethol a'r cynllun adfer ar gyfer uned swyddogaethol 22, datblygu a gweithredu HCRs ar gyfer pob uned i fynd ati'n gynaliadwy i reoli pwysau pysgota ar y stociau.

Cam gweithredu 3.9: Parhau i fonitro a chasglu tystiolaeth yn nep.27.7outFU.

Dylid gwneud hynny i adeiladu ar y dystiolaeth o ddalfeydd y tu allan i unedau swyddogaethol y Môr Celtaidd. Gwerthuso a yw'r dalfeydd hyn o ganlyniad i gam-adrodd neu, os yw'n briodol, dylid ystyried cais i ICES am werthusiad o ffiniau daearyddol presennol yr unedau swyddogaethol.

Cam gweithredu 3.10: Ystyried cefnogi'r gwaith o gyflwyno dulliau Monitro Electronig o Bell ar gyfer treillrwydi dyfnforol.

Dylid hefyd ystyried a fyddai cychod cimychiaid Norwy yn elwa o amcanion monitro wedi'u teilwra.

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan sgil-ddalfa
- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan yr ecosystem

## Nod polisi 4: cywain stociau cythreuliaid y môr yn gynaliadwy, gyda biomas yn cael ei gynnal yn uwch na'r lefel sy'n gallu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf

### Rhesymeg polisi

Nod y polisi hwn yw cyfrannu at reoli stociau cythraul y môr yn gynaliadwy a'u hecsbloetio. Bydd rheoli'r stociau hyn yn gynaliadwy yn parhau i bennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal lefelau stoc a marwoldeb pysgota cythraul y môr (mon.27.78abd ac ank.27.78abd) o dan $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben MSY $B_{trigger}$).

Mae'r nod polisi hwn hefyd yn ceisio rheoli'n gynaliadwy sgil-ddalfa stociau adfer y cynllun sy'n cael ei dal mewn pysgodfeydd cythraul y môr.

Mae cythraul y môr yn bwysig iawn yn y DU o safbwynt masnachol. Rhwng 2013 a 2023, glaniodd cychod y DU a'r UE gyfanswm o 71,615 t o gythreuliaid y môr gwerth £233.14 metr yn ardal y cynllun. Gan fod cythreuliaid y môr yn cael eu dal mewn pysgodfeydd cymysg ochr yn ochr â rhywogaethau eraill y cynllun (dylid nodi bod pysgodfa rhwydi clwm cythreuliaid y môr wedi'i thargedu ar gael), bydd y cynllun yn ystyried effeithiau'r bysgodfa hon ar sgil-ddalfeydd stociau adfer. Gweler yr adran Disgrifiad o Bysgodfeydd am fanylion.

Mae cythreuliaid y môr yn stoc a reolir ar y cyd a chaiff cyfleoedd cwota eu pennu ar hyn o bryd drwy'r trafodaethau dwyochrog rhwng y DU a'r UE. Maent hefyd wedi'u cynnwys yn MAP y Dyfroedd Gorllewinol, sy'n nodi amcanion adfer a chynnal poblogaethau uwchben lefelau sy'n gallu cynhyrchu cynnyrch cynaliadwy mwyaf, cyfrannu at ddileu gwarediadau a gweithredu dull seiliedig ar ecosystemau o reoli pysgodfeydd.

Ar hyn o bryd, mae glaniadau masnachol cythreuliaid y môr yn cael eu cofnodi o dan god glanio rhywogaethau ar y cyd (anglerfishes nei). Maen nhw'n cael eu rheoli fel TAC rhywogaeth gyfun sy'n cynnwys maelgwn a chythreuliaid y môr. Mae defnyddio TACs rhywogaeth gyfun yn atal pob stoc rhag cael ei rheoli'n effeithiol a gall arwain at orecsbloetiaeth. O ganlyniad, mae'r cynllun yn awgrymu camau gweithredu i wella dulliau cofnodi sy'n benodol i rywogaethau a symud tuag at TACs un rhywogaeth. Dylid nodi bod yr EU yn cofnodi dalfeydd cythraul y môr o dan ANK (cythraul y môr bolddu) a MON (cythraul y môr gwyn).

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

Cam gweithredu 4.1: Gwella adroddiadau sy'n benodol i rywogaethau ar gythreuliaid y môr, cynhyrchu a dosbarthu canllawiau adnabod ac addysg i bysgotwyr.

Cam gweithredu 4.2: Ystyried sut mae cefnogi a galluogi cyfleoedd pysgota ar gyfer cythreuliaid y môr mewn pysgodfeydd cymysg, gan reoli glaniadau cynaliadwy o stociau adfer y Cynllun.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

Cam gweithredu 4.3: Fel rhan o'r dull rhyngwladol, gweithio gyda phartneriaid ICES a Gwladwriaethau Arfordirol i gytuno ar ddull rheoli tymor hir ar gyfer cythreuliaid y môr.

Cam gweithredu 4.4: Cydweithio â'r UE i drafod ac ystyried y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â TACs sy'n benodol i rywogaethau.

Cam gweithredu 4.5: Ystyried camau gweithredu yn ddomestig i osgoi gorecsbloetio Cythreuliaid y Môr. Gall hyn gynnwys ystyried gwahanu TAC Grŵp Cythreuliaid y Môr a'r Maelgwn.

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcanion gwyddonol
- amcan yr ecosystem

# Nod polisi 5: Rheoli pysgodfeydd elasmobranciaid yn gynaliadwy a rheoli sgil-ddalfeydd

## Rhesymeg polisi

Amcan y nod polisi hwn yw cynnal stociau elasmobranciaid ar lefelau cynaliadwy, rhoi dulliau rheoli ar waith i gynyddu stociau i lefelau cynaliadwy, lle bo angen, a chynyddu tystiolaeth i ddeall cyflwr presennol stociau a rhywogaethau y mae data amdanynt yn brin. Bydd rheoli'r stociau hyn yn gynaliadwy yn parhau i gynnwys pennu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

#### Morgathod

#### Stociau nad ydynt yn dod o dan Gynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod Môr y Gogledd a’r Sianel

Mae'r cynllun hwn wedi datblygu camau gweithredu a fydd yn cyd-fynd, wrth gyflawni, â Chynllun Morgathod Môr y Gogledd a’r Sianel, oherwydd eu bod yn cynnwys rhywogaethau sy'n gorgyffwrdd, stociau a rennir ac ardaloedd daearyddol. Mae'r cydreoli hwn yn helpu i osgoi gormod o feichiau, gwella'r broses adrodd ac adlewyrchu dymuniad rhanddeiliaid am reolau symlach ac unedig ar draws ffiniau.

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal lefelau stoc a fydd yn arwain at leihau marwoldeb pysgota ar gyfer y forgath ddreiniog (rjc.27.7afg) a’r forgath fannog (rjm.27.7ae-h) o dan brocsi $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben $I_{trigger}$).

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal lefelau stoc a fydd yn arwain at leihau marwoldeb pysgota ar gyfer y forgath lygadog (rjn.27.678abd) a’r forgath donnog (rju.27.7de) o dan $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben MSY $B_{trigger}$).

Yn unol ag adran 6(3)(a) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cyfrannu at gynnal marwoldeb pysgota’r forgath lygaid-bach (rje.27.7fg) o dan brocsi $F_{MSY}$ a chynnal biomas stoc silio ar lefelau cynaliadwy (uwchben $I_{trigger}$).

Yn unol ag Adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli’r stociau a nodir isod mewn modd cynaliadwy. Cyflawnir hyn drwy ddulliau rheoli

rhagofalus. Bydd y Cynllun yn cryfhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth gyda'r nod o wella setiau data i gefnogi asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau canlynol a aseswyd:

- morgath felen (rjh.27.7afg a rjh.27.7e).
- morgath ddreiniog (rjc.27.7e).
- morgath lygaid-bach (rje.27.7de).

**Stociau nad ydynt yn dod o dan Gynllun Morgathod Môr y Gogledd a'r Sianel**

Yn unol ag Adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli stociau o'r forgath gron (rji.27.67) a'r forfath gribog (rjf.27.67) mewn modd cynaliadwy. Rydym yn argymell nad yw asesiadau o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau hyn a aseswyd yn briodol yn ystod y fersiwn hon o'r cynllun. Nid oes digon o laniadau o'r rhywogaeth/stoc yma i gynhyrchu'r data i gynnal asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf. Nodir hefyd bod y rhannau o ardal ofodol y cynllun lle gallant ddigwydd yn gyfran gymharol fach o ystod yr uned asesu.

Yn unol ag adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli stociau o'r forgath drwynfain mewn modd cynaliadwy. Nid yw'r cynllun yn cynnig camau i gael y dystiolaeth i allu asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau hyn gan nad yw asesiadau o'r fath yn briodol yn ystod y fersiwn hon o'r Cynllun gan fod llawer o'r ystod stoc y tu allan i ardal ofodol y Cynllun oherwydd y dosbarthiad dyfnder.

Yn unol ag Adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw cynnal lefelau stoc drwy barhau i reoli stociau o'r forgath las, y forgath drwynfain a'r forgath wen mewn modd cynaliadwy. Rhywogaethau gwaharddedig yw'r rhain ar hyn o bryd, felly ni ellir eu targedu, eu dal na'u glanio. Nid oes angen dulliau rheoli pellach i gynnal y stoc.

Mae morgathod yn cael eu gwerthfawrogi ym mhob rhan o'r sector hamdden a'r sector masnachol yn y DU, gydag arferion dal a rhyddhau'n cael eu gweld yn gyffredin ymysg pysgotwyr hamdden. Yn fasnachol, mae morgathod hefyd yn amlwg, gyda chychod y DU a'r UE yn glanio cyfanswm o 36,626 t o forgathod yn ardal y cynllun, gwerth £61.13 miliwn rhwng 2013 a 2023. Yn benodol, roedd dros 50% o gyfanswm glaniadau nifer o rywogaethau, fel y forgath lygaid-bach, y forgath felen, y forgath lygadog, y forgath donnog, y forgath gribog a'r forgath gron yn deillio o ardal y cynllun, gan dynnu sylw at ei harwyddocâd i'r stociau hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau morgathod yn y cynllun hwn yn cael eu rheoli o dan TAC cyfun (aml-rywogaeth). Fodd bynnag, mae'r cyngor gwyddonol yn nodi bod y dulliau presennol o reoli morgathod yng nghyswllt TAC y grŵp, yn golygu nad oes modd rheoli cyfraddau ecsbloetio stoc sengl yn effeithiol. Yn unol â Chynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod De Môr y Gogledd a'r Sianel, mae'r cynllun hwn wedi nodi camau gweithredu sydd wedi'u hanelu at nodi gwelliannau i'r dulliau presennol o reoli TAC y grŵp, gan edrych ar ddewisiadau amgen ar gyfer y rhywogaethau cysylltiedig.

Amcan y nod polisi hwn yw cyfrannu at wella dealltwriaeth o'r stociau hyn a chefnogi'r gwaith o'u rheoli yn y dyfodol. Gall cyfleoedd rheoli gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: ystyried dulliau rheoli sy'n seiliedig ar hyd, canllawiau gwirfoddol, a mesurau gofodol neu amserol i hybu twf y boblogaeth. Bydd rheoli pysgodfeydd yn parhau i ymateb i unrhyw ddiddordeb sy'n codi yn y bysgodfa neu newid ehangach mewn cyflwr stoc drwy gasglu tystiolaeth yn well a pharhau i fonitro.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn

Bydd camau gweithredu ar gyfer y stociau canlynol: y forgath ddreiniog (rjc.27.7afg), y forgath fannog (rjm.27.7ae-h), y forgath lygadog (rjn.27.678abd), y forgath donnog (rju.27.7de) a'r forgath lygaid-bach (rje.27.7fg) yn unol â Chynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod De Môr y Gogledd a'r Sianel (gan gynnwys Nod polisi 1: Cywain stociau o'r forgath felen (yn 4b, 4c a 7d), y forgath lygadog, y forgath fannog, y forgath ddreiniog (yn isardal 4, 3a a 7d) a'r forgath donnog yn gynaliadwy, gan gynnal biomasau uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf) ac fe allant gynnwys y canlynol:

Cam gweithredu 5.1: Parhau i geisio pennu TACs a chyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Cam gweithredu 5.2: Parhau i weithio gyda'r UE yn unol â'r polisïau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd gan gynnwys Egwyddorion Trafodaethau Pysgodfeydd Rhyngwladol, gyda'r nod o gytuno ar TACs i gynnal dulliau cywain stociau'n gynaliadwy drwy drafodaethau rhyngwladol.

Cam gweithredu 5.3: Parhau i weithio gyda'r UE ar ymrwymiadau ar y cyd presennol, yn benodol yr ymrwymiad presennol yng nghyswllt y Cofnod Ysgrifenedig ar archwilio dewisiadau amgen i'r dulliau presennol o reoli TAC y grŵp sy'n parhau drwy'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd. Mae hyn yn cynnwys pob TAC grŵp a reolir ar y cyd, sy'n cynnwys stociau'r cynllun.

Bydd camau gweithredu ar gyfer y stociau canlynol: y forgath ddreiniog (rjc.27.7e), y forgath felen (rjh.27.7afg a rjh.27.7e), y forgath lygaid-bach (rje.27.7de), y forgath gron (rji.27.67) a'r forgath gribog (rjf.27.67) yn unol â Chynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod De Môr y Gogledd a'r Sianel. Mae'r camau hyn hefyd yn berthnasol i'r forgath drwynfain.

Os penderfynir bod hynny'n briodol, byddai'r mesurau hyn yn ceisio gwarchod y stociau y mae data amdanynt yn brin. Pan fydd manteision i wneud hynny, bydd rhai mesurau rheoli yn cael eu hystyried yn ehangach ar draws holl stociau'r cynllun. Mae ymrwymiad eisoes rhwng y DU a'r UE ar ddulliau amgen o reoli TAC presennol y grŵp, ac er bod yr ymrwymiad hwn yn cwmpasu'r holl stociau sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd gan TAC grŵp, gallai hyn ddarparu budd penodol i'r stociau y mae data amdanynt yn brin. Fe allai'r rhain gynnwys y canlynol:

Cam gweithredu 5.4: Parhau â'r gwaith rheoli presennol ar gyfer y stociau hyn. (parhaus)

Cam gweithredu 5.5: Ystyried dulliau eraill o ymdrin â chyfanswm dalfeydd a ganiateir presennol y grŵp drwy gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith parhaus ar y

cyd â'r DU a'r UE i nodi gwelliannau i’r dulliau presennol o reoli TAC y grŵp. (tymor byr/canolig)

Cam gweithredu 5.5: Ystyried gweithredu maint cyfeirio cadwraethol lleiaf (MCRS) er mwyn diogelu morgathod ifanc gan ganiatáu i fwy ohonynt aeddfedu ac atgynhyrchu, gan hyrwyddo twf y boblogaeth mewn ffordd gadarnhaol a thrwy hynny gynyddu lefelau stoc. (tymor canolig/hir)

Cam gweithredu 5.6: Ystyried gweithredu maint cyfeirio cadwraethol mwyaf i warchod pysgod anaeddfed a'r rhan fwyaf ffrwythlon o'r stoc. (tymor canolig/hir)

Cam gweithredu 5.7: Cyflwyno canllawiau gwirfoddol i wella'r gwaith o drin ac adnabod stociau'r cynllun er mwyn gwella'r gallu i oroesi, adrodd sy'n benodol i rywogaethau a chasglu tystiolaeth a chefnogi cydymffurfiaeth â'r gwaith rheoli a rheoleiddio. (tymor byr/canolig)

Cam gweithredu 5.8: Archwilio a, lle bo hynny'n briodol, roi trefniadau cau gofodol ac amserol ar waith i warchod cynefinoedd hanfodol ar gyfer rhywogaethau morgathod; gwarchod cyfansymiau o forgathod ifanc a morgathod sy’n bridio, caniatáu i fwy ohonynt aeddfedu ac atgenhedlu, cynyddu lefel y stociau. (tymor canolig/hir)

Bydd camau gweithredu i alluogi asesiad o’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer stociau o’r forgath felen (rjh.27.7afg a rjh.27.7e), y forgath ddreiniog (rjc.27.7e) a’r forgath lygaid-bach (rje.27.7de) yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod De Môr y Gogledd a’r Sianel, ac fe allant gynnwys y canlynol:

Cam gweithredu 5.9: Archwilio a blaenoriaethu dulliau rheoli a chasglu tystiolaeth i gyfrannu at wella'r gwaith o asesu’r forgath felen yn 7afg, y forgath ddreiniog yn 7e, y forgath felen yn 7e a’r forgath lygaid-bach yn 7e. Mae hyn yn cynnwys parhau â physgodfa sentinel 7e y forgath lygaid-bach cyn y posibilrwydd o ailagor yn rhagofalus yn y dyfodol, yn unol â'r ymrwymiad ar y cyd rhwng y DU a'r UE. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau gan ICES ac felly bydd gwella unrhyw asesiad yn y dyfodol yn dibynnu ar hynny (tymor byr-canolig/hir)

Cam gweithredu 5.10: Ystyried yr ymdrech o ran dalfa fesul uned ar gyfer y fflyd dan 10m gan ddefnyddio data iVMS i gefnogi gweithredu data ymdrech mewn cofnodion pysgota (tymor byr-canolig/hir)

Cam gweithredu 5.11: Diweddaru a dosbarthu canllawiau trin, rheoleiddio ac adnabod morgathod i bysgotwyr masnachol a hamdden er mwyn helpu i wella'r broses o gasglu data am y rhywogaethau hyn yn ogystal â'u gallu i oroesi (tymor byr-canolig/hir)

Cam gweithredu 5.12: Ceisio sicrhau bod data a gesglir yn cefnogi gweithredu cynnyrch cynaliadwy mwyaf neu brocsi addas ar gyfer yr holl stociau morgathod (tymor canolig/hir)

Cam gweithredu 5.13: Ceisio rheoli dalfeydd fel bod ymdrechion pysgota yn parhau i fod yn is na'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf neu’r procsi ar gyfer y cynnyrch cynaliadwy mwyaf (tymor canolig/hir).

At hyn, bydd y cynllun yn ceisio cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth i ddeall yn well yr holl rywogaethau morgathod yn ardal y cynllun i helpu i lywio penderfyniadau rheoli yn y

dyfodol, gan nodi camau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y cynllun yn parhau i ymateb i unrhyw ddiddordeb sy'n codi yn y bysgodfa neu newid ehangach mewn cyflwr stoc drwy gasglu tystiolaeth yn well a pharhau i fonitro. Bydd camau gweithredu eraill sy'n gysylltiedig â thystiolaeth yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod De Môr y Gogledd a’r Sianel, ac fe allant gynnwys y canlynol:

Cam gweithredu 5.14: Gan adeiladu ar y datganiad tystiolaeth ategol a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun terfynol, bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd i ganfod pa dystiolaeth sydd ei hangen i gyflawni nodau ehangach y Cynllun yn ogystal ag unrhyw amcanion polisi neu amcanion deddfwriaethol pellach. Nodi sut gellir addasu neu wella sianeli data presennol i lenwi bylchau mewn tystiolaeth a blaenoriaethu bylchau mewn tystiolaeth ar sail llinellau sylfaen presennol tystiolaeth ac anghenion tystiolaeth.

Cam gweithredu 5.15: Lle bo angen, sefydlu sianeli casglu data newydd i gau bylchau yn y dystiolaeth. Ymchwilio i gyfleoedd i gasglu ffynonellau data nad ydynt yn rhai traddodiadol neu ffynonellau data newydd i ategu hyn, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd. Archwilio dulliau o gyfuno data newydd â data presennol mewn un llwyfan.

Cam gweithredu 5.16: Ystyried sefydlu grŵp rheoli morgathod neu fforwm tebyg arall, a allai ddatblygu dros amser er mwyn gallu parhau i gymryd rhan yn y gwaith parhaus o reoli pysgodfeydd morgathod. Mae hyn yn unol â nod polisi 7 Cynllun Rheoli Pysgodfa Morgathod De Môr y Gogledd a’r Sianel (*Nod polisi 7: Datblygu gwaith partneriaeth i feithrin gallu'r diwydiant i gyfrannu at faterion sy'n effeithio ar reoli pysgodfeydd morgathod).*

### Siarcod y dyfnfor

Mae holl siarcod y dyfnfor yn y cynllun hwn yn brin o ddata ac nid oes digon o dystiolaeth ar gael i allu asesu’r cynnyrch cynaliadwy mwyaf. Felly, yn unol ag adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, mae'r cynllun hwn yn mynnu bod polisïau'n cynnal neu'n cynyddu lefelau stoc. Mae holl siarcod y dyfnfor a gwmpesir gan y cynllun hwn yn rhywogaethau gwaharddedig[13] ar hyn o bryd, felly ni ellir targedu, dal na glanio'r rhain.[14] Gan fod y rhywogaeth hon wedi'i gwahardd, nid ydym yn cynnig dulliau rheoli rhagofalus i gynnal y stociau. Nid ydym yn argymell casglu tystiolaeth i fynd ar drywydd asesiadau o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau canlynol yn ystod y fersiwn hon o'r cynllun gan fod y

---

[13] Mae rhestr gyfredol (2025) yr UE o rywogaethau gwaharddedig siarcod y dyfnfor a Chofnod Ysgrifenedig y DU a'r UE, wedi ailrestru’r morgi cegddu (*Galeus melastomus*). Er nad yw wedi'i restru'n benodol yn y cynllun, mae'r rhywogaeth hon ar gael yn ardal y cynllun hwn.

[14] Gweler y diffiniad o’r rhywogaeth yn [rheoliad 2018/2025] sy’n ymwneud â chwotâu a TAC y dyfnfor.

stociau hyn wedi'u dosbarthu'n ehangach o lawer, ac mae ganddynt orgyffwrdd gofodol a bathymetrig isel ag ardal y cynllun:

- morgi asgell barcud (sck.27.nea).
- morgi cegeidiol deilgen (guq.27.nea).
- morgi Portiwgal (cyo.27.nea).

Yn yr un modd, nid yw asesiadau o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y rhywogaethau canlynol yn briodol yn ystod y fersiwn hon o'r cynllun oherwydd bod rhywogaethau dyfnfor wedi'u gwahardd, sy'n golygu nad oes digon o laniadau o'r rhywogaeth neu'r stoc hon i gynhyrchu'r data i gynnal asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf. Ar ben hynny, mae ardal y cynllun yn rhy fas i ddal y rhywogaethau dŵr dyfnach hyn felly mae dalfeydd o'r rhywogaethau hyn yn annhebygol yn ardal y cynllun.

- cath-siarc y dyfnfor
- morgi crych
- morgi cegeidiol
- morgi melfed hirdrwyn
- morgi du
- morgi pig aderyn
- morgi llusern mwyaf
- morgi llusern seithliw
- cath-siarc llwydaidd
- morgi chwethagell trwynbwl
- morgi garw asgell hwyl
- morgi dannedd pigfain
- morgi'r Ynys Las

Serch hynny, bydd y cynllun yn ceisio cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth i ddeall y rhywogaethau hyn yn well, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol, er mwyn llywio penderfyniadau rheoli yn y dyfodol. Y rhywogaethau y disgwylir iddynt ryngweithio mwy â physgodfeydd yn ardal y cynllun yw’r morgi chwethagell trwynbwl ac, i raddau llai, y morgi llusern seithliw. Bydd y cynllun yn parhau i ymateb i unrhyw ddiddordeb sy'n codi yn y bysgodfa neu newid ehangach mewn cyflwr stoc drwy gasglu tystiolaeth yn well a monitro parhaus.

## Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan sgil-ddalfa
- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcanion gwyddonol
- amcan yr ecosystem

# Nod polisi 6: datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer merfog coch

## Rhesymeg polisi

Amcan y nod polisi hwn yw gwella tystiolaeth o gyflwr stociau merfog coch. Yn unol ag Adran 6(3)(b) o'r Ddeddf, nod y polisi hwn yw adfer lefelau stoc drwy barhau i reoli merfog coch yn gynaliadwy - gan fod ICES wedi nodi bod y stoc wedi gostwng. Nid yw'r cynllun yn cynnig camau i gael y dystiolaeth i alluogi asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf ar gyfer y stociau hyn gan nad yw asesiadau o'r fath yn briodol yn ystod y fersiwn hon o'r cynllun am y rhesymau canlynol:

- mae'r stoc wedi gostwng ac yn absennol mewn arolygon annibynnol o bysgodfeydd, mae cyngor ICES yn datgan nad yw asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf yn bosibl nes bydd y stoc wedi'i adfer
- ni ddangosodd pysgotwyr lawer o ddiddordeb mewn ecsbloetio’r stociau hyn yn ystod yr ymgysylltu gan nad oedd y stoc mewn cyflwr masnachol hyfyw am ddegawdau lawer. Ychydig iawn o ddalfeydd (cyfartaledd o 0.71t o 2019-2023) oherwydd bod y stoc wedi gostwng

Bydd y cynllun yn ceisio cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth i ddeall y stociau hyn yn well a llywio penderfyniadau rheoli yn y dyfodol, gan nodi camau i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y cynllun yn parhau i ymateb i unrhyw ddiddordeb sy'n codi yn y bysgodfa neu newid ehangach mewn cyflwr stoc drwy gasglu tystiolaeth yn well a monitro parhaus.

Roedd glaniadau a maint stoc y merfog coch yn dangos dirywiad difrifol yn y 1970au a'r 1980au ac ar hyn o bryd ystyrir bod y stoc wedi gostwng yn ddifrifol. Mae'r dalfeydd wedi sefydlogi ar lefelau hanesyddol isel ers hynny ond maent yn dangos gostyngiad pellach ers 2014. Drwy'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd, mae'r DU wedi ymrwymo i barhau i fonitro'r newidiadau mewn patrymau pysgota, effeithiolrwydd y mesurau a roddwyd ar waith, a'r cynnydd o ran adfer stoc, ar yr un pryd â dilyn yr ymrwymiad cyffredinol ar gyfer adfer a chadw stociau dyfnfor yn y tymor hir. Fel rhan o gylch adolygu parhaus y Cynllun, rhaid i fersiynau yn y dyfodol barhau i ymateb i unrhyw newidiadau yn y bysgodfa.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

Cam gweithredu 6.1: Parhau i ddilyn cyngor rhagofalus ICES ar gyfer rheoli merfog coch, sydd ar hyn o bryd yn TAC sgil-ddalfa yn unig.

Cam gweithredu 6.2: Defnyddio canllawiau adnabod presennol a gynhyrchwyd gan Cefas a'r Sefydliad Rheoli Morol i wella'r gwaith o adrodd, adnabod a chofnodi glaniadau merfog coch gorllewinol yn nyfroedd y DU mewn modd sy'n benodol i rywogaethau.

Cam gweithredu 6.3: Gweithio gyda'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd a'i Bartïon drwy rannu gwybodaeth am dueddiadau stoc y merfog coch, gan gynnwys monitro newidiadau mewn patrymau pysgota a chyfansoddiad dalfeydd.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

Cam gweithredu 6.4: Ymchwilio i'r data sydd ei angen i fwrw ymlaen ag asesiadau stoc pellach ICES o'r merfog coch o Gategori 6 yn y tymor hir.

Cam gweithredu 6.5: Gweithio o fewn fframwaith y Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd ar gydweithio rhwng yr UE a'r DU tuag at adfer y stoc merfog coch.

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020:

- amcan sgil-ddalfa
- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcanion gwyddonol
- amcan yr ecosystem

## Nod polisi 7: archwilio'r potensial i ddiwygio dulliau rheoli a dulliau presennol i gydgysylltu a chysoni'r gwaith o reoli stociau'r cynllun yn well

### Rhesymeg polisi

Nod y polisi hwn yw diwygio'r strwythur rheoli presennol ar gyfer stociau'r cynllun drwy integreiddio strategaethau rheoli yn y dyfodol mewn fframwaith cydlynol. Rhan ganolog o'r dull hwn yw gwella dulliau rheoli pysgodfeydd cymysg, casglu data'n well, a gwneud penderfyniadau cryfach ar sail tystiolaeth. Bydd yr ymdrechion hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu arferion pysgota mwy detholus, gan arwain at ecosystemau a phoblogaethau pysgod iachach yn ardal y cynllun. Er bod y polisi'n berthnasol yn fras ar draws holl stociau'r cynllun, ac i rywogaethau eraill sy'n cael eu dal yn ddamweiniol gan dreillrwydi dyfnforol, mae ganddo arwyddocâd penodol ar gyfer stociau heb eu targedu sy'n cael eu dal fel sgil-ddalfa fel arfer. Mae'r nod polisi hwn a'i gamau gweithredu yn cyfrannu at gynnal neu gynyddu lefel y stociau canlynol fel sy'n ofynnol gan adran 6(3)(b)(i) o'r Ddeddf:

- grenadwr trwyngrwn
- chwitlyn glas
- lleden Fair bedwar-smotyn
- cimwch Norwy (y tu allan i unedau swyddogaethol)
- merfog coch
- morgathod
- siarcod y dyfnfor

Mae'r prif feysydd ffocws yn cynnwys archwilio dulliau pysgodfeydd cymysg a rheoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau, gwerthuso'r mesurau Cadwraeth Dechnegol, rhoi trefniadau monitro electronig o bell ar waith, cysoni â pholisïau domestig fel cyfrifyddu dalfeydd a'r cynllun gostwng gwarediadau, yn ogystal â chefnogi'r Mecanwaith ar gyfer Cwota (QAM). Mae defnyddio monitro electronig o bell yn hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth o waredu pysgod a data hanfodol arall am bysgodfeydd (h.y. cyfansoddiad dalfeydd, amlder hyd, strwythur poblogaeth). Ar ben hynny, mynegodd rhanddeiliaid awydd cryf i ddatblygu system rhybuddion cynnar i atal stoc rhag cwympo yn y dyfodol ac adeiladu pysgodfa fwy gwydn.

## Camau gweithredu ar gyfer rhoi dulliau rheoli pysgodfeydd cymysg ac aml-rywogaeth ar waith:

Cydnabyddir bod rheoli pysgodfeydd cymysg yn arf effeithiol mewn pysgodfeydd lle mae stociau pysgod lluosog a gwahanol yn cael eu dal gyda'i gilydd, sy'n golygu y bydd dull rheoli un stoc yn effeithio ar stociau eraill a'r pysgodfeydd sy'n eu targedu. Gwnaeth y DU a'r UE ymrwymiadau diweddar, fel y nodir yng Nghofnod Ysgrifenedig[1] 2024, i edrych y tu hwnt i gyngor ar ddalfeydd un stoc a gweithio gyda'i gilydd drwy'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd i ddiffinio dulliau ar y cyd o ddatblygu gwyddoniaeth pysgodfeydd cymysg. Yn y Môr Celtaidd, mae rhywogaethau atal (lle mae stoc TAC is/dim stoc TAC yn atal stociau TAC uwch rhag cael eu glanio mewn pysgodfa gymysg), yn fater allweddol sy'n gysylltiedig â statws stoc gwael a sgil-ddalfa rhai rhywogaethau o gadoid (h.y. penfras). Gellir mynd i'r afael â hyn o bosibl drwy ddatblygu dulliau pysgodfeydd cymysg effeithiol a gwelliannau i ddetholedd offer. Ar yr un pryd, gellir cael manteision ecolegol ac economaidd ehangach drwy reoli pysgodfeydd cymysg, yn ogystal â diwygio'r dulliau rheoli presennol (yn enwedig Mesurau Cadwraeth Dechnegol 2021) i gefnogi integreiddio â pholisi llywodraethol arall a fframweithiau rheoli pysgodfeydd rhyngwladol, ehangach

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni hyn yn y tymor byr

Cam gweithredu 7.1: Ystyried defnyddio mapiau marwoldeb ac ymestyn Data Pysgodfeydd Cydraniad Uchel Cefas i nodi patrymau gofodol mewn cyfansoddiadau dalfeydd a gedwir ar gyfer pysgodfeydd cymysg er mwyn diffinio pysgodfeydd y cynllun.

Cam gweithredu 7.2: Parhau i ddatblygu adnoddau i werthuso strategaethau cywain pysgodfeydd cymysg a defnyddio mesurau technegol a gofodol i ddatrys anghydbwysedd o ran cwotâu.

Cam gweithredu 7.3: Ystyried sut gall rheoli pysgodfeydd cymysg gefnogi'r gwaith o ecsbloetio stociau'r Cynllun yn gynaliadwy a hyrwyddo dulliau rheoli ar gyfer stociau adfer y cynllun.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni hyn yn y tymor canolig i'r tymor hir

Cam gweithredu 7.4: Ystyrir bod canllawiau Manyleb Safon Cywain yn cyfrannu at symud ymlaen tuag at gynaliadwyedd hirdymor y pysgodfeydd sy'n cael eu rheoli o dan y cynllun hwn. Casglu digon o ddata i gefnogi'r gwaith o weithredu dull cynnyrch cynaliadwy mwyaf

ar gyfer stociau blaenoriaeth gan ddilyn y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael, gan gynnwys yr arferion gorau a nodir yn y Fanyleb hon.

## Camau gweithredu ar gyfer gwella dulliau rheoli presennol:

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni hyn yn y tymor byr

Cam gweithredu 7.5: Dechrau gwerthuso effeithiolrwydd yr holl waith rheoli presennol yn y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel sy'n berthnasol i stociau'r cynllun. Ehangu'r cwmpas i rywogaethau eraill a chysoni â deddfwriaeth/polisi cenedlaethol a rhyngwladol lle bo hynny'n bosibl.

Cam gweithredu 7.6: Archwilio'r potensial i ddatblygu mesurau rheoli pwrpasol ar gyfer pysgodfeydd y glannau. Ystyried camau gweithredu sy'n cefnogi ac yn annog cyfleoedd ar gyfer cychod y glannau.

Cam gweithredu 7.7: Archwilio manteision offer arloesol i wella detholedd (h.y. ystyried cynyddu maint sylfaenol y rhwyll ar gyfer treillrwydi dyfnforol yn ardal y cynllun o 80 mm i 100 mm). Integreiddio â dulliau rheoli cyfannol a gyflwynir yn y tymor canolig i'r tymor hir os yw'r dystiolaeth yn cefnogi hynny.

Cam gweithredu 7.8: Ochr yn ochr â rhanddeiliaid, dechrau datblygu system bwrpasol o rybuddion cynnar ar gyfer ardal y cynllun gyda'r nod o ganfod problemau gyda stociau a reolir TAC sy’n gostwng a chreu opsiynau ar eu cyfer.

Cam gweithredu 7.9: Dechrau datblygu HCR sydd wedi'i hanelu at ailadeiladu stociau adfer, atal lefelau biomas stoc sy'n gynaliadwy ar hyn o bryd (uwchben MSY $B_{trigger}$) rhag disgyn o dan hyn a diogelu iechyd yr ecosystem ehangach.

### Camau gweithredu i helpu i gyflawni’r polisi hwn yn y tymor canolig i’r tymor hir

Cam gweithredu 7.10: Symleiddio mesurau cadwraeth dechnegol y Môr Celtaidd lle bo hynny'n briodol - yn unol â chanlyniadau gwerthuso tymor byr a chasglu tystiolaeth.

Cam gweithredu 7.11: Defnyddio system rhybuddion cynnar sy'n canolbwyntio ar y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ar gyfer rheoli stociau sy'n dirywio i wella'r gwaith o reoli'r stociau hyn, annog adfer stoc neu leihau dirywiad, a meithrin gwytnwch / addasu yn y bysgodfa mewn modd amserol.

## Camau gweithredu i gyd-fynd â dulliau rheoli domestig a rhyngwladol ehangach:

### Gall camau gweithredu i helpu i gyflawni hyn yn y tymor byr gynnwys:

Cam gweithredu 7.12: Cyd-fynd â rhaglen Defra ar gyfer monitro electronig o bell yn nyfroedd Lloegr.

Cam gweithredu 7.13: Cefnogi'r gwaith o gyfrifo dalfeydd Defra a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cynllun gostwng gwarediadau.

Cam gweithredu 7.14: Cefnogi a chreu cyfleoedd i annog defnyddio'r Mecanwaith ar gyfer Cwota, gyda phwyslais penodol ar bysgota cynaliadwy neu adeiladu tystiolaeth ar gyfer stociau adfer y cynllun.

**Gall camau gweithredu i helpu i gyflawni’r polisi hwn yn y tymor canolig i’r tymor hir gynnwys:**

Cam gweithredu 7.15: Defnyddio'r rhaglen monitro electronig o bell yn nyfroedd Lloegr i ddwyn ynghyd nifer o raglenni ar gyfer casglu tystiolaeth a diwygio dulliau rheoli yn y Môr Celtaidd. Cefnogi'r gwaith o integreiddio monitro electronig o bell ar gyfer rhwydi drysu a threillrwydi dyfnforol ar hyd llinell amser Defra ar gyfer monitro electronig o bell.

Cam gweithredu 7.16: Cyflawni canlyniadau polisïau Defra ar gyfer cyfrifo dalfeydd, cynllun gostwng gwarediadau a'r mecanwaith ar gyfer cwota i annog a hyrwyddo pysgota cynaliadwy.

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan sgil-ddalfa
- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcanion gwyddonol
- amcan yr ecosystem

## Nod polisi 8: Adeiladu tuag at reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau

### Rhesymeg polisi

Mae gan y nod polisi hwn dri amcan, a fydd yn mynd i'r afael â chyngor cyrff cadwraeth natur statudol. Yr amcanion hyn yw; lleihau effaith pysgota dyfnforol ar yr amgylchedd morol, gan gynnwys nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig; gwella'r sylfaen dystiolaeth i feithrin hyder mewn asesiadau yn y dyfodol; a symud tuag at reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau yn y dyfodol.

#### Lleihau effeithiau pysgota dyfnforol

Nod y polisi hwn yw ceisio cyflawni hyn drwy leihau effaith pysgodfeydd dyfnforol ar yr ecosystem forol drwy gymryd camau priodol i leihau effeithiau benthig pysgota, lleihau achosion o sgil-ddalfeydd rhywogaethau diangen, gan gynnwys rhywogaethau morol sensitif, cynnal lefelau’r ysglyfaeth sydd ar gael ar draws gweoedd bwyd a gweithio tuag at reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau.

Mae pob math o bysgota yn cael effaith ar yr amgylchedd morol ac ecosystemau morol i wahanol raddau, boed hynny drwy dynnu rhywogaethau pysgod targed, sgil-ddalfa ddamweiniol o rywogaethau nad ydynt yn darged, tynnu ysglyfaeth y mae rhywogaethau eraill yn ei fforio, rhyngweithio â gwely'r môr neu offer pysgota a gollwyd. Mae deall a lleihau'r effeithiau hyn yn rhan bwysig o reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau. Nid yw'r camau gweithredu a nodir isod yn benodol i bysgodfa benodol ond yn hytrach maent yn berthnasol i bysgota dyfnforol yn gyffredinol ac felly dylid eu rhoi ar waith ar y cyd â Chynlluniau Rheoli Pysgodfa cysylltiedig eraill. Mae'r nod polisi hwn yn ystyried paramedrau ecolegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach ar iechyd stociau.

Mae asesiadau presennol cyrff cadwraeth natur statudol yng Nghymru a Lloegr yn nodi mai treillrwydi dyfnforol (gan gynnwys treillrwydi trawst, treillrwydi dyfrgwn a threillrwydi pâr isaf), rhwydi statig a rhwydi drifft yw'r mathau mwyaf perthnasol o offer i'w hystyried. Mae hyder yn y dystiolaeth sydd ar gael mewn rhai achosion yn isel neu'n gymedrol, ac yn yr achosion hyn neilltuwyd sgôr risg ragofalus. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn yr adran Ystyriaethau Amgylcheddol cynharach ac yn yr Adroddiad Amgylcheddol.

**Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**

Bydd un o nodau'r cynllun yn canolbwyntio ar wella'r sylfaen dystiolaeth, gan alluogi asesiadau hyderus o'r risgiau, ar yr un pryd â chymryd camau priodol yn ôl yr angen. Yn y tymor byr, byddai dull mwy systematig o gasglu data, gan gynnwys gwybodaeth amserol, ofodol a demograffig am sgil-ddalfa yn arwain at welliannau i sicrhau amcangyfrifon sgil-ddalfa mwy cywir. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i dynnu sylw at y rhywogaethau a'r ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl, gan nodi treialon lliniaru posibl gyda rhanddeiliaid.

Mae gwaith parhaus sy'n canolbwyntio ar hyn yn mynd rhagddo drwy Fenter Lliniaru Sgil-ddalfeydd Bywyd Gwyllt Morol Defra a rhaglen Clean Catch UK, er nad oes cynllun gweithredu i gyflawni'r Fenter hon wedi cael ei gyhoeddi eto. Gallai adeiladu'r sylfaen dystiolaeth drwy hunan-adrodd am sgil-ddalfeydd helpu i gefnogi fersiynau o'r asesiad hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai gweithredu dulliau monitro electronig o bell, wedi'i flaenoriaethu yn ôl risg (e.e. French ac eraill, 2022), yn gwella ein gwybodaeth am sgil-ddalfa rhywogaethau sensitif a'n gallu i'w lliniaru.

**Bwrw ymlaen â dulliau rheoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau**

Nod y polisi hwn yw bwrw ymlaen â'r gwaith o reoli pysgodfeydd ar sail ecosystemau ym mhysgodfeydd y cynllun. Mae “amcan ecosystemau” y Ddeddf yn mynnu bod gweithgareddau pysgota a dyframaethu'n cael eu rheoli mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau negyddol ar ecosystemau morol ac yn sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll newid. Atgyfnerthir yr ymrwymiad hwn yn y Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd, lle mae'r dull ecosystemau yn ganolog i reolaeth forol gynaliadwy.

Bydd y nod polisi hwn yn dangos rôl y cynllun o ran cyfrannu at gyflawni nod polisi 6 Cynllun Gwella Amgylcheddol y DU yn ogystal â'r ymrwymiadau a'r rhwymedigaethau rhyngwladol fel yr amlinellir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, gan gynnwys Targed 5 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, y Confensiwn ar gyfer Diogelu Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, a Chod Ymddygiad y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth ar gyfer Pysgodfeydd Cyfrifol.

Mae model ecosystemau yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer y Môr Celtaidd, a bydd y cynllun hwn yn ceisio ei integreiddio a'i ddatblygu mewn fersiynau yn y dyfodol.

## Camau gweithredu parhaus i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn

Cam gweithredu 8.1: Cefnogi'r gwaith parhaus o gasglu data a threialu drwy barhau â rhaglenni sgil-ddalfeydd presennol a'u hehangu (fel Menter Lliniaru Sgil-ddalfeydd y DU - Rhaglen Monitro Sgil-ddalfeydd a Clean Catch UK). Bydd y Cynllun Rheoli Pysgodfa yn helpu i lywio dadansoddiad i ateb cwestiynau penodol, gan gynnwys:

- nodi rôl ac effeithiolrwydd gwahanol ddulliau monitro sgil-ddalfeydd a gwarediadau, gan annog defnydd ehangach o sianeli casglu data presennol (er enghraifft, ap Clean Catch) yn ardal y cynllun.
- gwella dealltwriaeth o risg sgil-ddalfa, amlder a phatrymau gofodol rhyngweithio rhywogaethau sensitif ym mhysgodfeydd y cynllun. Yn benodol, gwella amcangyfrifon marwolaethau ar gyfer is-ddosbarthiadau nad ydynt yn famaliaid o dan y Rhaglen Monitro Sgil-ddalfeydd mewn rhwydi ac offer treillio dyfnforol, y credir eu bod yn peri risg uchel a chanolig, yn y drefn honno.
- asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru ac osgoi presennol a dreialwyd yn y DU a thramor (fel dyfeisiau atal acwstig, math o fachyn, pecynnau sgil-ddalfa, ac ati).

Cam gweithredu 8.2: Cefnogi rhaglen Defra i weithredu offer Monitro Electronig o Bell yn nyfroedd Lloegr.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

### Gall ystyriaethau ehangach o ran yr ecosystem gynnwys:

Cam gweithredu 8.3: Cyflwyno mwy o fonitro a gwerthuso mesurau lliniaru ar gyfer sgil-ddalfa rhywogaethau a warchodir mewn rhwydi drysu, ar y cyd â rhaglenni sgil-ddalfa presennol.

Cam gweithredu 8.4: Archwilio a threialu mesurau lliniaru addas, lle bo'n briodol, i leihau sgil-ddalfa adar môr ar y cyd â'r rhaglenni sgil-ddalfa presennol.

Cam gweithredu 8.5: Archwilio opsiynau ar gyfer cryfhau'r gwaith o gasglu data ar gychod y glannau 12m a llai, gan gynnwys gydag offer Monitro Electronig o Bell.

Cam gweithredu 8.6: Ystyried canolbwyntio ar yr ecosystem wrth ddefnyddio offer Monitro Electronig o Bell i fonitro sgil-ddalfa yn ardal y cynllun, yn enwedig ar gyfer rhwydwyr drysu a'r rheini sy'n targedu stociau adfer.

Cam gweithredu 8.7: Cynyddu dealltwriaeth o aflonyddwch ac effeithiau benthig drwy gefnogi gwell cywirdeb data gofodol pysgodfeydd. Gellir cyflawni hyn drwy gynyddu amledd ping neu ddefnyddio data wedi'i geogelcio i ddarparu gwybodaeth fanylach.

Cam gweithredu 8.8: Gweithio tuag at weithredu Rhaglen Mesurau Strategaeth Forol y DU, sy'n cynnwys creu gweithgor effeithiau benthig ledled y DU.

Cam gweithredu 8.9: Ystyried y camau sydd eu hangen i weithio tuag at roi trefniadau rheoli pysgodfeydd y cynllun ar waith sy'n seiliedig ar ecosystemau a chysoni'r dull hwn o weithredu ar draws rhaglen y cynllun.

Cam gweithredu 8.10: Adeiladu llwybr i integreiddio tystiolaeth ecolegol ac amgylcheddol ehangach yn y cynlluniau adfer, asesiadau stoc a chyngor pysgodfeydd ar gyfer rhywogaethau'r cynllun a nodir yn nodau polisi 1 i 6, drwy'r canlynol:

- Cydnabod pwysau ehangach a allai fod yn dylanwadu ar iechyd a dosbarthiad stoc (e.e. newid hinsawdd a gweithgareddau morol eraill).
- Cryfhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth ac ystyried mesurau gwarchod priodol ar gyfer Cynefinoedd Pysgod Hanfodol stoc y cynllun.
- Casglu data i wella dealltwriaeth o strwythur poblogaeth ac iechyd stoc.
- Mesur effaith pysgodfeydd y cynllun ar argaeledd ysglyfaeth ar gyfer nodweddion morol dynodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig.
- Nodi pwyntiau cyfeirio ecosystemau y gallai'r cyngor presennol ar gynnyrch cynaliadwy mwyaf, a bennir drwy gyngor un stoc neu TACs presennol, effeithio arnynt (e.e. effaith pysgodfeydd ar rywogaethau nad ydynt yn darged, cysylltiadau ysglyfaethwr-ysglyfaeth a swyddogaethau ecosystemau).
- Adolygu gwaith Cefas ar Gynefinoedd Pysgod Hanfodol ac ystyried sut gellir defnyddio hyn i reoli pysgodfeydd y cynllun ar sail ecosystemau.

Cam gweithredu 8.11: Casglu tystiolaeth i helpu i benderfynu a yw pwyntiau cyfeirio ar sail ecosystemau ar gyfer cyngor pysgota yn briodol ar gyfer stociau'r cynllun yn y tymor hir.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

### Gall ystyriaethau ehangach o ran yr ecosystem gynnwys:

Cam gweithredu 8.12: Cefnogi'r byd academaidd a diwydiant i ymchwilio i opsiynau offer amgen neu ddulliau pysgota a all helpu i leihau effeithiau benthig a sgil-ddalfeydd rhywogaethau morol sensitif, a datblygu'r opsiynau/dulliau hynny. Blaenoriaethu treialu mesurau lliniaru ar gyfer rhwydi drysu.

Cam gweithredu 8.13: Cynyddu dealltwriaeth o aflonyddwch ac effeithiau benthig drwy gefnogi data gofodol pysgodfeydd mwy cywir. Gellir cyflawni hyn drwy gynyddu amledd ping neu ddefnyddio data wedi’i geogelcio i ddarparu gwybodaeth fanylach neu drwy gyflwyno monitro electronig o bell yn raddol.

Cam gweithredu 8.14: Gwerthuso effeithiau cronnus polisïau gofodol morol ehangach, fel ynni adnewyddadwy ar y môr, i benderfynu a oes angen mesurau ar draws rhaglenni yn y dyfodol i leihau aflonyddwch benthig.

Cam gweithredu 8.15: Cryfhau'r gwaith o reoli pysgodfeydd y cynllun ar sail ecosystemau, gwella'r sylfaen dystiolaeth o ran effaith pysgodfeydd y cynllun ar yr ecosystem forol ehangach, drwy’r canlynol:

- Gwella ein dealltwriaeth o rôl a swyddogaeth rhywogaethau'r cynllun o ran yr ecosystem.
- Lleihau effaith tynnu ysglyfaeth o rywogaeth allweddol, fel y penfras ifanc, adar y môr, a nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig symudol, fel llamhidyddion.

Cam gweithredu 8.16: Adeiladu ar dystiolaeth i ddeall effeithiau trefniadau cau gofodol ac amserol presennol ar gyfer rhai stociau’r cynllun ar stociau eraill y cynllun. Lle bo'n briodol, chwilio am gydgysylltu a chysoni mewn achosion o gau o'r fath er mwyn lleihau gwasgfa ofodol neu bwysau cynyddol.

Cam gweithredu 8.17: Yng Nghymru, defnyddio asesiadau Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru (AWFA) i adolygu effeithiau amgylcheddol posibl arferion rheoli pysgodfeydd presennol, unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â’r cynllun ac ystyried mesurau lliniaru.

Cam gweithredu 8.18: Ystyried casglu tystiolaeth mewn modd wedi'i dargedu i gefnogi integreiddio dulliau rheoli ar sail ecosystemau mewn asesiadau stoc a chyngor pysgota dilynol. Mae hyn yn cynnwys effaith senarios rheoli pysgodfeydd cyfredol ac amgen ar gynhyrchiant, ymwrthedd[15] a gwydnwch[16]:

- rhywogaethau targed (e.e. sut mae manteisio ar rywogaethau'r cynllun y tu allan i ardal y cynllun yn effeithio ar iechyd stociau'r cynllun yn ardal y cynllun ac fel arall);
- rhywogaethau eraill (e.e. effaith tynnu pysgod porthiant ar rywogaethau eraill, sgil-ddalfa rhywogaethau nad ydynt yn darged);
- swyddogaeth ecosystem (e.e. unedau strwythurol a swyddogaethol allweddol mewn biotopau).

---

[15] Mae nodweddion ymwrthedd yn dangos a all [nodwedd] amsugno aflonyddwch neu straen heb newid cymeriad (MarLIN, MarESA, 2023)

[16] Mae gwydnwch yn cyfeirio at allu [nodwedd] i adfer ar ôl aflonyddwch neu straen (MarLIN, MarESA, 2023)

Cam gweithredu 8.19: Asesu effaith senarios hinsawdd gwahanol ar stociau pysgod a reolir o dan fframweithiau cyngor cyfredol ac arfaethedig.

- Gwerthuso'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer integreiddio gwybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ar stociau'r cynllun â dulliau rheoli ar sail ecosystemau, gan gynnwys asesiadau stoc a chyngor ar bysgota.

Cam gweithredu 8.20: Integreiddio tystiolaeth ecolegol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach â modelau rheoli aml-rywogaeth ac aml-fflyd er mwyn deall cyfaddawdau gwahanol ddulliau rheoli, fel y gwaith parhaus gan SEAwise.

Cam gweithredu 8.21: Monitro gwasanaethau ecosystem allweddol i wella dealltwriaeth o Gynefinoedd Pysgod Hanfodol. Nodi a blaenoriaethu'r dulliau rheoli cynefinoedd yn ofodol sydd:

- yn fannau bwrw grawn ac yn fagwrfeydd pwysig ar gyfer stociau'r cynllun;
- yn cefnogi stociau'r cynllun a rhywogaethau strwythurol a swyddogaethol ehangach mewn ecosystem sy'n cyfrannu at gyfanrwydd gwely'r môr.

Cam gweithredu 8.22: Defnyddio tystiolaeth a gasglwyd yn y tymor byr a'r tymor canolig i wella dulliau rheoli gyda'r bwriad o sicrhau hyfywedd tymor hir stociau a physgodfeydd.

Cam gweithredu 8.23: Ystyried sut gellid ymgorffori dull rheoli ar sail ecosystemau mewn fersiynau o'r cynllun hwn yn y dyfodol a lle gallai'r rhain gyd-fynd â dulliau gweithredu mewn cynlluniau eraill.

## Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan sgil-ddalfa
- amcan cynaliadwyedd
- amcan rhagofalus
- amcan tystiolaeth wyddonol
- amcan yr ecosystem

# Nod polisi 9: cefnogi'r sector i addasu, i fod yn gydnerth ac i ymgysylltu

## Rhesymeg polisi

Amcan y nod polisi hwn yw cefnogi pysgodfeydd masnachol a hamdden i ddatblygu'n gynaliadwy, gan ganiatáu i gymunedau arfordirol elwa o gyfleoedd sy'n cael eu creu gan y Ddeddf. Ar ben hynny, mae'r nod polisi yn ceisio hwyluso gweithio mewn partneriaeth wrth roi’r Cynllun Rheoli Pysgodfa ar waith.

Fel y nodir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r Ddeddf, mae gan awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU uchelgais i gefnogi diwydiant pysgota modern, gwydn ac amgylcheddol gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys rheoli ein pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy gydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan sicrhau eu bod yn economaidd hyfyw, heb ecsbloetio stociau morol yn ormodol. Drwy wneud hyn, bydd yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant pysgota i dreftadaeth gymdeithasol a diwylliannol cymunedau arfordirol.

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi bod modd ymestyn cwmpas cynllun fel y bo’n briodol, i ystyried materion ehangach sy'n ymwneud â rheoli pysgodfeydd sy'n cwmpasu pryderon amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

Gall y camau hyn gynnwys:

Cam gweithredu 9.1: Ystyried mecanwaith i randdeiliaid gyfrannu at wneud penderfyniadau wrth roi mesurau ar waith yn y Cynllun Rheoli Pysgodfa hwn.

Cam gweithredu 9.2: Nodi ac asesu dibyniaeth a gwendidau allweddol fflydoedd gwahanol sy'n ymwneud â physgodfeydd y cynllun.

Cam gweithredu 9.3: Casglu tystiolaeth ar agweddau economaidd ar y pysgodfeydd masnachol a hamdden i sicrhau bod penderfyniadau rheoli'n cael eu llywio gan y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Cam gweithredu 9.4: Ystyried sut gall camau gweithredu a ddatblygir o dan y cynllun hwn gyfrannu at hyrwyddo marchnadoedd cynaliadwy ar gyfer rhywogaethau'r cynllun.

Cam gweithredu 9.5: Archwilio ymhellach effeithiau Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gwynt ar y môr, seilwaith a gweithgareddau morol eraill ar gyfleoedd pysgota a dadleoli posibl oherwydd y pwysau hwn. Defnyddio'r allbynnau hyn i gefnogi pysgodfeydd y cynllun i addasu i newidiadau yn y defnydd o'r môr.

Cam gweithredu 9.6: Annog pobl i fanteisio ar gyllid grant priodol, lle bo hynny'n bosibl, i gefnogi arloesi, twf a chynaliadwyedd y stociau, y pysgodfeydd a'r cymunedau arfordirol.

Cam gweithredu 9.7: Ystyried a all asesiad cymdeithasol ac economaidd o'r pysgodfeydd helpu i nodi unrhyw rwystrau rhag gwireddu hyfywedd economaidd y cymunedau arfordirol yn ardal y cynllun.

Cam gweithredu 9.8: Cryfhau ffrydiau data drwy'r cyllid sydd ar gael a chyfranogiad y diwydiant. Cynyddu'r gallu i gasglu tystiolaeth yn y diwydiant drwy ymgysylltu. Drwy gydweithio, gwella'r gwaith o adrodd a monitro data dalfeydd hamdden.

### Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan mynediad cyfartal
- amcan budd cenedlaethol
- amcan cynaliadwyedd
- amcan tystiolaeth wyddonol

## Nod polisi 10: lleihau cyfraniad pysgota at newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd

### Rhesymeg polisi

Amcan y nod polisi hwn yw meithrin gwydnwch yn yr ecosystem a'r bysgodfa mewn ymateb i bwysau sy'n cael ei lywio gan yr hinsawdd, yn ogystal â lleihau cyfraniad cyffredinol pysgodfeydd at newid hinsawdd, gan gefnogi amcan y Ddeddf o ran newid hinsawdd. Ar ben hynny, mae'n ceisio cyfrannu at ymrwymiad cyfreithiol ehangach y DU tuag at sicrhau bod cyfrif carbon net y DU ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 100% yn is na llinell sylfaen 1990, fel y nodir yn Neddf Newid Hinsawdd 2008. Bydd hyn yn cael ei archwilio drwy gamau gweithredu i gefnogi'r bysgodfa i ymateb i heriau sy'n cael eu llywio gan yr hinsawdd, gan gynnwys goblygiadau gweithredol fel effeithiau ar seilwaith oherwydd y tywydd; yn ogystal â thrwy gamau gweithredu sydd â'r nod o wella iechyd ecosystemau drwy gasglu tystiolaeth a nodi anghenion rheoli priodol yn y dyfodol.

Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am gyfuniad o reoli pysgodfeydd, gwarchod cynefinoedd a lliniaru effeithiau ehangach yr hinsawdd er mwyn helpu i adeiladu stociau ac ecosystemau mwy gwydn. O ganlyniad, mae'r rhain hefyd yn peri heriau i gynaliadwyedd y bysgodfa ac mae gofyn addasu dulliau rheoli ac ymddygiad yn y bysgodfa.

Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i newid hinsawdd a physgodfeydd yn datblygu, ond mae angen gwneud mwy o waith i ddeall y canlynol yn llawn:

- cyfraniadau pysgodfeydd y cynllun at newid hinsawdd (fel adolygu astudiaethau ar effeithiau treillrwydo dyfnforol ar garbon glas), a sut gellir lleihau allyriadau carbon mewn ffordd economaidd hyfyw;
- effeithiau tebygol newid hinsawdd ar gyfansoddiadau a meintiau stoc pysgod, yn ogystal â chymunedau pysgota; a
- graddfa a natur y newid sydd ei angen i addasu.

Ar ben hynny, drwy Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 a Chytundeb Paris Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, yn ogystal ag amcan Newid Hinsawdd y Ddeddf, mae'r DU wedi ymrwymo'n gyfreithiol i symud tuag at sero net. Er nad yw'r ddau gytundeb hinsawdd blaenorol yn benodol i bysgodfeydd, bydd angen i'r diwydiant pysgota hefyd gyfrannu at hyn drwy leihau allyriadau tanwydd yn y dyfodol. Bydd angen i'r dull hwn hefyd ystyried polisïau ar gyfer gwella cyfanrwydd gwely'r môr, gwella carbon glas a lleihau allyriadau carbon. Bydd rhagor o ymchwil yn cael ei gynnal ar effaith newid hinsawdd ar y pysgodfeydd sy'n cael sylw yn y cynllun hwn. Fodd bynnag, nid ystyrir ar hyn o bryd bod mynd ati'n uniongyrchol i gyflawni strategaethau lliniaru yn erbyn newid hinsawdd yn rhan o gwmpas y fersiwn hon o'r cynllun ond gall cefnogi pysgodfeydd drwy'r newid cenedlaethol i bysgota carbon isel fod yn rhan o'i gylch gwaith.

Bydd y newidiadau disgwyliedig o ran dosbarthiad rhywogaethau hefyd yn effeithio ar bysgodfeydd masnachol, ac maent yn debygol o effeithio ar ymddygiad pysgota a chwotâu pysgota a bydd angen eu rheoli mewn modd addasol. Er bod lefel o ansicrwydd mewn amcanestyniadau yn y dyfodol ac mae'n anodd llunio rhagolwg cadarn ar hyn o bryd, mae'r sylfaen dystiolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y degawd diwethaf gyda pholisïau a'r diwydiant yn canolbwyntio'n fwy o lawer ar effeithiau newid hinsawdd, addasu i newid hinsawdd a'i liniaru.

Mae angen cynnal cysondeb hefyd o ran ymchwilio i'r hinsawdd a'i reoli gyda nodau amgylcheddol a threfniadau rheoli sy'n seiliedig ar ecosystemau (polisïau 8 a 9) ynghyd â nodau i gefnogi'r sector pysgota.

Nid yw'r camau gweithredu a nodir isod yn unigryw i'r cynllun hwn. Fodd bynnag, wrth i'n sylfaen dystiolaeth dyfu, byddwn yn deall effeithiau penodol newid hinsawdd yn well a'r ffordd orau o gefnogi cychod i leihau eu hallyriadau, ar yr un pryd ag addasu i newidiadau mewn stoc ac amodau pysgota. Mae'r camau gweithredu hyn yn debygol o addasu dros amser a byddant yn cael eu mireinio ymhellach.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor byr

Cam gweithredu 10.1: Meithrin dealltwriaeth well o ble gall pysgodfeydd y cynllun gydgysylltu â gwaith ymchwil ar newid hinsawdd a'r strategaeth ehangach ar gyfer lleihau allyriadau $CO_2$. Dylai hyn gynnwys ystyried y ffordd orau o gynnal cydweithrediad ar draws y llywodraeth, diwydiant a sectorau academaidd mewn mentrau i leihau effeithiau amgylcheddol pysgodfeydd y cynllun (gan gynnwys allyriadau $CO_2$).

Cam gweithredu 10.2: Ystyried sut mae cefnogi'r sector pysgota i gyflawni amcanion a pholisïau hinsawdd y llywodraeth, fel Deddf Newid Hinsawdd 2008 a Strategaeth Datgarboneiddio Morol y DU. Dylai hyn gynnwys ystyried sut mae nodi lle gall cymorth a chyllid fod ar gael i alluogi hyn.

Cam gweithredu 10.3: Ystyried amlinellu cynllun i gasglu rhagor o dystiolaeth ar wydnwch stoc i newid hinsawdd a nodi camau gweithredu neu reoli a fydd yn hybu gwydnwch. Dylai'r cynllun gynnwys ystyried sut gall dulliau rheoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau gefnogi gwydnwch ac addasu i newidiadau sy'n cael eu llywio gan yr hinsawdd yn stociau a physgodfeydd y Cynllun Rheoli Pysgodfa.

## Camau gweithredu i helpu i gyflawni'r nod polisi hwn: tymor canolig i dymor hir

### Cefnogi ac addasu pysgodfeydd

Cam gweithredu 10.4: Nodi cyfleoedd i ddatblygu fflyd fwy effeithlon (gan gynnwys gwelliannau i ddyluniad injan, offer pysgota a datblygiadau technolegol).

Cam gweithredu 10.5: Ystyried, os yw'n briodol, sut mae strwythuro fersiynau o'r cynllun yn y dyfodol o amgylch gwahanol senarios hinsawdd, gan archwilio sut mae addasu cyfleoedd a dulliau rheoli pysgodfeydd o amgylch gwaith parhaus ar 'enillwyr' a 'chollwyr' posibl newid hinsawdd. Deall beth all hyn ei olygu i'r bysgodfa o safbwynt cymdeithasol ac economaidd.

### Meithrin gwydnwch pysgodfeydd ac ecosystemau

Cam gweithredu 10.6: Parhau i werthuso effaith newid hinsawdd ar stociau'r cynllun.

Cam gweithredu 10.7: Nodi lle gellir rhoi mesurau lliniaru ac addasu i newid hinsawdd ar waith, lle bo hynny'n briodol, i leihau'r effeithiau ar y pysgodfeydd.

Cam gweithredu 10.8: Ystyried addasu cynlluniau adfer y cynllun yn y dyfodol a strategaethau rheoli hirdymor i gyd-fynd â sensitifrwydd rhywogaethau.

Cam gweithredu 10.9: Ystyried sut mae amcanestyniadau hinsawdd tymor hwy yn llywio fersiynau o'r cynllun hwn yn y dyfodol.

## Amcanion perthnasol Deddf Pysgodfeydd 2020

- amcan cynaliadwyedd
- amcan budd cenedlaethol
- amcan newid hinsawdd
- amcan tystiolaeth wyddonol

# Gweithredu, monitro ac adolygu

Bydd y camau gweithredu yn y cynllun hwn yn destun cam gweithredu dilynol lle bydd angen mecanweithiau priodol i'w cyflawni. Gallai mecanweithiau o'r fath gynnwys mesurau gwirfoddol, amodau trwydded, is-ddeddfau cenedlaethol a rhanbarthol, ac offerynnau statudol. Bydd y cam gweithredu hwn yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth bresennol, unrhyw gamau a gymerwyd drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynllun a'r opsiynau a drafodwyd gyda rhanddeiliaid. Bydd dull cyfannol a chydgysylltiedig ar draws Cynlluniau Rheoli Pysgodfa yn gwella effeithiolrwydd eu gweithredoedd, cyfranogiad rhanddeiliaid a'r defnydd o adnoddau.

Mae'r cynllun hwn yn destun proses adolygu statudol hyd at chwe blynedd ar ôl ei gyhoeddi. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd angen dangos tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd drwy roi'r camau hynny ar waith. Bydd y broses adolygu hon hefyd yn cynnwys monitro am effeithiau amgylcheddol posibl, er mwyn helpu i sefydlu a oes angen unrhyw newidiadau o ran rheoli pysgodfeydd y cynllun.

## Dangosyddion ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun

Bwriad y cynllun hwn yw caniatáu dull addasol a bydd yn cael ei adolygu a'i wella dros amser wrth i ni gasglu mwy o dystiolaeth a chydweithio â'r sector pysgota a buddiannau ehangach ar reoli'r pysgodfeydd hyn yn gynaliadwy. Bydd y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu ar gyfer y cynllun hwn yn cael ei fonitro, a bydd effeithiolrwydd yn cael ei fesur gan y dangosyddion isod.

Bydd **adfer** pysgota’r stociau canlynol i lefelau cynaliadwy yn dangos effeithiolrwydd y cynllun hwn: morlas (pol.27.67), penfras (cod.27.e-k), hadog (had.27.7b-k), gwyniad môr (whg.27.7b-ce-k), lleden goch (pl.7e a ple.7fg) a chimwch Norwy yn Uned Swyddogaethol 22 (nep.fu.22).

Bydd **cynnal** biomas stoc silio ar gyfer stociau wedi’u pysgota’n gynaliadwy yn dangos effeithiolrwydd y cynllun hwn: cythraul y môr (mon.27.78abd ac ank.27.78abd), honos glas (bli.27.5b671), morgath lygadog (rjn.27.678abd), lleden Fair (meg.27.7b-k8abd), cimwch Norwy yn Unedau Swyddogaethol 20 a 21 (nep.fu.2021), lleden goch (ple.7hjk) a morgath lygaid-bach (rje.27.7fg).

Bydd **lleihau marwoldeb pysgota a chynnal** biomas stoc silio yn dangos effeithiolrwydd y cynllun hwn: lleden chwithig (sol.27.7e a sol.27.7fg), morgath donnog (rju.27.7de), morgath ddreiniog (rjc.27.7afg) a morgath fannog (rjm.27.7ae-h).

Bydd **bwrw ymlaen ag asesiadau cynnyrch cynaliadwy mwyaf** ar gyfer y stociau canlynol yn arwydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn: lleden chwithig (sol.27.7h-k), morgath

felen (rjh.27.7afg a rjh.27.7e), morgath ddreiniog (rjc.27.7e) a morgath lygaid-bach (rje.27.7de).

Bydd **gwella'r sylfaen dystiolaeth** ar gyfer y stociau canlynol yn arwydd o effeithiolrwydd y cynllun hwn: grenadwr trwyngrwn (rng.27.5b6712b), chwitlyn glas (pok.27.7-10), lleden Fair bedwar-smotyn (lbd.27.7b-k8abd), cimwch Norwy yn Isardal 7 ICES, y tu hwnt i'r unedau swyddogaethol (nep.27.7outFU), morgath gron (rji.27.67), morgath gribog (rjf.27.67), morgath las (rjb.67a-ce-k), morgath wen (rja.27.nea), morgath las a morgath drwynfain (rjb.27.67), morgi asgell barcud (sck.27.nea), morgi cegeidiol deilgen (gug.27.nea), morgi Portiwgal (cyo.27.nea) a merfog coch (sbr.27.6-8). Bydd gwella'r dystiolaeth ar gyfer y stociau hyn yn arwydd o effeithiolrwydd y cynlluniau hyn:

- morgath felen, rhanbarth 7h ICES.
- morgath styds, rhanbarth 7h ICES.
- morgath lygaid-bach, rhanbarth 7h ICES.
- morgath donnog, rhanbarth 7fgh ICES.
- morgath drwynfain.
- morgath lwyd.
- morgath bigog.
- morgath ddu.
- morgath bigog y Canoldir.
- morgath gron America.
- morgath drydan fraith.

Mae gan nodau'r cynllun eu dangosyddion eu hunain ond y dangosydd cyffredinol a fydd yn pennu effeithiolrwydd y cynllun hwn yw cynnal pwysau pysgota o fewn lefelau cynaliadwy.

Efallai y bydd angen adolygiadau pellach o'r cynllun hefyd os bydd cyfleoedd newydd yn codi i wella effeithiolrwydd y cynllun. Bydd y cynllun yn manteisio ar setiau data cymdeithasol yn y dyfodol i'w datblygu fel y nodir yn adran 3.2.10 o'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, sy'n amlinellu y bydd amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei chasglu, gan gynnwys data gwyddonol, technegol, economaidd a chymdeithasol. Bydd fframwaith monitro a gwerthuso'r cynllun yn parhau i gael ei ddatblygu a'i gefnogi gan werthusiad annibynnol o'r rhaglen a fydd yn cynhyrchu fframwaith ar gyfer gwerthuso a monitro Cynlluniau Rheoli Pysgodfa unigol.

# Y broses werthuso ac adolygu ar gyfer dangosyddion

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid adolygu'r cynllun hwn pan fo'n briodol, ac o leiaf bob 6 blynedd. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu pa mor llwyddiannus y mae'r cynllun wedi cyflawni amcanion y Ddeddf. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn sail i ddatblygu fersiynau dilynol o'r cynllun. Gellid cynnal adolygiadau'n gynt os bydd tystiolaeth

berthnasol o rwymedigaethau rhyngwladol neu ddigwyddiadau ehangach yn golygu bod angen newid polisïau'r cynllun.

Ar ben hynny, bydd yr adroddiad sy'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi bob 3 blynedd mewn perthynas â'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd o dan adran 11 o'r Ddeddf hefyd yn adrodd ar i ba raddau y mae'r polisïau yn y cynllun hwn wedi cael eu rhoi ar waith ac wedi effeithio ar y lefelau stoc ar gyfer stociau perthnasol y cynllun.